# Cynllun Datblygu Lleol

2021 > 2036

**Cyngor Caerdydd - Ionawr 2025**

Papur Technegol Cefndir Rhif 9

# Cynllun Adnau

## Y Gymraeg




www.cdllcaerdydd.co.uk
02920 872087
CDL@caerdydd.gov.uk

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/
This document is available in English

CRYFACH TECACH GWYRDDACH

CARDIFF CAERDYDD

# Cynllun Datblygu Lleol Adneuo Caerdydd

# 2021 - 2036

# Papur Technegol Cefndir Rhif 9: Y Gymraeg

**Ionawr 2025**

Cynnwys

1. Cyflwyniad
2. Crynodeb Gweithredol
3. Cefndir Deddfwriaethol a Pholisi
4. Y Gymraeg yng Nghaerdydd - Demograffeg
5. Amcanestyniadau - Cyn-statudol/Meithrin
6. Addysg Statudol - Cynradd
7. Addysg Uwchradd
8. Hyrwyddo
9. Ôl 16/Colegau
10. Caerdydd Gymdeithasol
11. Seilwaith Weledol






## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r papur hwn yn rhan o sylfaen dystiolaeth y Cynllun Adneuo ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol Newydd 2026-2036 Caerdydd. Ei fwriad yn y lle cyntaf, ac yn bennaf, yw gosod cyd-destun ieithyddol y Gymraeg yng Nghaerdydd. Yn ail, cynnig cyd-destun trafod pellach i allu ystyried y rhan y mae'r Gymraeg yn ei chwarae mewn polisïau defnydd tir yn y ddinas ac effaith bosib penderfyniadau cynllunio ar y Gymraeg. Ac yn drydydd, ystyried rhai o'r heriau a'r *cyfleon* sydd ar gael o safbwynt y Gymraeg - ac awgrymu ystyriaethau a allai o bosib gryfhau gwead yr iaith â'r ddinas. I wneud hyn defnyddir cyfuniad o ffynonellau data ar y cyd â thriniaeth fwy ysgogol i dynnu sylw penodol at rai heriau a rhai cyfleon sy'n debygol o ddod dros gyfnod y cynllun datblygu arfaethedig.

Yn anorfod felly, er mai fel papur technegol y cyflwynir y ddogfen hon, mae hefyd yn rhoi trosolwg fwy cyffredinol o gyd-destun ieithyddol y Gymraeg yn y ddinas a dylid ei hystyried efallai yn fwy fel dogfen gyd-destunol na dogfen dechnegol bur. Ar dro mae'r driniaeth yn gyffredinol - fydd o fudd i ddarllenwyr sy'n anghyfarwydd â'r maes ac yn dod efallai at y pwnc am y tro cyntaf; dro arall bydd y driniaeth yn eithaf manwl, yn ystyried data diweddar ac yn fwy defnyddiol hwyrach i ddarllenwyr sydd eisoes yn gyfarwydd â'r maes.

Mae hon hefyd yn ddogfen fel y nodwyd i ysgogi – ynddi ceir nifer o ystyriaethau perthnasol sydd yn codi o gynnwys y testun - ar sail canfyddiad neu ddata - ac mae'r rhain wedi eu nodi mewn blychau penodol glas golau yn y testun. Eu bwriad yw helpu i amlygu sefyllfaoedd neu ystyriaethau penodol gan nodi heriau a chyfleoedd hefyd. Nid ydynt yn gynhwysfawr ond yn hytrach yn fan cychwyn gobeithio i fwy o feddwl, trafod, ysgogi a gweithredu.

**********

## 2. Crynodeb Gweithredol

Wrth baratoi'r *Strategaeth a Ffefrir* er mwyn ymgynghori arni dros fisoedd yr Haf 2023, a gweld cyhoeddi mwy o ystadegau Cyfrifiad 2021 yn dangos cynnydd bychan yn niferoedd a chanran siaradwyr y Gymraeg yng Nghaerdydd - ond gostyngiad dros Gymru yn gyffredinol – roedd hyn yn gyfle i gymryd golwg mwy cynhwysfawr ar sefyllfa'r Gymraeg yn y brifddinas a hynny yn benodol o fewn cyd-destun paratoi'r CDLlN, ac ar yr un pryd i edrych am ystyriaethau perthnasol a pholisïau newydd posib y gellid eu llunio i gefnogi'r Gymraeg a fyddai'n gallu ategu'r Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog[1] bresennol ac unrhyw esblygiad ar y strategaeth honno yn y dyfodol.

2.1 I gynorthwyo gyda'r gwaith hwnnw felly, ac i ategu'r ystyriaeth a roddwyd i'r Gymraeg yn flaenorol yn yr Arfarniad o Gynaliadwyedd, ond hefyd o ystyried y cyd-destun uchod yng ngoleuni nifer o ddatblygiadau deddfwriaethol a pholisi cenedlaethol ers mabwysiadu'r CDLl presennol 2006-2026, barnwyd y byddai'n fuddiol cael:

**i] papur cefndir technegol ar y Gymraeg ar gyfer CDLlN 2026-2036 (y ddogfen hon)**

**ii] adolygiad annibynnol o effaith Strategaeth a Ffefrir y CDLlN ar y Gymraeg**

**iii] asesiad effaith llawn annibynnol o Gam Adneuo'r Cynllun Datblygu Newydd ar y Gymraeg**

ac ynghlwm â hynny -

**iv] datblygu Polisi Strategol a Manwl newydd ar y Gymraeg fel rhan o CDLlN 2026-2036**

Ar ran y Cyngor felly, comisiynwyd arbenigwyr i ymgymryd â'r gwaith o adolygu'r Strategaeth a Ffefrir a chwblhau Asesiad Effaith llawn o'r Cynllun Adneuo ar y Gymraeg, ac i weithio gyda'r Cyngor ar ddatblygu polisi strategol a manwl newydd ar y Gymraeg.

2.2 Mae'r papur technegol cefndir hwn felly yn rhan o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer y CDLlN a'r gwaith asesu uchod, hynny yw yn rhan o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer penderfyniadau ar ddefnydd tir o fewn ffiniau'r Awdurdod hyd at 2036.

O safbwynt ieithyddol, rhaid i CDLlau fod ar unrhyw adeg benodol, yn addas i'r diben a dylent hefyd arddangos arfer gorau o ran y rhyngwyneb rhwng cynllunio ieithyddol a bwriadau awdurdodau cynllunio ar gyfer defnydd tir. Bwriad y papur hwn yw bod yn gymorth ac yn gyfraniad i lywio ystyriaethau tebyg ar lefel ranbarthol hefyd - fel rhan o gam y Cynllun Strategol rhanbarthol ehangach wrth i'r drefn honno ymsefydlu dros y blynyddoedd nesaf. Ni ddylid anghofio chwaith nad yw ystyriaethau fel hyn o ran defnydd tir ac iaith a diwylliant yn ehangach wedi eu cyfyngu i Gymru, ond yn hytrach mae'n nodwedd sydd i'w gweld ar waith heddiw hefyd yn rhai o ddinasoedd eraill Ewrop, ers rhai blynyddoedd fel yn Bilbao[2] neu Ddulyn yn fwy diweddar a'r cynlluniau yno ar gyfer

[1] Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022 i 2027.pdf

[2] The Department of Culture and Linguistic Policy of the Autonomous Basque Government signs agreement with the Port Authority of Bilbao to encourage the use of the Basque language in the Port of Bilbao. - Port of Bilbao hefyd Bilbao case study.docx

canolfan a rhwydwaith Wyddeleg y ddinas a chryfhau'r iaith Wyddeleg fel iaith gymunedol bentrefol mewn cyd-destun dinesig[3].

Yn nes at adref, y gobaith hefyd yw y bydd y wybodaeth yma o ddefnydd ymarferol i ddarparwyr gwasanaethau Cyngor Caerdydd, i ddatblygwyr safleoedd tai a chyflogaeth a busnesau - ac i nifer eraill o bartneriaid a rhanddeiliaid yr Awdurdod Lleol.

**********




2.3 ***Y Penawdau***

- Bu'r Gymraeg yn rhan o hanes a gwead twf Caerdydd o'i chychwyn. Fel y môr ym Mae Caerdydd, mae llanw'r Gymraeg wedi mynd a dod yn y ddinas dros y blynyddoedd ond braf gallu dweud bod y llanw wedi troi yma ac mae'r iaith ar gynnydd yng Nghaerdydd ers sawl degawd bellach.

- Gyda dyfodiad deddfwrfa Gymreig yn y Bae, mae hynny wedi arwain at lu o ddeddfwriaeth newydd ac effeithiau pellach sydd yn ymwneud â defnydd tir (ac â chynllunio ieithyddol) yng Nghymru. Un nodwedd sy'n codi o'r datblygiadau mwy diweddar hyn yw disgwyliad i Awdurdodau Lleol ysgwyddo tipyn o'r cyfrifoldeb dros ddatblygiad ieithyddol eu hardaloedd eu hunain. Mae'r papur yn amlygu hyn ar lefel dinas ond hefyd ymhellach ar lefel pwysigrwydd cymdogaethau unigol. Er hynny, fe ddylid hefyd gadw golwg ar y darlun rhanbarthol ehangach yn ogystal â chenedlaethol hefyd, oherwydd y gall fod datrysiadau i heriau i'w cael i'r cyfeiriadau hynny, neu fodd o wneud y mwyaf o gyfleon posib o leiaf, drwy gydweithio ar y gwahanol lefelau daearyddol perthnasol.

- Fel yr awdurdod a welodd y twf mwyaf ac un o bedair ardal yn unig a welodd gynnydd yn niferoedd eu siaradwyr Cymraeg yn y Cyfrifiad 2021, bydd gweddill Cymru yn edrych tua'r brifddinas i arwain y ffordd o ran cynyddu ymhellach niferoedd y siaradwyr Cymraeg yn y

---

[3] New project will work to develop Irish language quarter in Dublin hefyd 12.5 - Policies and Objectives | Dublin City Council a t.116-8 Dublin City Development Plan 2022 - 2028: Two-year Progress Report 2024

Cyfrifiad nesaf yn 2031 wrth i ni geisio gwireddu strategaeth *Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr*, Llywodraeth Cymru.

- Bydd addysg statudol yn *allweddol* i hynny, yn sicr – wedi'r cyfan ysgolion Cymraeg Caerdydd ac addysg drochi lawn fu'r 'peiriant' a fu'n cynhyrchu niferoedd siaradwyr mor llwyddiannus yn y ddinas ers pedwar degawd - ond ni ddylid anghofio pwysigrwydd creu siaradwyr newydd yn y gymuned na'r gweithle chwaith, yn bobl o bob oed. Yn y gymuned a'r gweithle hefyd y mae rhan fawr o'r ateb i'r ail her a osodwyd gan Cymraeg 2050, sef dyblu'r *defnydd dyddiol* o'r iaith erbyn 2050.

- O ran demograffeg y ddinas, mae'r papur yn amlygu bod clystyrau arwyddocaol bwysig o siaradwyr ym mhob rhan o Gaerdydd. Mae'r driniaeth yn sôn yn benodol am grwpiau ieithyddol ehangach na dim ond y siaradwyr rhugl - sef y garfan a gaiff eu defnyddio mewn trafodaethau ieithyddol ar y Gymraeg fel rheol. Mae hynny'n fwriadol am fod sefyllfa'r brifddinas yn un o dwf - nid o drai, ac eto  ar yr un pryd, yn 'gymysg oll i gyd'. Er mor allweddol yw trosglwyddo iaith o un genhedlaeth i'r nesaf i sicrhau goroesiad iaith, er mwyn *tyfu*'r iaith mae'n rhaid ennill aelwydydd newydd i'r Gymraeg. Mae natur a gwahaniaethau ieithyddol ar aelwydydd a rhwng y cenedlaethau yn nodweddion cynnil yma yn y ddinas, mae hefyd yn bwysig bod trafodaeth ar y Gymraeg yn gynhwysol o'r rhai nad ydynt yn siarad yr iaith efallai, ond sy'n teimlo ac yn arddel perthynas â'r iaith ac elfen o berchnogaeth drosti – efallai yn fam-gu neu dad-cu sydd ag wyres mewn ysgol Gymraeg - ac am fod yn rhan o'i byd bach newydd hi. Yn syml iawn, os yw rhywun yn deall Cymraeg llafar yna maen nhw ar y ffordd i groesi'r bont i fod yn ddefnyddwyr llafar ar yr iaith. Dros y blynyddoedd a'r cenedlaethau nesaf – ac fe gymer hi genedlaethau – er mwyn cynyddu defnydd dyddiol bydd gofyn hoelio'n sylw hefyd ar y garfan hon o drigolion, lawn cymaint â thalu sylw i warchod buddiannau siaradwyr hyderus y ddinas.

- Mae'r papur hefyd yn tynnu sylw at sefyllfa unigryw Caerdydd o ran dwysedd ei phoblogaeth o siaradwyr Cymraeg – a rhai sy'n deall yr iaith. Mae agosrwydd daearyddol y gymuned fawr hon o ran ei niferoedd, mewn dinas fechan, yn gwneud posibiliadau cynyddu defnydd dyddiol yn enwedig, yn gyffrous, ac yn rhywbeth a fydd yn gofyn am fwy o ystyriaeth wrth ddatblygu syniadau a chynlluniau hybu defnydd iaith yn y blynyddoedd i ddod. Awgrymir felly y dylid dynodi'r ddinas mewn termau cynllunio yn 'ardal o bwysigrwydd ieithyddol'.

- Mae angen adeiladu ar botensial cryfder yr agosrwydd cynhenid hwnnw sydd gan y ddinas a'r lle amlwg i gychwyn yw drwy gynyddu gwelededd yr iaith. Er bod hyn efallai yn teimlo'n elfennol, ond po fwyaf y caiff y Gymraeg ei gweld ar hyd a lled y ddinas, yna lleiaf anweledig ac amherthnasol fydd hi'n teimlo, mwyaf fydd yr hyder gan bobl i'w harddel hi a mwyaf tebygol fyddan nhw o ddefnyddio'r iaith a'i hadleisio hi - waeth beth yw lefel neu allu Cymraeg pob unigolyn. (Mae'r un pwyslais i'w weld yn ddiweddar ar ymdrechion cynllunio defnydd tir yn Nulyn gyda'r iaith Wyddeleg – yno er enghraifft mae 5% o ofod datblygiadau o faint penodol wedi ei neilltuo i weithgareddau diwylliannol, gyda phwyslais naturiol hefyd ar yr iaith).

- Mae gwelededd yr iaith yr un mor bwysig hefyd i drigolion sydd yn symud yma i fyw, lawer ohonynt o dramor ac efallai heb unrhyw syniad am fodolaeth y Gymraeg cyn cyrraedd Caerdydd. Unwaith eto, os yw'r iaith yn amlwg weledol iddynt, mae cyd-destun eu cartrefi

newydd a'u teimlad nhw o le, a'u cysylltiad emosiynol hyd yn oed, yn gallu newid ar amrantiad ar ôl cyrraedd.

- Mae cip bras i'w gael yn y ddogfen hefyd ar hyfywedd y bywyd cymdeithasol sydd i'w gael trwy gyfrwng y Gymraeg yng Nghaerdydd, bywyd nad sydd efallai mor hysbys hyd yn oed i rai sydd eisoes yn byw yma - oni bai eu bod yn rhan ohono.  O glybiau plant ac ieuenctid i fyfyrwyr a chorau a chymdeithasau a cherddoriaeth bop a chwaraeon a chyfryngau cymdeithasol, o roi y cyfan ynghyd, mae bwrlwm amlwg yn perthyn i'r iaith yng Nghaerdydd.

2.4 Nod y ddogfen felly yw dangos hyd a lled y berthynas ymarferol sydd rhwng defnydd tir ac ymdrechion i gryfhau iaith a bod modd sicrhau nid yn unig na fydd rhywbeth fel y Cynllun Datblygu Lleol o anghenraid yn profi'n rhwystr i dwf yr iaith yn y ddinas, neu ar y gorau'n ddi-hid neu'n niwtral o ran y drafodaeth, ond yn hytrach y sylweddoliad y gall strategaeth Cynllun Datblygu fod yn *rhan* o'r ateb – yn rhan o'r seilwaith adeiladol angenrheidiol a chreadigol hwnnw sydd ei angen mewn unrhyw ymgais i weld y Gymraeg yn tyfu yn y brifddinas yn y blynyddoedd nesaf.

**********

## 3. Cefndir Deddfwriaethol a Pholisi

3.1 Ers mabwysiadu'r CDLl presennol (2006-26), mae sawl datblygiad a datganiad perthnasol wedi newid cyd-destun y Gymraeg yn sylweddol o ran y Cynllun Datblygu Lleol 2026-36 newydd arfaethedig. Ceir crynodeb o'r rhai pwysicaf isod:

3.2 Dyhead newydd gan Lywodraeth Cymru - mae dogfen fframwaith cynllunio Llywodraeth Cymru (***Cymru'r Dyfodol,*** 2021)[4] yn datgan:

> "*Ein nod yw cael miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050 - sef cynnydd o bron 80% o gymharu â'r lefelau presennol. Bydd yr iaith yn cael ei hystyried o fewn strategaeth ofodol pob cynllun datblygu. Os mai'r Gymraeg yw iaith bob dydd y gymuned, caiff gwaith datblygu ei reoli er mwyn sicrhau bod swyddi a chartrefi ar gael fel y gall yr iaith barhau'n ganolog i hunaniaeth y cymunedau hynny. Mewn mannau eraill bydd gwaith datblygu yn rym cadarnhaol tuag at annog creu seilwaith addysgol a chymdeithasol er mwyn i'r iaith allu datblygu fel rhan naturiol, ffyniannus o gymunedau.*"

3.3 Ac ar gyfer **rhanbarth ehangach** y brifddinas:

> "*Gyda 150,792 o siaradwyr Cymraeg ar draws y rhanbarth, mae'n bwysig bod Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol yn ystyried y gydberthynas rhwng tai strategol, trafnidiaeth a thwf economaidd, a'r Gymraeg. Dylai Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol gynnwys hierarchaethau aneddiadau a pholisïau dosbarthu twf sy'n creu'r amodau i'r Gymraeg ffynnu ledled y rhanbarth ac yn annog datblygu cymunedau lle gall y Gymraeg fod yn iaith bob dydd.*"

3.4 *Mae **Polisi Cynllunio Cymru 12**[5]* yn rhoi rhagor o fanylion am *Y Gymraeg a Chreu Lleoedd:*

> *3.25 Mae'r Gymraeg yn rhan o'r ffabrig cymdeithasol a diwylliannol a bydd ei llesiant i'r dyfodol yn dibynnu ar bob math o ffactorau, yn enwedig addysg, newid demograffig, gweithgareddau cymunedol a sail economaidd gadarn i gynnal cymunedau a mannau cynaliadwy sy'n ffynnu. Dylai'r system cynllunio defnydd tir ystyried yr amodau sy'n hanfodol i'r Gymraeg a, thrwy wneud hynny, gyfrannu at ei defnyddio a'r nod llesiant y Gymraeg sy'n Ffynnu.*
>
> *3.26 Rhaid i awdurdodau cynllunio ystyried effeithiau tebygol eu cynlluniau datblygu ar y defnydd o'r Gymraeg fel rhan o'r Arfarniad Cynaliadwyedd. Dylai awdurdodau cynllunio geisio sicrhau dosbarthiad a chyflwyniad eang i'r datblygiad sy'n ystyried gallu'r ardal neu'r gymuned i ganiatáu'r datblygiad heb gael effaith andwyol ar y defnydd o'r Gymraeg.*
>
> *3.27 Dylai cynlluniau datblygu gynnwys datganiad ar sut mae awdurdodau cynllunio wedi ystyried anghenion a buddiannau'r Gymraeg wrth baratoi'r cynllun a sut mae unrhyw bolisïau yn ymwneud â'r Gymraeg yn rhyngweithio â pholisïau eraill.*
>
> *3.28 Gall ystyriaethau yn ymwneud â'r defnydd o'r Gymraeg gael sylw gan benderfynwyr cyn belled â'u bod yn berthnasol i geisiadau am ganiatâd cynllunio. Ni ddylai polisïau*

[4] Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040
[5] Polisi Cynllunio Cymru - Rhifyn 12

*a phenderfyniadau gyflwyno unrhyw elfen o wahaniaethu rhwng unigolion yn seiliedig ar eu gallu ieithyddol, ac ni ddylent geisio rheoli deiliadaeth tai ar sail ieithyddol.*

*3.29 Os bydd angen, gellir cynnal asesiadau o'r effaith ar yr iaith mewn perthynas â datblygiadau mawr na ddyrannwyd mewn cynllun datblygu sy'n cael eu cynnig mewn ardaloedd o sensitifrwydd neu bwysigrwydd arbennig i'r iaith. Dylai unrhyw ardaloedd o'r fath fod wedi'u diffinio'n glir yn y cynllun datblygu.*

3.5 ***Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015***

Mae egwyddor datblygu cynaliadwy yn ganolog i'r Ddeddf hon[6]- a welir yn gryno yn ei hanfodion.[7] Un o'r saith Nod Llesiant yw i sicrhau ***Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu***. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i bob corff cyhoeddus - fel awdurdodau cynllunio - baratoi cynlluniau a gweithredu mewn modd a fydd yn hyrwyddo ffyniant y Gymraeg yn ogystal â'i gwarchod.

Mae gwefan Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol bellach yn nodi'r Angen canlynol o ran y Gymraeg[8]:

*Nid yw cyrff cyhoeddus yn rhoi digon o sylw i ddiwylliant a'r Gymraeg yn eu hamcanion a'u cynlluniau llesiant.*

*Mae diffyg cyllid a phenderfyniadau byr eu golwg yn bygwth seilwaith a chydlyniant cymunedol.*

O ran gweithgaredd, dylid:

*Eirioli dros lesiant diwylliannol a'r iaith Gymraeg i gael mwy o flaenoriaeth mewn ymagweddau at lesiant...*

*Tynnu sylw at enghreifftiau sy'n datrys heriau trwy ddiwylliant a'r iaith Gymraeg....Sicrhau bod sefydliadau yn edrych yn fras ar sut y gallant wella llesiant diwylliannol, er enghraifft mewn meysydd fel tai, cynllunio defnydd tir, iechyd, addysg, ac adfywio cymunedol...*

*Cynghori cyrff cyhoeddus i gymryd camau i wella gwead ein cymunedau ac i werthfawrogi aml-ddiwylliannedd.*

3.6 **Comisiynydd y Gymraeg**

Yn 2019 cynhaliodd y Comisiynydd arolwg o weithdrefnau awdurdodau cynllunio yng Nghymru[9]. Mae canlyniadau'r arolwg a'r drafodaeth ynddi yn codi nifer o ystyriaethau pwysig sy'n parhau'n berthnasol ond sydd gobeithio'n derbyn sylw dyladwy a chydwybodol wrth i baratoadau CDLlN arfaethedig Caerdydd fynd rhagddynt.

*Er wedi ei nodi gan yr Arolygiaeth Gynllunio fel corff ymgynghori nad yw'n rhagnodedig yng Nghymru, fe ddylid nodi fod Comisiynydd y Gymraeg, yn yr un modd â chorff fel CADW, *i'w trin yn yr un modd â chyrff rhagnodedig* sydd yn y rheoliadau cyffelyb ar gyfer Lloegr.[10]

**Comisiynydd y Gymraeg**

[6] Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
[7] Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015: Yr Hanfodion
[8] Diwylliant a'r Iaith Gymraeg – The Future Generations Commissioner for Wales
[9] 20191216-dg-c-adroddiad-arolwg-cynllunio.pdf
[10] ANNEX 1 TO ADVICE NOTE 5 (VERSION 5: MAY 2013) (planninginspectorate.gov.uk)

**Pob cais arfaethedig sy'n debygol o effeithio ar dir yng Nghymru**

Nid yw Comisiynydd y Gymraeg wedi'i nodi'n ymgynghorai statudol yn Atodlen 1 y Rheoliadau CFfGR. Fodd bynnag, o ystyried y pwysigrwydd y mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn ei roi i gefnogi'r iaith Gymraeg, ystyrir y dylid ceisio barn Comisiynydd y Gymraeg mewn perthynas â phob cais arfaethedig sy'n debygol o effeithio ar dir yng Nghymru.

3.7 **NCT 20: Cynllunio a'r Gymraeg (2017)**[11]

Mae hwn yn rhoi arweiniad i awdurdodau cynllunio ar ddefnydd tir a'r Gymraeg a sut y dylid ystyried y Gymraeg wrth ddatblygu CDLlau. Mae'n argymell defnyddio fframwaith Arfarniad Cynaliadwyedd ac Asesiad Amgylcheddol Strategol i ddatblygu amcan cynaliadwy o ran y Gymraeg ac asesu cadernid y Cynllun Cyflawni Lleol yn erbyn yr amcan penodol hwnnw. Argymhelliad gwirfoddol llwyr yw hwn ac mae'r cyfrifoldeb i weithredu yn gorwedd yn sgwâr ar ysgwyddau'r Awdurdodau Lleol eu hunain.

3.8 **Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022-27**[12]

Mae'r strategaeth hon wedi mabwysiadu'r tair thema ynghyd â'u meysydd gwaith ategol a gyflwynwyd yng nghynllun gweithredu *Cymraeg 2050* Llywodraeth Cymru i gael miliwn o siaradwyr a dyblu'r defnydd er mwyn gwireddu gweledigaeth Cyngor Caerdydd o brifddinas sy'n wirioneddol ddwyieithog:

**Thema 1: Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg**
**Meysydd gwaith:** Trosglwyddo iaith o fewn y teulu, Blynyddoedd Cynnar, Addysg Statudol Addysg ôl-orfodol, Y gweithlu addysg, adnoddau a chymwysterau

**Thema 2: Cynyddu'r Defnydd o'r Gymraeg**
**Meysydd gwaith:** Y gweithlu, Gwasanaethau Cymraeg**,** Defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg

**Thema 3: Creu amodau ffafriol: seilwaith a chyd-destun**
**Meysydd gwaith:** Cymuned a'r economi, Diwylliant a'r cyfryngau, Cymru a'r byd ehangach, Technoleg ddigidol, Seilwaith ieithyddol, Cynllunio ieithyddol, Gwerthuso ac ymchwil

3.9 **Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Caerdydd 2022-31**

**'**Ein gweledigaeth yw gweld Caerdydd sy'n wirioneddol ddwyieithog.'[13]

Yn sail i'r weledigaeth hon y mae'r egwyddorion canlynol:

- Bydd egwyddorion y 'cymdogaethau 15-munud' yn cael eu cymhwyso i sicrhau bod pob dysgwr yn gallu cyrchu addysg Gymraeg o fewn pellter rhesymol i'w cartrefi.
- Ceisio sefydlu o leiaf 50% o'r ddarpariaeth lleoedd ysgol newydd ar safleoedd y Cynllun Datblygu Lleol fel darpariaeth Gymraeg.
- Gall pob plentyn yn y ddinas ddewis derbyn eu haddysg yn yr iaith o'u dewis gyda manteision addysg ddwyieithog yn cael eu hyrwyddo'n weithredol i bob rhiant o eni'r plentyn.
- Bydd rhieni'n cael cymorth i drosglwyddo eu plentyn, neu blant, i addysg Gymraeg ar unrhyw oedran, gyda throchi o ansawdd uchel yn cael ei gynnig i gefnogi ceisiadau trosglwyddo yn ystod y flwyddyn.
- Bydd dysgwyr sydd wedi cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg drwy'r cyfnod cynradd yn cael eu cefnogi'n rhagweithiol i barhau â darpariaeth uwchradd Gymraeg.
- Bydd y Cyngor yn gweithio gydag ystod eang o bartneriaid i hyrwyddo a chynyddu'n rhagweithiol ddwyieithrwydd Cymraeg/Saesneg.
- Bydd pob dysgwr yn cael cymorth i fod yn hyderus mewn dwy iaith o leiaf.

---

[11] NCT20: Cynllunio a'r Gymraeg
[12] Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022-27
[13] Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Caerdydd 2022-31

- Bydd holl ysgolion Caerdydd yn cynyddu faint o Gymraeg a addysgir, a ddefnyddir ac a glywir yn eu hysgolion, yn gyson â'r Cwricwlwm i Gymru newydd.
- Bydd dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn cael cyfle ieithyddol cyfartal.
- Bydd dysgwyr sydd â'r Gymraeg neu'r Saesneg fel ieithoedd ychwanegol yn cael cyfle ieithyddol cyfartal.
- Er mwyn hwyluso twf addysg Gymraeg byddwn yn ceisio cynnal capasiti ledled y ddinas yn y sector Cymraeg ar 10% uwchlaw'r nifer a ragamcennir.

3.10 Gan mai addysg drochi Gymraeg sydd wedi bod yn bennaf gyfrifol am greu siaradwyr Cymraeg newydd yn y ddinas, mae gweithredu'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA), lleoliad a niferoedd unrhyw leoedd ysgol newydd - yn y ddwy iaith - a sut/os bydd ysgolion Saesneg presennol yn symud ar hyd y continwwm ieithyddol ynghyd â gweithrediad y Cwricwlwm i Gymru newydd - yn *hanfodol* i dwf yr iaith yn y brifddinas - twf a all gael ei hybu a'i hwyluso neu ei lesteirio wrth weithredu'r Cynllun Datblygu newydd. Mae'n bwysig hefyd ail-ymweld â'r egwyddorion CSCA a nodwyd uchod i weld a ydyn nhw'n addas i'r diben bum mlynedd ers eu llunio - ac a ellir eu cryfhau ymhellach ai peidio drwy ychwanegu targedau ac amserlen mwy penodol a mesuradwy iddynt.

3.11 Mae i'r CSCA presennol 7 deilliant:
**Deilliant 1 - Mwy o blant meithrin / plant tair oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg**
**Deilliant 2 - Mwy o blant dosbarth derbyn / plant pump oed yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.**
**Deilliant 3: Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cam o'u haddysg statudol i'r llall.**
**Deilliant 4 - Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau a asesir yn y Gymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg**
**Deilliant 5 - Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau yn yr ysgol**
**Deilliant 6 - Cynnydd yn y ddarpariaeth addysg Gymraeg ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) (yn unol â'r dyletswyddau a osodir gan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2018**
**Deilliant 7 - Cynyddu nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu Cymraeg (fel pwnc) ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg**

3.12 **Bil y Gymraeg ac Addysg, 2024**

Hwn yw'r ddeddfwriaeth ddiweddaraf sy'n berthnasol i ddatblygiad addysg Gymraeg a chreu siaradwyr Cymraeg.[14] Yn ogystal ag adeiladu ar Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg diweddar yr awdurdodau addysg lleol, mae'n mynd law yn llaw hefyd â'r trefniadau newydd anstatudol i ail gategoreiddio ysgolion yn ôl eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg[15] ac hefyd â chyflwyno'r *Cwricwlwm i Gymru* newydd (*Cwricwlwm sydd yn rhoi pwyslais penodol ar ymwybyddiaeth o fro a lle fel un o'i bedwar diben sef bod disgyblion yn ddinasyddion "...*egwyddorol, gwybodus sy'n:...wybodus am eu diwylliant, eu cymuned, eu cymdeithas a'r byd yn awr ac yn y gorffennol".*[16]

Mae'r trefniadau categoreiddio newydd hefyd yn hwyluso camau i alluogi ysgol unigol i gynyddu ei darpariaeth Gymraeg a symud o un categori ymlaen i'r nesaf – yr hyn a elwir yn 'symud ar hyd y continwwm ieithyddol'. Mae hyn wedi ei nodi er enghraifft yn rhan o weledigaeth CSCA presennol

---
[14] Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru)
[15] WG43283
[16] Datblygu gweledigaeth ar gyfer cynllunio cwricwlwm - Hwb

Cyngor Shir Gâr - gyda'r ysgolion yn gallu symud ymlaen ar y continwwm yn dilyn ymgynghori cyhoeddus.[17]

Nod Bil y Gymraeg ac Addysg yw "...*ceisio sicrhau bod pob disgybl yn cyrraedd diwedd oedran ysgol gorfodol fel defnyddiwr iaith Gymraeg annibynnol... Y nod yw i bob disgybl ddatblygu sgiliau sy'n cyfateb i lefel B2 y fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin ar gyfer ieithoedd."*[18] Er mwyn gwireddu hynny, bydd rheidrwydd ar i ysgolion symud ar hyd y continwwm, fel y mae rhai ysgolion eisoes wedi dechrau gwneud. *Ceir trafodaeth lawnach ar Addysg yng Nghaerdydd yn adran 5 isod.

**********

[17] Ein gweledigaeth deng mlynedd ar gyfer cynyddu a gwella'r cynllunio darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn ein hardal - Cyngor Sir Caerfyrddin
[18] Association of Language Testers in Europe (ALTE) - Home

## 4. Y Gymraeg yng Nghaerdydd - Demograffeg

### 4.1 Caerdydd:

Prifddinas Cymru ers 1955 (Dynodiad dinas ers 1905)
54.2 milltir sgwâr / 140.3km
Poblogaeth 2021: 362,400
Dwysedd poblogaeth: 6,686 y filltir sgwâr [tua 18-19 o bobl i bob darn o dir maint cae pêl-droed]
Poblogaeth Prifddinas-ranbarth Caerdydd: c.1,543,293

### 4.2 Cyd-destun:

Cyn edrych yn fwy penodol ar y Gymraeg, ac ystadegau diweddar Cyfrifiad 2021[19], a data diweddarach, byddai'n fuddiol bwrw golwg ar ganfyddiadau adroddiad *Caerdydd Yfory*,[20] papur sy'n rhan o Adroddiad Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi nifer o ganfyddiadau a wnaed ar y pryd am ddyfodol twf Caerdydd dros y blynyddoedd nesaf - sydd yn wahanol i rai o'r rhagdybiaethau blaenorol adeg llunio'r CDLl 2006-26 presennol. [**Lluniwyd yr adroddiad dan sylw cyn cael canlyniadau Cyfrifiad 2021*]

### 4.3 Crynodeb o ganfyddiadau'r adroddiad:

Twf poblogaeth – bydd hwn yn parhau ond yn arafu rhwng 2020-2043 gyda chyfanswm twf o 19,688 yn unig gyda'r gyfradd uchaf ymhlith rhai 65+. Amcanestynnir y bydd cynnydd o 33% (i 68,364) yn y rhai 65+ a 52% (i 11,156) yn y rhai 85+ erbyn 2043. Bydd hyn yn arwain at angen a galw cynyddol am wasanaethau iechyd a gofal ac at dwf rhagamcanol yn nifer y bobl hŷn ag anghenion gofal cymhleth (gan gynnwys dementia difrifol)[21]; cynnydd yn y galw am wasanaethau yn seiliedig ar eiddilwch; a'r angen am ragor o lety i bobl hŷn. Mae'r boblogaeth hŷn wedi ei chanoli ar hyn o bryd yng ngogledd y ddinas. Mae'n rhesymol tybio felly y bydd i hyn oblygiadau o ran siaradwyr Cymraeg a'u hanghenion nhw yn ogystal. (Gweler hefyd y nodyn mwy diweddar ar faint y boblogaeth yn 4.9 – 4.11)

4.4 Rhagwelir cynnydd llai yn yr oedran 16-64 a gostyngiad yn yr oedran 0-15 oed fydd ag oblygiadau o ran cynllunio trefniadaeth ysgolion cynradd yn benodol a gwasanaethau a darpariaethau eraill i bobl ifanc. *"Mae'r amcanestyniadau hyn wedi newid yn sylweddol, gyda'r amcanestyniadau ar sail 2018 bellach yn rhagweld y bydd Caerdydd yn gweld cynnydd o 0.4% ar gyfartaledd yn nifer y bobl dan 18 o flwyddyn i flwyddyn hyd at 2023. Ar ôl 2023, rhagwelir y bydd gostyngiad cyfartalog o flwyddyn i flwyddyn o 0.5% i 2036, gan arwain at ostyngiad rhagamcanol o 4.4% yn y boblogaeth dan 18 erbyn 2036." (Caerdydd Yfory, 2022)*

4.5 Hefyd yn werth ei nodi: *"At hynny, dros y 25 mlynedd diwethaf, mae cyfraddau genedigaethau yng Nghaerdydd wedi dilyn patrwm cylchol. Mae'n bosibl y bydd cynnydd a gostyngiadau o hyd yn y gyfradd enedigaethau sy'n wahanol i amcanestyniadau Llywodraeth Cymru, yn enwedig pan fydd digwyddiadau llai cyffredin, megis effaith y pandemig, yn cael eu hystyried. Mae cyfraddau genedigaethau wedi gostwng yn is na phob un o dri thrywydd amcanestyniadau poblogaeth Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd yn 2011, 2014 ac, yn fwyaf diweddar, yn 2020 (yn seiliedig ar ddata*

---

[19] Exec-Summary-Welsh-Final.pdf (cardiffpartnership.co.uk)
Amcanestyniadau o'r boblogaeth yn ôl awdurdod lleol a blwyddyn
[20] Caerdydd Yfory (2022)
[21] https://www.comisiynyddygymraeg.cymru/media/h0knbvow/final-reportwlc.pdf

*2018). Gallai hefyd godi ar gyfradd uwch yn y dyfodol." (Caerdydd Yfory, 2022) [**Mae gwybodaeth o'r Cyfrifiad a ffynonellau data poblogaeth mwy diweddar yn awgrymu tueddiadau gwahanol eto, gweler 4.9 – 4.11*].*

4.6 Yn ôl yr adroddiad, bydd ysgolion uwchradd ar y llaw arall yn llenwi yn y blynyddoedd nesaf, felly her digonolrwydd lleoedd fydd i'r sector honno am gyfnod. O ran sgil effeithiau Covid ar blant a phobl ifanc, o ran y perthnasedd mwyaf i siaradwyr Cymraeg, nodwyd bod plant ag anghenion dysgu arbennig a phlant o gefndiroedd Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol a disgyblion cyfrwng Cymraeg nad ydynt yn siarad Cymraeg gartref ymhlith y carfannau mwyaf agored i niwed wedi'r pandemig.

4.7 Mae'r darlun o ran mudo net yn ansicr iawn yn dilyn newidiadau Brexit ac effeithiau Covid ond os yw'r ddinas yn tyfu yn y dyfodol, gellir tybio y bydd hynny'n golygu y bydd y gyfradd fudo net yn parhau yn bositif, ac efallai yn gyrru'r twf hwnnw. [Eto, gweler 4.9 – 4.11]

Ar y llaw arall, o ran siaradwyr Cymraeg, gan fod twf niferoedd siaradwyr y ddinas yn y degawdau mwy diweddar wedi dibynnu'n rhannol o leiaf ar siaradwyr yn mudo i'r ddinas am resymau gwaith, gallai Covid (a Brexit i raddau llai o bosib) gael effaith fwy negyddol ar y niferoedd yna.

Yn yr un modd, yn dibynnu ar y lefelau mewnfudo, gallai sgil effeithiau Covid a Brexit hefyd gael dylanwad – drwy leihau neu chwyddo cyfran poblogaeth y ddinas sy'n ystyried eu hunain yn ethnig amrywiol neu o'r mwyafrif byd-eang (h.y. yn uniaethu fel rhai nad ydynt yn wyn). Cynyddodd canran y garfan hon yn y ddinas o 15.3% yn 2011 i 20.8% yn 2021. Mae 25% o'r rheiny rhwng 16-24 oed a dim ond 18% ohonynt sydd dros 50 oed. (Cyfrifiad 2021). Dylid cofio hefyd fod canran uwch o'r boblogaeth hon yn byw yn wardiau canol y ddinas. Yma eto mae'r data poblogaeth mwy diweddar gan y SYG a drafodir yn 4.9 – 4.11 yn berthnasol.

4.8 Mae'n bwysig ein bod yn cadw golwg ar sawl ffynhonnell o ran data poblogaeth oherwydd y gall rhai ffynonellau amlygu tueddiadau nad sydd i'w gweld mewn Cyfrifiad unwaith bob degawd. O ran twf siaradwyr Cymraeg, ers cyhoeddi **Caerdydd Yfory** yn 2022, yn ôl adroddiad diweddaraf Arolwg Blynyddol y Boblogaeth[22], mae Caerdydd yn y trydydd safle o ran Awdurdodau Lleol Cymru sydd â'r niferoedd mwyaf o drigolion yn siarad Cymraeg, gan roi ffigwr o **80,600**.

***Mae'r ffigurau hyn yn dra gwahanol i rai swyddogol y Cyfrifiad** (lle mae Caerdydd hefyd yn parhau fel yr awdurdod yn y trydydd safle yn ôl Cyfrifiad 2021, ond gyda **42,757** o siaradwyr rhugl - gyda'r gwahaniaeth rhwng canlyniadau data'r ddau i'w briodoli'n bennaf i'r cwestiynau a gaiff eu holi a'r dulliau gwahanol a ddefnyddir i gasglu'r data). Mae maint sampl yr Arolwg Blynyddol wedi lleihau dros y degawd diwethaf hefyd sy'n golygu mai tueddiadau yw cryfder y data hwn yn hytrach na niferoedd absoliwt. Trafodir y gwahaniaethau ystadegol mewn blog gan yr ystadegydd.[23]


4.9 Mae'n werth nodi ar y pwynt hwn hefyd y wybodaeth ddiweddaraf ar dwf poblogaeth y ddinas. Yn gyffredinol, er yn is nag amcanestyniadau'r gorffennol, fe dybiwyd y byddai'r boblogaeth yn parhau i dyfu gan cyrraedd oddeutu 375,700 erbyn 2028 – yn deillio'n bennaf o nifer uwch o enedigaethau na marwolaethau ynghyd ag ychydig o fudo net. Rhwng 2011-21 fe dyfodd y boblogaeth ryw 14k sef 4.2%. Ond erbyn hyn, mae'r data diweddaraf gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG/*ONS*) yn awgrymu patrwm go wahanol (Ffig 1 isod).

---

[22] Data am y Gymraeg o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth | LLYW.CYMRU
[23] Diweddariad y Prif Ystadegydd: deall data Cyfrifiad 2021 am y Gymraeg | Blog Digidol a Data (llyw.cymru)

4.10 Yn ôl data hanner blwyddyn y SYG ar gyfer 2022 a 2023, amcenir bod poblogaeth y ddinas wedi gweld naid sylweddol yn y 2 flynedd ddiwethaf, gan gyrraedd cyfanswm o **383,536** (SYG - Haf 2024) sef cynnydd o 6.6% mewn 2 flynedd. Mae hyn yn dra gwahanol i oleddf llinell amcanestyniad poblogaeth LlC yn 2018 (y llinell oren isod yn y graff).

*Disgwylir amcanestyniadau newydd gan LlC yn 2025 a fydd wedi ei seilio ar ddata 2022 – sef wedi'r Cyfrifiad ac wedi Brexit – ond mae'n ansicr a fydd yn cynnwys mwy na chyfran yn unig o'r twf poblogaeth diweddar a ddangosir yma (cynffon y llinell las). Mae'r naid hwnnw i'w briodoli'n bennaf i fudo rhyngwladol sylweddol ers 2021. [Dylid cadw mewn cof hefyd bod peth amryfusedd ynghylch data gwaelodlin y Cyfrifiad ei hun oherwydd Covid – sydd yn ei hanfod yn golygu efallai bod y niferoedd myfyrwyr rhyngwladol arferol a fyddai wedi bod yma adeg Cyfrifiad deng mlynedd arferol heb eu cyfrif yn 2021 – ond eu bod wedi dychwelyd i Gaerdydd oddi ar ddiwedd Covid yn 2022. Ond go brin fod hynny'n egluro'r cynnydd uchod yma'n llwyr gan fod yr un yn wir am ddinasoedd eraill yn y Deyrnas Gyfunol â phrifysgolion sydd â niferoedd uchel o fyfyrwyr rhyngwladol yn eu rhengoedd. Ymhellach, yn ôl y data poblogaeth diweddaraf hwn gan y SYG, mae Caerdydd yn ail yn unig i Lundain bellach o ran twf poblogaeth dinasoedd craidd y Deyrnas, lle bu gynt tuag at waelod y tabl hwnnw].




*Ffigwr 1: Newid diweddar poblogaeth Caerdydd yn ôl ffigurau hanner blwyddyn y SYG*

4.11 Rhwng 2012 a 2021 y cyfanswm mudo blynyddol net i Gaerdydd oedd 25,041. Rhwng 2021 a 2023 fodd bynnag, gwelwyd cyfanswm mudo blynyddol net o 19,249, felly mae'r ddwy flynedd ddiwethaf sydd gennym wedi gweld cynnydd sy'n cyfateb i 76% o'r hyn a welwyd dros y degawd blaenorol. Cofier hefyd mai dim ond 19,688 o dwf mewn 23 mlynedd rhwng 2020 – 2043 a ragwelwyd yn Adroddiad *Caerdydd Yfory* – sef rhan o'r dystiolaeth pan ddechreuwyd ar y gwaith o baratoi'r CDLlN yn 2021 [gweler 4.3 uchod].

Mae rhyw dri chwarter y newid diweddaraf hwn wedi ei yrru yn bennaf gan fudo rhyngwladol sylweddol o'r **tu allan** i'r Undeb Ewropeaidd, wedyn o'r chwarter sy'n weddill daw ffoaduriaid rhyngwladol a mudo o rannau eraill o'r DU (gan gynnwys rhannau eraill o Gymru), mudo o dir mawr Ewrop ei hun a dim ond ychydig o'r cynnydd sydd i'w briodoli i dwf cynhenid poblogaeth Caerdydd (sef llai yn marw nag sy'n cael eu geni) gweler Tabl A isod.

4.12 Mae'n bwysig cofio mai carfannau ifanc yw'r mwyaf o ddigon o'r mudwyr rhyngwladol newydd hyn, daw 60% o'r cynnydd o blith y garfan 20-29 oed - y rhan fwyaf erbyn hyn yn dod yma i weithio yn fwy nag i astudio yn ôl pob tebyg – sydd eto'n gwrth-ddweud rhywfaint o effaith bosib Covid ar y Cyfrifiad a nodwyd uchod yn 4.10. Mae'n werth nodi hefyd eu bod yn cynnwys rhai miloedd o blant o oed ysgol statudol – uwchradd yn bennaf (* bydd y rhain wedi eu cyfrif yn ystadegau blynyddol CYBLD (PLASC) ar gyfer y blynyddoedd dan sylw sef CYBLD 2023 a 2024).

| Cyfnod | Amcan Pob. Dechrau'r Cyfnod | Newid Naturiol | Mudo Mewnol Net (DU) | Mudo Rhyngwladol Net | Arall | Amcan Pob. Diwedd y Cyfnod |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Can-2011 i Can-2012 | 345,442 | 2,205 | 327 | 1,343 | -1,233 | 348,084 |
| Can-2012 i Can-2013 | 348,084 | 1,760 | -725 | 2,071 | -1,208 | 349,982 |
| Can-2013 i Can-2014 | 349,982 | 1,963 | -1,683 | 1,989 | -1,347 | 350,949 |
| Can-2014 i Can-2015 | 350,949 | 1,704 | -2,131 | 2,735 | -1,657 | 351,600 |
| Can-2015 i Can-2016 | 351,600 | 1,787 | -1,603 | 2,864 | -1,666 | 352,982 |
| Can-2016 i Can-2017 | 352,982 | 1,407 | -539 | 2,110 | -1,612 | 354,348 |
| Can-2017 i Can-2018 | 354,348 | 1,046 | -1,088 | 2,566 | -1,747 | 355,125 |
| Can-2018 i Can-2019 | 355,125 | 1,114 | -781 | 3,739 | -2,060 | 357,137 |
| Can-2019 i Can-2020 | 357,137 | 659 | 2,614 | 2,054 | -2,177 | 360,287 |
| Can-2020 i Can-2021 | 360,287 | 636 | -2,770 | 3,570 | -1,899 | 359,824 |
| | | | | | | |
| Can-2021 i Can-2022 | 359,824 | 903 | 555 | 9,833 | -11 | 371,104 |
| Can-2022 i Can-2023 | 371,104 | 466 | 2,456 | 9,416 | 94 | **383,536** |

*Tabl A: Newidiadau poblogaeth Caerdydd ar sail mudo a newid naturiol 2011-2023 (SYG, 2024)*

**Ystyriaeth:** Nid oes rheswm cryf ar hyn o bryd i amau na fydd ffigyrau hanner blwyddyn 2024, a gaiff eu rhyddhau yn haf 2025, yn wahanol iawn i'r patrwm newydd hwn – ni ddaeth gweinyddiaeth newydd i fod yn San Steffan tan yr haf 2024 ac felly ni fydd unrhyw newid polisi arfaethedig ar fewnfudo rhyngwladol yn cael eu hadlewyrchu yn y ffigyrau hanner blwyddyn ar gyfer 2024.


Golyga hynny y gallai poblogaeth Caerdydd yn hawdd groesi trothwy'r 400,000 yn ystod y ddwy flynedd nesaf. Golyga hefyd y gallai'r gyfradd enedigaethau yn y ddinas fod yn wahanol i'r disgwyl dros y blynyddoedd nesaf hefyd a chynyddu yn gynt na'r patrwm cylchol posib a ragamcennir - a'r taflwybr disgwyliedig yn y gyfradd enedigaethau at ddiwedd cyfnod y CDLLN, sef wrth i'r boblogaeth ychwanegol hon sydd yn eu hugeiniau heddiw ddechrau magu teuluoedd yn eu tridegau yfory.

Bydd hyn hefyd yn ystyriaeth wrth feddwl am gynlluniau i hybu a hyrwyddo'r Gymraeg ymhlith cymunedau amrywiol y ddinas wrth i gyfran y rhai 16-24 oed sydd o gefndiroedd Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol gynyddu ymhellach uwch law'r 25% a gofnodwyd yn y Cyfrifiad yn 2021.

Mae'r ffigyrau a'r tablau hyn oll yn dangos bod y darlun ar lawr gwlad yn newid yn barhaus a bod yn rhaid ail-gloriannu unrhyw wybodaeth newydd hefyd yn barhaus, fel y daw data newydd i law. Bydd hynny yn rhan o'r gwaith a fydd yn sail i adroddiadau monitro blynyddol y CDLlN.

4.13 **Taflwybr 2050**

Wrth ystyried niferoedd y siaradwyr Cymraeg a'r twf sydd angen ei weld er mwyn gallu gwireddu'r weledigaeth a strategaeth llywodraeth Cymru o 1 filiwn o siaradwyr erbyn 2050, gwelir bod y llywodraeth wedi seilio ei strategaeth ar batrwm twf bychan ym mlynyddoedd cyntaf y strategaeth sy'n graddol gynyddu ac ymwahanu o'r amcanestyniad drwy gyfrwng nifer o ymyraethau polisi a chamau i gryfhau'r niferoedd - fel bod y gyfradd dwf ar ei hanterth yn y blynyddoedd olaf cyn 2050. Yn ôl y taflwybr hwn adeg cyhoeddi'r strategaeth wreiddiol, byddem wedi gweld cynnydd bychan iawn yn nifer y siaradwyr Cymraeg rhwng dau gyfrifiad 2011 a 2021. Erbyn diwedd cyfnod y CDLlN - a fydd bymtheg mlynedd yn ddiweddarach yn 2036 - dylai'r gyfradd honno ddangos cynnydd mwy sylweddol, a chynyddol, uwch law yr amcanestyniad poblogaeth, fel y gwelir yn Ffig 2 isod.




*Ffigwr 2: Amcanestyniad a thaflwybr Llywodraeth Cymru, nifer siaradwyr 3+ oed, 2011-2050*[24]

4.14 Golyga hynny bod LlC yn anelu am 750,000 o siaradwyr erbyn 2036, sef diwedd cyfnod y CDLlN a hynny wedi ei seilio ar 600,000 o siaradwyr yng Nghymru yn 2021, a 630,000 yn 2026 – sef blwyddyn gyntaf arfaethedig y CDLlN. O drosi hynny ar gyfer taflwybr i ardal Caerdydd, gan ddilyn yr un proffil twf, a chan gymryd bod y ganran ar gyfer Caerdydd yn parhau yn ddigyfnewid ar 7.9% o siaradwyr Cymru, byddai hynny yn rhoi disgwyliad i nifer siaradwyr Cymraeg Caerdydd godi o 49,770 yn 2026 i tua 59,250 erbyn 2036. Mae hynny gyfystyr â thwf yng Nghaerdydd o 9,480 dros 10 mlynedd - neu +948 yn llinol bob blwyddyn rhwng 2026-36.

[24] amcangyfrifon-siaradwyr-cymraeg-2011-i-2050-adroddiad-technegol.pdf

Caerdydd Ddwyieithog Bilingual Cardiff

Mae hwn yn darged sydd yn heriol *iawn* o ystyried mai 538,300 a gofnodwyd yng Nghymru yn y Cyfrifiad ei hun, yn erbyn amcanestyniad LlC o 584,000 ar gyfer 2021, ond 600,000 i'r un flwyddyn hefyd ar gyfer y taflwybr strategaeth dwf 2050 a luniwyd yn 2018! O drosi hyn ar gyfer Caerdydd, byddai gofyn i'r boblogaeth dyfu 16,493 dros y pymtheg mlynedd 2021-2036, o 42,757 i 59,250 er mwyn cyrraedd lefel cynnydd siaradwyr Cymraeg i gyfateb â goleddf y taflwybr, sef targed mwy heriol fyth o +16,493, sef +1,099 o siaradwyr ychwanegol fesul blwyddyn linol.

**Mae disgwyl i Lywodraeth Cymru gyhoeddi set newydd o daflwybrau poblogaeth yn 2025 fydd wedi eu seilio ar ddata'r Cyfrifiad ond yn ystyried peth data diweddarach hefyd. Felly gallwn ddisgwyl gweld amrywiad sylweddol ar y ffigwr taflwybr twf hwn tuag at 2050 yn ystod y flwyddyn nesaf.*


4.15 Gwyddom mai **gostyngiad** a welwyd yn niferoedd siaradwyr y Gymraeg ar draws Cymru gyfan yn 2021. Yn syml mae hynny'n golygu y bydd taflwybr strategaeth genedlaethol 2050, a seiliwyd ar amcanestyniadau 2018 yn wreiddiol, pan gânt eu diwygio â goleddf ricyn yn fwy serth na'r llinell las uchod, a maint y dasg yn gofyn efallai am hyd yn oed fwy o ymdrech a gweithredu ac ymyraethau polisi ar lefel genedlaethol.

**Ystyriaeth:** Pwynt gwerth ei nodi, gan fod mwyafrif helaeth ardaloedd awdurdodau lleol Cymru wedi profi gostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn y cyfnod 2011-21, yna er mwyn gwireddu 2050, nid syndod meddwl y byddai gofyn i'r twf cyffredinol yn nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd ac ambell ardal dwf arall erbyn 2036 fod yn uwch hyd yn oed na'r 16,493 a nodir uchod *er mwyn gwneud iawn am ddiffyg twf - a dirywiad posib* - mewn ardaloedd eraill yng Nghymru, yn enwedig *os* bydd pobl yn parhau i fudo i Gaerdydd o gymunedau traddodiadol fwy dwys eu Cymraeg yn y gorllewin a'r gogledd.

4.16 **Cyfrifiad 2021**

Er bod y cynllun datblygu arfaethedig ac adroddiad *Edge Analytics* wedi ei seilio ar ragamcanion twf a wnaed cyn cyhoeddi canlyniadau Cyfrifiad 2021, mae'r canlyniadau mwy diweddar yn y Cyfrifiad yn cynnig fframwaith naratif gadarn ac amserol iawn at ddibenion llunio asesiad effaith llawn o'r CDLlN arfaethedig ar y Gymraeg, gan amlinellu union faint yr her, gan gofio hefyd mai data'r Cyfrifiad ar hyn o bryd o leiaf, yw'r mesur pennaf o hyd i drafod hyfywedd sefyllfa'r Gymraeg o ran cynllunio ieithyddol.

Sut cyrhaeddon ni'r fan hon felly?
Hanes o dwf yn nifer siaradwyr Cymraeg Caerdydd yw stori'r Cyfrifiad yng Nghaerdydd yn gyffredinol ers y 1980au, ond er bod y nifer siaradwyr wedi bron a threblu yn y 40 mlynedd rhwng 1981 a 2021, o ryw 15,000 i 42,757 yn 2021, fel y nodwyd uchod, mae hynny wedi digwydd o fewn cyd-destun lle tyfodd poblogaeth y brifddinas dros 100,000 - o ryw 260,000 i 362,400. Mae'r gwahaniaeth yn y cyfraddau twf i'w gweld isod:





*Ffigwr 3: Twf poblogaeth v twf siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd 1961-2021 (h. Atlas y Gymraeg, 2024)*[25]

4.17 Felly er bod twf yn nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd yn nodwedd gadarnhaol ac wedi parhau i gynyddu yn y Cyfrifiad diweddaraf, mae'r twf hwnnw hefyd wedi arafu o'i gymharu â'r twf ddiwedd y ganrif ddiwethaf gyda chynnydd o ryw **6,000** yn unig yn y 10 mlynedd o 2011-2021 i **42,757**. Er mwyn gwireddu'r twf angenrheidiol rhwng 2021 a'r Cyfrifiad nesaf yn 2031 tuag at daflwybr 2050, yng Nghaerdydd byddai gofyn gweld twf fesul blwyddyn o 1,099 fel y nodwyd uchod yn 4.14, neu gyfanswm o tua 11,000, bron i ddwywaith y twf mewn niferoedd a welwyd yn ail ddegawd y ganrif.

4.18 Ymhlith yr arwyddion mwy cadarnhaol yng Nghyfrifiad 2021, gwelwyd cynnydd yn niferoedd y plant 3-15 oed yng Nghaerdydd yn medru'r Gymraeg (cynnydd o bron **1,300** ers 2011), er bod y ganran yn yr oed hwnnw ar 26.2% ychydig yn is na'r 26.7% yn 2011. Cafwyd cynnydd hefyd yn y niferoedd 16-24 oed (**+863**) ac yn y ganran o 11.5% yn 2011 i 13.9% yn 2021. Bychan yw'r cynnydd yn y niferoedd 25-34 oed yn wahanol i weddill y wlad lle gwelir cynnydd ychydig mwy - ond gwelir mwy o dwf yn yr oedrannau hŷn yn y ddinas - cynnydd o **2,521** yn y rhai 35-64 oed a **724** arall (+35%) yn y rhai 65+ ers 2011. Gweler Ffigwr 4 isod:

[25] Caerdydd | Atlas y Gymraeg




| | 3-15 | 16-24 | 25-34 | 35-49 | 50-64 | 65+ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm poblogaeth 2011 | 49,158 | 60,626 | 55,805 | 67,066 | 54,066 | 45,552 |
| Cyfanswm poblogaeth 2021 | 54,926 | 60,403 | 56,304 | 67,409 | 59,695 | 52,499 |
| Nifer siaradwyr Cymraeg 2011 | 13,125 | 7,508 | 5,555 | 5,322 | 2,926 | 2,299 |
| Nifer siaradwyr Cymraeg 2021 | 14,406 | 8,371 | 6,184 | 6,696 | 4,073 | 3,023 |

*Ffigwr 4: Newid ymhlith grwpiau siaradwyr Cymraeg Caerdydd 2011-2021* (*h. Atlas y Gymraeg 2024*)[26]

**Ystyriaeth**: – *Efallai* bod awgrym o ffenomen newydd yma sef mwy o bobl hŷn yn symud i'r ddinas a/neu rai arferai symud allan o'r ddinas yn y gorffennol (ar ôl i'w plant adael cartref neu wrth iddynt ymddeol efallai) bellach yn dewis parhau i fyw yng Nghaerdydd. Ond rhaid cofio bod y cynnydd ym maint y carfannau oedran hŷn yn duedd gyffredinol, nid yn duedd ymhlith siaradwyr Cymraeg yn unig. Fodd bynnag, mae *yn* amlygu ystyriaeth na chafwyd fawr ddim trafod yn ei gylch hyd yn hyn, wrth i'r garfan hon dyfu yn ei maint yn y blynyddoedd nesaf, beth fydd y lefelau darpariaeth o ran gwasanaethau i siaradwyr Cymraeg hŷn y ddinas - yn enwedig o ran iechyd a gofal, ond hefyd o ran tai, cyfleusterau addas a bywyd cymdeithasol?

O ran y garfan yn y canol (35-64 oed), dylid cofio hefyd bod disgyblion yr ysgolion cynradd newydd a agorwyd yn y ddinas yn ystod yr 80au (Treganna, Coed y Gof, Melin Gruffydd, y Wern, Bro Eirwg) ac Ysgol Uwchradd Glantaf hefyd, bellach (os arhosodd y disgyblion yng Nghaerdydd neu os daethon nhw nôl i fyw a gweithio yn y ddinas) yn perthyn i'r garfan 35–64 yn y Cyfrifiad hwn - yn y ddinas hon y mae eu gwreiddiau nhw, felly go brin eu bod yn meddu ar yr un ysfa â rhai o'u cyfoedion yn y ddinas sy'n hannu o fannau eraill yng Nghymru, i symud 'nôl adre' wedi cyfnod estynedig yn y brifddinas.

Ar y llaw arall, mae'n *bosib* y bydd sgil effeithiau fel Covid, prisiau tai a rhenti uwch - a mwy o weithwyr yn gallu gweithio'n hyblyg hefyd - yn dylanwadu *i'r gwrthwyneb* ar union faint y garfan hon yn y dyfodol ac yn ysgogi mwy ohonynt i symud 'nôl adre' neu i symud 'mas o'r ddinas' am y tro cyntaf efallai - i chwilio am ansawdd bywyd gwahanol.

[26] Ibid. Ffigwr 3

4.19 Mae'n werth nodi hefyd ddosbarthiad economaidd siaradwyr Cymraeg ar draws y ddinas. Mae'n hen dybiaeth gyffredin mai 'plant y dosbarth canol Cymraeg' sy'n mynychu addysg Gymraeg yng Nghaerdydd. Os bu hynny'n wir unwaith, dyw'r data heddiw ddim yn cefnogi hynny – ddim yn llwyr o leiaf. Eto i gyd mae gwahaniaeth i'w weld gyda siaradwyr Cymraeg yn tueddu bod *rhyw gymaint* yn gryfach yn yr ardaloedd economaidd sydd â llai o amddifadedd, ac yn wannach yn yr ardaloedd lle ceir mwy o amddifadedd.

Yn ôl mesur MALlC (Mesur Amddifadedd Lluosog Cymru / *WIMD*) sy'n mesur amddifadedd fesul pumed rhan o'r boblogaeth mewn cymunedau penodol ar draws Cymru, wrth edrych ar siaradwyr rhugl dros 3+ oed yng Nghaerdydd, gallwn weld yn Nhabl B isod bod canran y siaradwyr Cymraeg yn uwch po leiaf yw lefel yr amddifadedd mewn ardal, ac yn llai niferus po fwyaf yw lefel yr amddifadedd mewn ardal.

**Mae'r mesur MALlC yn defnyddio nifer o ddangosyddion amrywiol gan gynnwys incwm, cyflogaeth, iechyd, addysg, hygyrchedd gwasanaethau, tai a diogelwch cymunedol. Mae'r mesur yn cael ei wneud ar ardaloedd bach economaidd AGEHI – Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA).***

***Mae ardaloedd AGEHI yn gyfuniadau o ardaloedd cynnyrch, pedwar neu bump ardal fechan fel rheol, ac mae i bob AGEHI rhwng 400-1,200 o aelwydydd a phoblogaeth sydd rhwng 1,000 a 3,000. Maent wedi eu rhannu'n weddol gydradd o ran eu lefelau poblogaeth ar draws Caerdydd, yn fwy felly na wardiau etholiadol, ond mae eu ffiniau yn gallu newid, felly mae'n anodd olrhain trywydd newid ynddynt dros nifer o flynyddoedd.*

| Pumed Amddifadedd | Nifer sy'n gallu siarad Cymraeg | Nifer NAD sy'n gallu siarad Cymraeg | Pob preswylydd arferol 3+ oed | Gallu siarad Cymraeg % | Methu siarad Cymraeg % |
|---|---|---|---|---|---|
| Amddifadedd Mwyaf | 6,042 | 64,174 | 70,216 | 8.6 | 91.4 |
| Amddifadedd Mwyaf Nesaf | 7,652 | 66,048 | 73,700 | 10.4 | 89.6 |
| Canol | 9,139 | 62,874 | 72,013 | 12.7 | 87.3 |
| Amddifadedd Lleiaf Nesaf | 9,594 | 58,509 | 68,103 | 14.1 | 85.9 |
| Amddifadedd Lleiaf | 10,335 | 56,875 | 67,210 | 15.4 | 84.6 |
| Cyfanswm Caerdydd | 42,757 | 308,483 | 351,240 | 12.2 | 87.8 |

*TABL B: Lefelau Amddifadedd a gallu siarad Cymraeg, Cyfrifiad 2021*

Gwelir uchod felly bod canran y siaradwyr Cymraeg uchaf (15.4%) yn byw yn yr ardaloedd â'r amddifadedd lleiaf (sef yr 20% o AGEHIau mwyaf breintiedig yn y ddinas). Mae hynny bron i ddwywaith canran y siaradwyr Cymraeg a geir yn yr ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf ar 8.6% (sef yr 20% o AGEHIau lleiaf breintiedig).

4.20 Mae'r un duedd i'w gweld wrth edrych ar batrwm daliadaeth tai hefyd, lle gwelir tuedd i ganran uwch o siaradwyr Cymraeg fod yn berchen ar eu cartrefi eu hunain, a chanran is ohonynt yn rhentu tai cymdeithasol.

| Daliadaeth aelwyd | Nifer sy'n gallu siarad Cymraeg | Nifer NAD sy'n gallu siarad Cymraeg | Pob un 3+ oed ar yr aelwyd | Gallu siarad Cymraeg % | Methu siarad Cymraeg % |
|---|---|---|---|---|---|
| Perchen: Perchen yn llwyr | 8,032 | 72,389 | 80,421 | 10.0 | 90.0 |
| Perchen: Perchen â morgais, benthyciad neu berchen a rennir | 20,780 | 94,249 | 115,029 | 18.1 | 81.9 |
| Rhentu: Rhentu cymdeithasol | 3,921 | 52,974 | 56,895 | 6.9 | 93.1 |
| Rhentu: rhentu preifat neu fyw'n ddi-rent | 8,852 | 74,633 | 83,485 | 10.6 | 89.4 |
| Pob preswylydd 3+ oed mewn Aelwydydd | 41,585 | 294,245 | 335,830 | 12.4 | 87.6 |


*Tabl C: Daliadaeth Aelwyd a gallu siarad Cymraeg, Y Cyfrifiad 2021*

**Ystyriaeth:** Mae'n deg tynnu sylw at y ffaith, yn hanesyddol, mai galw cryfach o ardaloedd â llai o amddifadedd fu'n gyfrifol am yrru twf y ddarpariaeth addysg gynradd Gymraeg yn y gorffennol, ond er mwyn parhau i dyfu bydd gofyn sicrhau mwy o ddarpariaeth Gymraeg ar garreg y drws, ynghyd â chyfleoedd cymdeithasol Cymraeg mwy cydradd, yn ardaloedd yn y ddinas sydd â mwy o amddifadedd a lle gellid dadlau bod mwy o rwystrau cymdeithasol ac economaidd yn llyffethair.

Er enghraifft, mewn datblygiadau tai cymdeithasol, gellid sicrhau bod cyfleoedd digonol i gyrchu darpariaeth a chyfleusterau Cymraeg – i ddefnyddio'r Gymraeg - ar gael yn hwylus yn yr ardal leol, yn enwedig pan fyddo'r datblygiadau yna mewn ardaloedd lle ceir lefelau uwch o amddifadedd a lle bydd mwy o rwystrau i allu teithio yn hwylus. Bydd hyn yr un mor wir am ddarpariaethau amrywiol i blant a phobl ifanc ag ydyw i bobl hŷn.

4.21 **Cyfrifiad 2021 - Wardiau Etholiadol**

O ran nifer y siaradwyr Cymraeg ar lefel ward, Treganna yw'r ward â'r nifer uchaf (3,729) o siaradwyr (sy'n gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg) – sef tua 24% o'r boblogaeth. Ond mae'n ddarlun mwy cymhleth na hynny hefyd. Os edrychwn yn fanylach yn Ffigwr 5 isod ar ddosbarthiad y siaradwyr Cymraeg ar draws y brifddinas fesul ward, yn ôl Cyfrifiad 2021:




*Ffigwr 5: Sgiliau Cymraeg wardiau etholiadol Caerdydd 2021 yn ôl niferoedd, Cyngor Caerdydd*

4.22 Gan aros yn ward Treganna i ddechrau, os edrychwn ar y nifer sydd **yn rhannu ystod o sgiliau Cymraeg**, mewn unrhyw gyfuniad *gan gynnwys deall Cymraeg llafar yn unig*, ceir dros 30% sef 4,659. [gweler Tabl D isod]. Byddai'r niferoedd hynny mae'n debyg yn cynnwys rhai sy'n dysgu'r iaith ar wahanol lefelau ar hyn o bryd ac eraill sydd wedi anghofio sut i'w siarad hi - neu heb hyder i siarad. Ond mae hynny'n rhoi canran cyfunol o unrhyw sgiliau Cymraeg yn y ward hon ar ryw **30.19%**.

4.23 Yn dilyn ward *Treganna* o ran y ganran benodol hon (sef meddu ar unrhyw sgil Cymraeg) daw ward *Pentyrch a Sain Ffagan* ar 26.48% sef 2,331 o bobl. Ceir wedyn 24.08% yn ward *Llandaf* sef 2,016 sy'n deall yr iaith o leiaf gyda ward etholiadol *Yr Eglwys Newydd a Thongwynlais* hefyd ar 23.7% ond - â chryn dipyn yn fwy o niferoedd y tro hwn, sef 3,645.

4.24 **Sylwer bod canran debyg iawn yn gallu golygu cryn wahaniaeth o ran niferoedd ac felly ddwysedd nifer siaradwyr mewn ardal leol benodol. Er enghraifft yn achos ward *Radur* a ward *Caerau* sydd â tua 1500 yr un o drigolion â rhyw sgil Cymraeg mae cryn wahaniaeth yn y canrannau sef 22.42% ac 13.63% yn y drefn honno - a allai roi'r *argraff* efallai fod dwywaith gymaint o drigolion yn Radur â sgil Cymraeg, neu fod dwywaith gymaint o siaradwyr Cymraeg yn Radur nag sydd yng Nghaerau – ond mae'r niferoedd yr un fath - felly mae angen gofal.**

Fe drafodir mwy am yr amryfusedd hwn rhwng *canran* a *nifer* isod yn 4.3. Mae'n werth nodi hefyd fod mwyafrif y wardiau a enwyd uchod ymhlith wardiau cyfoethocaf y ddinas.

4.25 Ymhlith y wardiau eraill sydd dros y rhicyn 20% ar gyfer cyfuniad o siaradwyr a rhai sy'n deall Cymraeg llafar y mae wardiau: *Glanyrafon*, *Pen-y-lan, Rhiwbeina*, ac *Ystum Taf*. Mae'r wardiau hyn hefyd oll yng ngogledd neu ganol y ddinas, ac unwaith eto, mae rhai o'r rhain hefyd ymhlith y wardiau cyfoethocaf.

4.26 Yn cyferbynnu â hynny mae'r canrannau isaf i'w canfod yn y wardiau llai breintiedig ac at ei gilydd i'w cael yn rhannau deheuol y ddinas neu 'arc y de' - fel *Adamsdown, Llanrhymni, Tredelerch,*

*Trelái* a *Trowbridge* – i gyd yn yr ystod 12 – 13% yn meddu ar ryw sgil Cymraeg neu ddeall Cymraeg llafar.

4.27 **<u>Ond mae'n bwysig nodi nad oes unrhyw un o 28 ward etholiadol Caerdydd sydd â llai na 1,000 o drigolion sydd â ryw sgil Cymraeg</u>** – hynny yw sydd o leiaf yn deall Cymraeg llafar. Mewn 2 o'r wardiau â'r *ganran* isaf, sef *Adamsdown* a *Trowbridge*, fe welir o ran *niferoedd* bod yn y rhain dros 2,000 o breswylwyr sydd â ryw sgil Cymraeg, hynny yw *niferoedd* sylweddol fwy nag a geir yn ward Radur - sy'n rhoi i'r cymunedau hyn ddwysedd ieithyddol arwyddocaol hefyd (Tabl D)

| | **Wardiau Etholiadol**<br>**ar ôl newidiadau 2022* | **% Siaradwyr**<br>**(*Unrhyw Sgiliau Cymraeg)** | **Nifer *** |
|---|---|---|---|
| 1 | Adamsdown | 12.71% | 2,125 |
| 2 | Butetown | 14.4% | 1,659 |
| 3 | Caerau | 13.63% | 1,523 |
| 4 | Cathays | 13.65% | 2,845 |
| 5 | Cyncoed | 18.84% | 2,081 |
| 6 | Gabalfa | 17.19% | 1,581 |
| 7 | Grangetown | 16.41% | 3,268 |
| 8 | Glanyrafon | 21.4% | 2,816 |
| 9 | Llandaf | 24.08% | 2,016 |
| 10 | Llanisien | 18.54% | 1,866 |
| 11 | Llanrhymni | 12.38% | 1,372 |
| 12 | Llys-faen a'r Ddraenen | 18.58% | 1,883 |
| 13 | Pentwyn | 13.09% | 2,051 |
| 14 | Pentyrch a Sain Ffagan | 26.48% | 2,331 |
| 15 | Pen-y-lan | 20.02% | 2,482 |
| 16 | Plasnewydd | 15.92% | 2,825 |
| 17 | Pontprennau a Phentref Llaneirwg | 15.74% | 1,739 |
| 18 | Radur | 22.42% | 1,545 |
| 19 | Rhiwbeina | 20.14% | 2,241 |
| 21 | Tredelerch | 12.86% | 1,085 |
| 22 | Treganna | 30.19% | 4,659 |
| 23 | Trowbridge | 12.91% | 2,123 |
| 24 | Trelái | 12.48% | 1,810 |
| 25 | Y Mynydd Bychan | 19.57% | 2,379 |
| 26 | Yr Eglwys Newydd a Thongwynlais | 23.7% | 3,645 |
| 27 | Y Sblot | 15.14% | 2,065 |
| 28 | Ystum Taf | 18.77% | 1,517 |
| 29 | Y Tyllgoed | 16.11% | 2,001 |

*Tabl D – Wardiau etholiadol Caerdydd – canran a nifer -* ***unrhyw sgil Cymraeg***

4.28 Mae patrwm tebyg yn amlygu ei hun wrth edrych ar drawstoriad a chanran y siaradwyr Cymraeg yn byw yn wardiau etholiadol Caerdydd sydd o gefndir Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol yn Nhabl E isod. Mae'r tabl hwn hefyd, fel Tabl D uchod, yn dangos tuedd o ran canran o leiaf i fwy o siaradwyr Cymraeg o gefndir Du, Asiaidd ac Ethnig leiafrifol fyw yn wardiau mwy llewyrchus y ddinas a chanran is ohonynt sy'n siaradwyr Cymraeg fyw yn y wardiau llai llewyrchus.

| Ward | Nifer sy'n gallu siarad Cymraeg | Nifer NAD sy'n gallu siarad Cymraeg | Pob un 3+ ar yr aelwyd fel rheol | Gallu siarad Cymraeg % | Methu siarad Cymraeg % |
|---|---|---|---|---|---|
| Adamsdown | 185 | 4,385 | 4,570 | 4.0 | 96.0 |
| Butetown | 185 | 4,436 | 4,621 | 4.0 | 96.0 |
| Caerau | 164 | 1,469 | 1,633 | 10.0 | 90.0 |
| Cathays | 142 | 5,419 | 5,561 | 2.6 | 97.4 |
| Cyncoed | 212 | 2,326 | 2,538 | 8.4 | 91.6 |
| Gabalfa | 156 | 2,025 | 2,181 | 7.2 | 92.8 |
| Grangetown | 529 | 8,572 | 9,101 | 5.8 | 94.2 |
| Glanyrafon | 305 | 4,439 | 4,744 | 6.4 | 93.6 |
| Llandaf | 61 | 772 | 833 | 7.3 | 92.7 |
| Llanisien | 90 | 966 | 1,056 | 8.5 | 91.5 |
| Llanrhymni | 157 | 1,470 | 1,627 | 9.6 | 90.4 |
| Llys-faen a'r Ddraenen | 86 | 857 | 943 | 9.1 | 90.9 |
| Pentwyn | 283 | 3,086 | 3,369 | 8.4 | 91.6 |
| Pentyrch a Sain Ffagan | 61 | 497 | 558 | 10.9 | 89.1 |
| Penylan | 231 | 2,450 | 2,681 | 8.6 | 91.4 |
| Plasnewydd | 258 | 4,803 | 5,061 | 5.1 | 94.9 |
| Pontprennau a Phentref Llaneirwg | 175 | 1,958 | 2,133 | 8.2 | 91.8 |
| Radur | 72 | 589 | 661 | 10.9 | 89.1 |
| Rhiwbeina | 79 | 523 | 602 | 13.1 | 86.9 |
| Tredelerch | 65 | 935 | 1,000 | 6.5 | 93.5 |
| Treganna | 323 | 2,762 | 3,085 | 10.5 | 89.5 |
| Trelái | 246 | 2,345 | 2,591 | 9.5 | 90.5 |
| Trowbridge | 275 | 2,875 | 3,150 | 8.7 | 91.3 |
| Y Mynydd Bychan | 139 | 1,507 | 1,646 | 8.4 | 91.6 |
| Yr Eglwys Newydd a Thongwynlais | 88 | 924 | 1,012 | 8.7 | 91.3 |
| Y Sblot | 283 | 3,153 | 3,436 | 8.2 | 91.8 |
| Ystum Taf | 147 | 1,170 | 1,317 | 11.2 | 88.8 |
| Y Tyllgoed | 153 | 1,253 | 1,406 | 10.9 | 89.1 |
| Y Sblot | 283 | 3,153 | 3,436 | 8.2 | 91.8 |
| Ystum Taf | 147 | 1,170 | 1,317 | 11.2 | 88.8 |
| **CAERDYDD** | 5,153 | 67,971 | 73,124 | 7.0 | 93.0 |

*Tabl E – Nifer a chanran siaradwyr Cymraeg 3+ oed o gefndir Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol yn ôl ward (Cyfrifiad 2021)*

Dengys y tabl uchod fod y *canrannau* uchaf yn byw yn wardiau *Rhiwbeina, Ystum Taf, Pentyrch/Sain Ffagan* a *Radur* – ond er y canrannau yn y wardiau hyn, mae'r niferoedd yn fychan. (*dylid cofio fod rhain yn ardaloedd llai o ran eu niferoedd poblogaeth gyffredinol hefyd).

4.29 Os edrychwn ni ar y *niferoedd* mwyaf, mae'r rhain i'w cael yn wardiau etholiadol *Grangetown, Treganna, Glanyrafon, Pentwyn* a'r *Sblot*. Ardaloedd mwy dwys eu poblogaeth a lle ceir mwy o amddifadedd hefyd yn gyffredinol. Gall canrannau ar yr olwg gyntaf felly roi camargraff wrth geisio creu darlun o'r boblogaeth mewn cymuned ac mae angen edrych ar niferoedd ac ystyriaethau tebyg hefyd fel maint ardal a dwysedd poblogaeth.


4.30 **Gair am Ddwysedd...**

Os edrychwn ni ar Gymru sy'n wlad o 8,024 milltir sgwâr â phoblogaeth o 3,107,500 yn 2021, mae hynny'n rhoi dwysedd poblogaeth gyffredinol i ni o tua 387 person y filltir sgwâr. Mae 17.8% o'r rheiny (2021) yn siaradwyr Cymraeg sy'n golygu bod gan Gymru tua **68.88** o siaradwyr Cymraeg y filltir sgwâr.

4.31 Os edrychwn ni ar sir naturiol Gymraeg fel Gwynedd sydd yn 979 milltir sgwâr â phoblogaeth o 117,400 yn 2021, mae hynny'n rhoi dwysedd poblogaeth i ni o 120 person y filltir sgwâr. Mae 64.4% o'r rheiny yn siaradwyr Cymraeg rhugl sy'n golygu bod **77.28** o siaradwyr Cymraeg y filltir sgwâr yng Ngwynedd.

4.32 Yr hyn sy'n gwneud Caerdydd yn drawiadol wahanol i weddill Cymru o ran niferoedd ei siaradwyr Cymraeg fodd bynnag yw dwysedd siaradwyr y ddinas mewn ôl troed daearyddol bychan dros ben. Cofnodwyd poblogaeth o 362,310 yn y brifddinas yng Nghyfrifiad 2021 mewn prifddinas o tua 54.2 milltir sgwâr - sef tua 6,685 person i bob milltir sgwâr. Gyda 12.8% o boblogaeth y ddinas yn siaradwyr Cymraeg, mae hynny'n golygu fod gan Gaerdydd **855.64** o siaradwyr Cymraeg y filltir sgwâr.

Gellir gweld y gwahaniaeth dwysedd hwnnw'n weledol isod yn Ffigwr 6. Yma mae dwysedd yn cyfleu rhywbeth tra gwahanol i ganran. Gall canran siaradwyr fod yn uchel dros ardal ddaearyddol fawr a gwasgaredig ei phoblogaeth ond mae'r siawns o weld siaradwr arall o ddydd i ddydd yn gallu bod yn gymharol fychan a'r cyfle i ryngweithio wyneb yn wyneb â nhw yn debygol o fod hyd yn oed yn llai.




*Ffigwr 6: Dwysedd siaradwyr Cymraeg y filltir sgwâr*

4.33 Os edrychwn ni ar y ganran sydd ag *unrhyw sgil Cymraeg* yn y ddinas, sef tua 17.5% (c. 63k o bobl) – mae hynny'n rhoi *dwysedd unrhyw sgil Cymraeg* yn y ddinas yn uwch eto, ar tua **1170** o bobl y filltir sgwâr. Wrth feddwl am botensial cyfleoedd defnydd iaith felly, dylid cofio'r 'gogysgod' neu'r 'penwmbra' niferoedd hwn wrth drafod niferoedd siaradwyr rhugl mewn ardal – y ffigwr mwy hwn sydd yn cynrychioli'r potensial defnydd mwyaf posib ar y lefel fwyaf sylfaenol e.e. y gallu i ddeall sgwrs rhywun arall. Ar ei fwyaf elfennol, esiampl o'r budd hwn ar waith yn ymarferol fyddai mewn archfarchnad - pan gyhoeddir dros yr uchelseinydd yn Gymraeg cyn y Saesneg fod rhif til ychwanegol ar fin agor - gan creu cynnwrf a symud ymhlith rhywrai yn y ciwiau siopwyr.


4.34 Yn amlwg, mae'r ffaith bod Caerdydd yn ddinas â phobl yn byw lawer yn nes i'w gilydd nag mewn ardaloedd gwledig yn allweddol i gyfleoedd a photensial defnydd iaith achlysurol yng Nghaerdydd. Mae'r dwysedd poblogaeth yn y brifddinas oddeutu dair gwaith dwysedd poblogaeth Casnewydd. Ac o gymharu ag ail ddinas Cymru o ran maint, sef Abertawe i'r gorllewin, dim ond 177 o siaradwyr Cymraeg sydd i'r filltir sgwâr yno (*er tegwch dylid nodi bod arwynebedd sir Abertawe bron 3 gwaith maint arwynebedd Caerdydd). Mae dwysedd siaradwyr Cymraeg y brifddinas felly yn arwyddocaol – yn ogystal ag unrhyw ystyriaethau o ran canran a niferoedd - ac yn fwy felly wrth ychwanegu'r penwmbra o drigolion sydd yn deall Cymraeg llafar yn unig.

**Ystyriaeth:** - Wrth gynllunio cyfleusterau a chyfleoedd i ddefnyddio'r iaith, rhaid ystyried dwysedd siaradwyr yn y ddinas a sut y gellir defnyddio'r 'ffactor agosrwydd' hwnnw i weithio'n gadarnhaol er budd yr iaith. Mae hyn yr un mor wir ar lefel y ddinas gyfan ag yw hi wrth ystyried cymunedau lleol iawn.

Hynny yw, hyd yn oed yn y rhannau hynny o'r ddinas sydd â'r *niferoedd* lleiaf o siaradwyr, fe fydd yna rai cannoedd o siaradwyr Cymraeg yn byw o fewn pellter ychydig strydoedd i'w gilydd – gyda'r posibiliadau dyddiol y mae hynny'n ei gynnig. Y gamp fydd iddyn nhw allu adnabod ei gilydd, rhywbeth sydd lawer haws mewn cymunedau hirsefydlog ond sy'n anos efallai mewn dinas - â'i phoblogaeth ifanc yn enwedig yn garfan sy'n symudol iawn.

Er bod angen cydnabod realiti mwyafrif di-Gymraegy ddinas, *mae'r* posibiliadau amrwd sy'n codi o hyn - o ran cynyddu defnydd dyddiol - yn edrych yn addawol. Mae angen meddwl felly am lu o ymyraethau a chynlluniau a all hybu a rhoi hyder i bobl ddefnyddio hynny o Gymraeg sydd ganddyntyn eu bywydau bob dydd yn eu hardal leol yn ogystal ag wrth symud o gwmpas y ddinas.

### 4.35 Caerdydd fel Cymuned neu Ardal o Bwysigrwydd Ieithyddol...




Mae'r drafodaeth am ardaloedd o bwysigrwydd neu arwyddocâd ieithyddol yn mynd rhagddi ar hyn o bryd. Mae'r ffocws wedi bod hyd yma ar y 'cadarnleoedd Cymraeg' traddodiadol sydd yn bodoli'n bennaf yn ardal economaidd ARFOR y gogledd a'r gorllewin. Comisiwn y Cymunedau Cymraeg sydd wedi bod yn edrych fwyaf diweddar ar y maes hwn a'r term a fabwysiadwyd gan y Comisiwn wrth adrodd yn haf 2023 i ddisgrifio broydd o'r fath yw cymunedau sydd â '*dwysedd uwch*' o siaradwyr.[27]

[27] Papur Safbwynt y Comisiwn Cymunedau Cymraeg (2023)

Ardaloedd yw'r rhain lle mae angen ymdrechion a chamau penodol i gynnal lefelau presennol y Gymraeg fel iaith gymunedol. Ar yr un diwrnod gwelwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r papur safbwynt hwn,[28] lle mae'n cydnabod y defnydd o'r term 'dwysedd uwch', felly mae'n rhesymol yma i ni ddefnyddio'r term hwn ac unrhyw amrywiadau arno wrth drafod y maes.

4.36 Cyhoeddwyd casgliadau terfynol y Comisiwn ar yr ardaloedd *'dwysedd uwch'* yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mhontypridd yn haf 2024.[29] Yn y gwaith hwn fe ddiffinnir cymunedau dwysedd uwch fel cymunedau lle mae dros 40% yn gallu siarad Cymraeg. Mae'r comisiwn wedyn yn trafod yr 'haen' nesaf sy'n haeddu cefnogaeth bolisi:

> *Mae'r Comisiwn o'r farn fod cymunedau lle ceir rhwng oddeutu 25% a 40% yn medru siarad Cymraeg yn bwysig yn strategol i'r Gymraeg. Trwy ddefnyddio disgresiwn awdurdodau lleol, gellid dynodi nifer o'r cymunedau hyn yn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch. Ym marn y Comisiwn byddai hynny'n fuddiol o safbwynt polisi cyhoeddus.*

4.37 Canlyniad rhesymegol defnyddio *'dwysedd uwch'* yw bod yna ardaloedd hefyd â *'dwysedd is'* o gymunedau Cymraeg eu hiaith. Nid yw'r Comisiwn yn dod i gasgliadau cadarn pellach ar y pwynt hwn - yn hytrach bwriad y Comisiwn yw edrych yn fwy manwl ar y cymunedau hyn ac ystyried eu harwyddocâd strategol i'r iaith. Dechreuwyd ar y gwaith hwn yn ail hanner 2024 – a'r bwriad yw adrodd nôl erbyn haf 2025. Ond mae trafodaethau a chasgliadau'r Comisiwn hyd yma, ac ymateb y Llywodraeth, yn rhoi cipolwg o'r cyd-destun iaith a chynllunio ieithyddol tebygol dros y degawd nesaf, sef pan fydd CDLl newydd arfaethedig Caerdydd yn weithredol gan ddechrau yn 2026. Yn ychwanegol at hynny, ers yr haf mae Comisiynydd y Gymraeg wedi annog Llywodraeth Cymru i weithredu ar argymhellion cyntaf y Comisiwn.[30]

4.38 Yn y blynyddoedd diwethaf o leiaf, o ran polisïau ar gynllunio ieithyddol yng Nghymru, mae ardaloedd 'dwysedd is' wedi bod yn yr ystod lle ceir yn fras rhwng 20-40% o siaradwyr Cymraeg mewn ardal benodol. Y mae nifer o gymunedau Caerdydd wrth edrych ar wahanol lefelau poblogaeth (Ward /AGEHI) yn syrthio i'r categori hwn. Ar ben hynny, ni ddylid anghofio natur drefol y ddinas – lle mae patrymau teithio, rhwydweithiau amrywiol ac ymwneud pobl â'i gilydd yn gymdeithasol yn gymhleth. Hefyd rhaid ystyried rôl arbennig Caerdydd fel prifddinas i Gymru gyfan ac fel awdurdod arweiniol i ranbarth y de-ddwyrain o ran twf a datblygiad economaidd. Gyda chrynodiad pwysig o siaradwyr Cymraeg (a rhai sy'n deall yr iaith) mewn ôl troed daearyddol bychan iawn, mae'n anodd gallu cymharu'r brifddinas ag unrhyw ran arall o Gymru.

---

[28] [Datganiad Ysgrifenedig: Cyhoeddi Papur Safbwynt - Comisiwn Cymunedau Cymraeg (2023)]
[29] https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2024-08/grymuso-cymunedau-cryfhaur-gymraeg.pdf
[30] [Comisiynydd y Gymraeg yn annog gweithredu argymhellion y Comisiwn Cymunedau Cymraeg]


**Ystyriaeth:** O ystyried y cyd-destun cynllunio ieithyddol sy'n esblygu felly, bydd angen bod ricyn ar y blaen wrth lunio unrhyw Asesiad o Effaith CDLlN Caerdydd ar y Gymraeg, sef bod angen i'r Cynllun Datblygu arfaethedig, ei bolisïau ac unrhyw fesurau pellach a ddaw yn sgil mabwysiadu'r Cynllun, fod yn ddigon hyblyg i allu ymateb i, ac i ysgogi newid mewn tirlun a thrafodaeth ieithyddol sy'n sicr o esblygu yn y ddinas erbyn 2036.

Gan fod trafodaethau'r Comisiwn Cymunedau yn dal i fynd rhagddynt eleni a bod y brifddinas ac ardaloedd ohoni i'w gweld yn pontio neu bendilio rhwng ei disgrifio fel ardal 'dwysedd uwch' ac ardal 'dwysedd is', hyd nes y ceir cytundeb a diffiniad mwy pendant ar hyn, awgrymir bod **y ddinas gyfan**, am y tro o leiaf (fel bod modd rhoi arweiniad i'r maes cynllunio a defnydd tir yn y CDLlN), yn cael ei disgrifio fel '**ardal o bwysigrwydd ieithyddol**' – a fydd yn gyson o leiaf â'r hyn a geir yn y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (2020): "*Mae'n rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol nodi meysydd o sensitifrwydd neu bwysigrwydd ieithyddol er mwyn sicrhau bod twf yn cael ei gyfeirio'n addas i ardaloedd lle gall yr effaith ar y Gymraeg fod yn gadarnhaol*." Bydd hynny yn rhoi i ni derm cydnabyddedig ac ymarferol, cyn mabwysiadu diffiniad neu derm y bernir sydd yn addas wrth i'r derminoleg a'r drafodaeth yn y maes hwn esblygu.

4.39 I ddeall natur cymunedau a chymdogaethau lle ceir trwch poblogaeth mewn dinas yn well, byddai'n ddefnyddiol edrych yn fanylach ar ddosbarthiad a 'ffactor agosrwydd' y siaradwyr Cymraeg ar lefel sydd *is-law* lefel poblogaeth ward etholiadol unigol, yn enwedig pan ddaw hi'n fater o ystyried cynnig datblygu unigol - boed hwnnw yn gynnig datblygu maes glas - ond yn arbennig felly os yw'n gynnig datblygu tir llwyd *lle mae cymuned sefydlog eisoes yn bodoli* a lle bydd ffocws llawer o'r Cynllun Datblygu arfaethedig o ystyried y lleiniau datblygu dynodedig a nodir yn y darpar gynllun.

4.40 Wrth edrych ar lefel *Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is* [AGEHI/*LSOA*], gwelir bod sawl AGEHI yn y brifddinas sydd uwch law 25% o ran nifer y siaradwyr Cymraeg. Er enghraifft mae gan un rhan fach o ward Treganna (***Treganna 1*) sef ardal Parc Fictoria ganran siaradwyr Cymraeg sy'n cyrraedd 35% - neu 529 o siaradwyr rhugl. Ond o gynnwys yr ystod o sgiliau siarad, daw'r nifer hwn i ychydig dros 600 ynghyd â 51 o bobl eraill sy'n deall Cymraeg llafar. Mae hynny'n codi'r ganran o unrhyw sgiliau Cymraeg yn y rhan hon o'r ddinas i 43% fel y gwelir yn Ffigwr 7 isod.

Caerdydd Ddwyieithog Bilingual Cardiff





*Ffigwr 7: Sgiliau Cymraeg AGEHIau Treganna (**Defnyddir enwau/codau AGEHI Cyngor Caerdydd)*

4.41 Ar y llaw arall, mewn rhan arall o'r un ward etholiadol (sef *Treganna 6*) fe welir bod y ganran sydd yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl cyn lleied â 18% - sydd dipyn nes at lefel ganrannol rhai o'r wardiau etholiadol sydd â'r lefelau siaradwyr/deall Cymraeg llafar isaf yn y ddinas (yn yr ystod 14-16%). Nid cwbl unffurf felly yw'r patrwm ieithyddol ar draws ward etholiadol *Treganna*.

4.42 I'r gwrthwyneb wedyn, yn *Nhredelerch* sef y ward etholiadol â'r nifer lleiaf o siaradwyr Cymraeg / deall Cymraeg llafar, 1036 o siaradwyr sydd yno (ychydig dros 12%) + 213 (2.51%) arall sy'n deall Cymraeg llafar, yno mae'n ddarlun fwy unffurf ar draws holl gymunedau AGEHI y ward.

4.43 Eto i gyd, fe welir ymhlith *rhai* o'r wardiau etholiadol sydd wannaf eu niferoedd siaradwyr yn y ddinas, fod yna AGEHIau *o fewn* y wardiau hynny - y gellir eu disgrifio fel pocedi *pwysig* o siaradwyr i'r ddinas hefyd, gweler Ffigwr 8 isod:




*Ffigwr 8: Sgiliau Cymraeg AGEHIau Adamsdown a Gabalfa*

4.44 Er enghraifft, mae AGEHI *Adamsdown 2* yn gartref i 428 o siaradwyr Cymraeg + 97 arall sy'n deall Cymraeg llafar. Mae gan *Gabalfa 2* yn debyg iawn 561 o siaradwyr Cymraeg + 82 arall sy'n deall Cymraeg llafar. Mae'r rhain yn cymharu'n dda ag ardal *Treganna 1* uchod o ran eu *niferoedd*. Felly er bod canran y siaradwyr yn yr AGEHIau hyn yn gymharol isel, wrth ystyried *dwysedd* nifer y siaradwyr Cymraeg mewn ôl troed daearyddol bychan iawn, yna maen nhw'n cynrychioli *mas critigol pwysig o siaradwyr* - sydd yn cymharu'n ffafriol o ran *eu niferoedd* dyweder â rhai o bentrefi traddodiadol Cymreicaf Cymru a fyddai'n cael eu diffinio'n sicr fel ardaloedd '*dwysedd is*' mae'n siŵr, os nad '*dwysedd uwch'* mewn ambell achos. '*dwysedd uwch'* mewn ambell achos.

**Ystyriaeth:** Mater arall wrth gwrs yw *pwy* yw'r siaradwyr hyn a beth yw eu hoedrannau, eu patrymau defnydd iaith, eu hieithoedd eraill, eu hyder a'u cyfleoedd penodol i ddefnyddio a siarad Cymraeg yn eu cymdogaethau lleol a hynny, fel y soniwyd, yng nghanol mwyafrif sydd yn y ddi-Gymraeg ar y naill law a heb anghofio pwysigrwydd a chyfoeth ieithoedd cymunedol lleol eraill ar y llaw arall. Bydd llawer iawn ohonynt yn naturiol yn blant a phobl ifanc. Ond y pwynt allweddol yw bod y siaradwyr a'r ystod o sgiliau Cymraeg yno. Mae gwybodaeth ar y lefel hon yn allweddol wrth geisio amcanu gwerth cynnig darpariaethau, cyfleusterau neu gyfleon Cymraeg pellach mewn ardaloedd penodol, ble sydd orau i gynnig gwasanaethau, i annog twf pellach ac ati? Mae gofyn felly ystyried mewn rhai cyd-destunau cynllunio penodol iawn, fel ceisiadau unigol ar dir llwyd, bod AGEHIau hefyd yn gymunedau o bwysigrwydd i hyfywedd y Gymraeg yn y ddinas.

Bydd ystyriaethau cynllunio a defnydd tir yn codi'n naturiol o'r CDLlN ac felly mae angen gofyn sut gall polisïau defnydd tir ac unrhyw ddatblygiadau newydd hyrwyddo a gwella sefyllfa'r Gymraeg ar draws cymunedau'r ddinas, lawn cymaint â gwarchod yr iaith. Gallai hynny fod yn ystyriaeth ar lefel dinas gyfan mewn rhai cyd-destunau polisi neu ar lefel rhannau penodol iawn ohoni, i gryfhau ardaloedd sydd eisoes yn gymharol gryf yn ieithyddol neu i godi'r ardaloedd eraill gwannach i fan gwell. Yn ddi-os dylai hyn fod yn ystyriaeth wrth bwyso a mesur ceisiadau datblygu. O fabwysiadu polisi ac arfer o'r fath byddai hyn hefyd yn gyfraniad pwysig at greu sail

4.45 **Symudiadau Siaradwyr Cymraeg**

[–symud i mewn ac allan o'r ddinas – data Swyddfa Ystadegau gwladol  i Gyngor Caerdydd, 2024]

Mae data ychwanegol sydd gennym o'r SYG ar gyfer 2021 yn amlygu rhai pethau am symudiadau siaradwyr Cymraeg y ddinas rhwng Mawrth 2020 a Mawrth 2021, adeg y Cyfrifiad.

*Mae angen 'rhybudd iechyd' ar y wybodaeth:

- Maent wedi eu seilio ar y lefel AGEHG (MSOAs) felly'n cyfateb yn fras i faint wardiau etholiadol ond nid i ffiniau wardiau
- yn cynnwys symudiadau myfyrwyr – felly yn anghytbwys ar gyfer rhai ardaloedd penodol
- wedi eu seilio ar niferoedd isel *iawn* ar y cyfan ac felly mae eu cadernid ystadegol - oherwydd yr angen i anonomeiddio data a thalgrynnu - yn golygu na ellir eu harddel â'r un sicrwydd â gweddill data'r Cyfrifiad.
- Yn seiliedig ar lle roedd yr unigolion ar ddiwrnod y Cyfrifiad ac union flwyddyn cyn hynny – digwyddodd y pandemig a'r cyfyngiadau clo ar draws y flwyddyn honno gan newid neu amharu ar batrymau symud a byw arferol pobl – gan gynnwys myfyrwyr - fydd mae'n siŵr wedi effeithio ar ddilysrwydd y wybodaeth yn ogystal.
-

4.46 **Crynodeb o symudiadau siaradwyr Cymraeg dros flwyddyn:**

Serch y rhybudd dilysrwydd, mae'n werth nodi rhai nodweddion cyffredinol a amlygir gan y data hwn. Gwelwyd y symudiadau NET uchaf – mwy o siaradwyr Cymraeg yn symud i ardal o'r ddinas o ardal arall o'r ddinas (**pob oed**) ar gyfer ardaloedd *Gogledd Cathays, Creigiau, Pentyrch a Sain Ffagan, Pwll-mawr a Llaneirwg, Treganna, yr Eglwys Newydd* a *Rhiwbeina a Phant-mawr*, a'r symudiadau NET isaf (mwy o siaradwyr Cymraeg yn symud allan o'r ardal i ardal arall yng Nghaerdydd) ar gyfer *Gabalfa, De Cathays a Pharc Bute, Adamsdown, De Cyncoed a Pharc y Rhath, De Pen-y-lan, Parc Fictoria a Llwynbedw.*

Ymhlith **plant 3-15 oed**, roedd y symudiadau NET uchaf yn y categori hwn ar gyfer ardaloedd *Pwll-mawr a Llaneirwg, Llandaf a Danescourt, Creigiau Pentyrch a Sain Ffagan, Llanedern a Threganna* a'r symudiadau NET isaf ar gyfer *Adamsdown, Dwyrain Trelái, Parc Fictoria, De Pen-y-lan, De Grangetown, Pontcanna* a'r *Ddraenen*

Ymhlith rhai **16-34 oed** (felly'n cynnwys myfyrwyr), roedd y symudiadau NET uchaf ar gyfer *Gogledd Cathays, Bae Caerdydd a De Grangetown* a'r symudiadau NET isaf ar gyfer *Gabalfa, De Cathays a Pharc Bute, De Cyncoed a Pharc y Rhath, Llandaf a Danescourt,* a *De Pen-y-lan*.

Ychydig iawn o newid NET a welwyd yn y flwyddyn ymhlith y carfanau hŷn na 35 oed – sy'n boblogaeth naturiol fwy sefydlog eu patrymau byw.

4.47 Os edrychwn ni nesaf ar siaradwyr Cymraeg yn symud i rannau penodol o Gaerdydd o weddill Cymru (ond sy'n cynnwys ardaloedd eraill o Gaerdydd yn y data), o Loegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon a'r tu allan i'r DU, mae'n amlwg mai symudiadau o fewn Cymru/Caerdydd sydd fwyaf o ddigon.

Gwelodd *Gogledd Cathays* 547 o siaradwyr Cymraeg yn symud yno o rannau eraill o weddill Caerdydd / Cymru rhwng 2020 a 2021, 25 siaradwr o Loegr, 1 o'r Alban a 7 o'r tu allan i'r DU. Ond o'r 547 dim ond 3 oedd yn blant 3-15 oed tra bod 536 rhwng 16-35 (carfan oed myfyrwyr). Roedd y 25 siaradwr o Loegr hefyd yn y grŵp oedran hwn ac yn y grŵp hwn hefyd y gwelir mwyafrif helaeth y

siaradwyr sy'n symud i wahanol ardaloedd o Gaerdydd o'r tu allan i'r DU, sy'n amlygu'r garfan oed yma felly fel yr un fwyaf symudol yn rhyngwladol hefyd ymhlith siaradwyr Cymraeg.

Ar y pegwn arall, gwelodd *Gorllewin Llaneirwg* ond 20 siaradwr yn symud yno o weddill Caerdydd/Cymru, a 2 o Loegr. O'r 20 siaradwr yna, roedd ryw 8 ohonynt rhwng 3-15 oed o weddill Caerdydd/Cymru, 11 rhwng 16-34 o weddill Caerdydd/Cymru a 2 rhwng 16-35 o'r tu allan i Gymru (Lloegr).

4.48 Gallwn edrych hefyd ar ba awdurdodau lleol sy'n 'gyrru' siaradwyr Cymraeg i'r brifddinas - ac i ba ardaloedd awdurdodau lleol eraill y mae siaradwyr Cymraeg y ddinas yn tueddu symud iddynt hefyd. Ymhlith siaradwyr Cymraeg (pob oed) mae'r llif NET sirol mwyaf i Gaerdydd (mwy yn symud i Gaerdydd nag sy'n symud allan o Gaerdydd i'r un sir) o Gaerffili ac Abertawe a'r llif NET lleiaf (mwy yn gadael y ddinas) ar gyfer Bro Morgannwg, Powys a Rhondda Cynon Taf. Mae'r niferoedd yma yn fychan ar y cyfan - ac eithrio Bro Morgannwg sy'n fwy nodedig. Yma gwelwyd +110 o siaradwyr yn symud o'r Fro i'r ddinas a llif o -220 o siaradwyr Cymraeg yn symud o'r ddinas i'r Fro yn ystod y flwyddyn dan sylw. Carfanau ifanc yw'r rhain at ei gilydd hefyd gydag +14 o blant 3-15 yn symud i Gaerdydd a -40 yn gadael Caerdydd am y Fro, ac ymhlith yr oed 16-34 gwelwyd +76 yn symud i'r ddinas ond -112 yn gadael. (*Unwaith eto statig iawn yw'r boblogaeth sy'n hŷn na 35).

4.49 Yn ogystal â myfyrwyr yn symud o gwmpas, gall fod prisiau stoc tai'r brifddinas a chyfraddau rhentu yn gyfrifol am y symudiad yma i'r Fro ymhlith y garfan iau hon o siaradwyr. Mae'n ardal sy'n ddigon agos i deithio i'r gwaith yng Nghaerdydd o lefydd fel y Bari, Penarth a'r Bont-faen – hefyd i'r rhai sy'n chwilio am dai mwy o faint nag sydd yn fforddiadwy iddynt yng Nghaerdydd neu dai am rhenti sy'n is na rhenti Caerdydd efallai. Ac am yr un rheswm i'r gwrthwyneb, efallai bod cyndynrwydd i symud o'r Fro i'r ddinas yn union am ei fod mor agos i'r brifddinas ond â phrisiau tai a thai rhent ricyn yn fwy cystadleuol yn y Fro. Ond gallai rhesymau eraill fod ar waith yma hefyd – agosrwydd darpariaeth addysg benodol, cyfleustra teithio mwy cyfleus, dylanwad y pandemig, datblygiadau tai newydd penodol, ansawdd bywyd ac ati. Er mai ymylol mewn gwirionedd yw'r niferoedd, mae'n arwyddocaol efallai yn nhermau cynllunio llefydd ysgolion er enghraifft. Mae'n sicr yn haeddu gwell dealltwriaeth na'r hyn sydd gennym ar hyn o bryd.

**Ystyriaeth**: Yn ôl data cymudo Cyfrifiad 2011, roedd 160,000 o weithwyr preswyl yng Nghaerdydd ond 200,000 o bobl yn gweithio yn y brifddinas. Golyga hynny fod 40,000 net yn teithio i Gaerdydd o'r tu allan i'r ddinas ar gyfer eu diwrnod gwaith. (gw. C.26 Papur Technegol LDP Demographics – Diweddaru'r Dystiolaeth).

[Ym mis Rhagfyr 2023 oedd 193,000 yn gweithio yn y ddinas, cynnydd o 10,000 ar 2022 ac yn dangos adferiad economaidd ar ôl Covid. Cardiff's employment, unemployment and economic inactivity - ONS]


Os tybiwn felly fod *tua* +40,000 o weithwyr net yma yn teithio i'r ddinas o'r awdurdodau cymdogol (Y Fro, Rhondda Cynon Taf, Caerffili a Chasnewydd - neu hyd yn oed y Brifddinas-ranbarth ehangach yn cynnwys Pen-y-bont a Thorfaen ac ati), a chan gymryd bod canran cyfun siaradwyr Cymraeg o oed gweithio yn y rhannau hyn yn fras tua 10%, (canran Siaradwyr Cymraeg 3+ oed 2021: RhCT 11.5%, Y Fro 11.5%, Caerffili 10.5%, Torfaen 8.24%, Casnewydd 7.5%), byddai hynny'n golygu bod o leiaf 4,000 o siaradwyr Cymraeg yn teithio o'r tu allan i mewn i'r brifddinas bob diwrnod i weithio. [Gallai'r nifer yma fod yn uwch eto o ystyried bod mwy o gyfleoedd gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg i'w cael yng Nghaerdydd nag yn rhai o'r siroedd cyfagos yn ystod yr wythnos waith]. Mae angen mwy o waith i gael gwell dealltwriaeth o'r ffenomen hon - ond yn sicr fe ddylai fod yn rhan o unrhyw drafodaeth ar batrymau a chyfleoedd defnydd iaith dyddiol yn y ddinas a chyda golwg ar y weledigaeth benodol i ddyblu'r defnydd erbyn 2050.

## 5. Amcanestyniadau - Cyn-statudol / Meithrin

I gael gwell golwg ar yr hyn sy’n debygol o ddigwydd yn yr oedran derbyn cynradd o 2025 ymlaen, byddai’n ddefnyddiol edrych ar y sector meithrin yn gyntaf. Ac er mwyn i ni wybod i le rydyn ni’n mynd, mae’n dda cael ein hatgoffa hefyd o le y daethon ni.

5.1 **Cefndir**: Sefydlwyd yr ysgol feithrin Gymraeg gyntaf yng Nghaerdydd yn festri hen Eglwys y Crwys i ddechrau ym 1951 (a ddilynodd agor Ysgol Gynradd Gymraeg Caerdydd ym 1949 - a drodd yn Ysgol Bryntaf maes o law wedi hynny – gweler 6.2) cyn symud i Dŷ’r Cymry ar Heol Gordon yn y Rhath. Dilynwyd hwnnw wedyn gan ail ysgol feithrin pan sefydlwyd ysgol feithrin yn Rhiwbeina ym 1959.

5.2 O ran terminoleg mae’n debyg mai ‘cylchoedd meithrin’ fydden ni’n galw’r rhain erbyn heddiw a bellach mae darpariaeth y Mudiad Meithrin yn y ddinas wedi tyfu i 26 o Gylchoedd Meithrin a grwpiau Ti a Fi. Fel y gwelir ar y map isod, Ffigwr 15, mae 17 o Gylchoedd Meithrin amrywiol sydd â 319 o blant wedi eu cofrestru ynddynt. Dyma leoliadau’r ddarpariaeth sydd gan y Mudiad yng Nghaerdydd ar hyn o bryd [a’r ddarpariaeth newydd yn Ysgol Groes-wen, Plasdŵr ers mis Medi 2023*]




*Ffigwr 9: Darpariaeth feithrin bresennol Mudiad Ysgolion Meithrin (2023/24)*

5.3 Er bod dosbarthiad gweddol eang o gylchoedd meithrin gan y Mudiad ar draws y ddinas, mae rhai bylchau i’w gweld ar y map. Mewn gwirionedd mae’r ddarpariaeth o ran nifer y cylchoedd a’r grwpiau Ti a Fi wedi aros yn weddol statig dros y ddegawd diwethaf – rhai yn agor eraill yn cau. Ond mae’r mudiad yn gweld fel blaenoriaeth yr angen am ddarpariaeth feithrin Gymraeg yn

ardaloedd wardiau'r Ddraenen/ Llanisien/ Llys-faen a Phontprennau, sef ardaloedd yng ngogledd-ddwyrain y ddinas sydd â bylchau a'r galw mwyaf ar hyn o bryd – a lle mae nifer o ddatblygiadau tai mawr ar y gweill hefyd. Yn wahanol i nifer o awdurdodau eraill yn y de-ddwyrain, does dim swyddog *Ti a Fi* gan y mudiad yn weithredol yng Nghaerdydd ers rhai blynyddoedd chwaith oherwydd diffyg model cyllido addas, felly mae hwnnw'n rhwystr ymarferol o ran gallu'r mudiad i annog a hyrwyddo darpariaeth newydd ar lawr gwlad yn y ddinas yn gwbl lwyddiannus.

5.4 Dylid cofio bod darpariaeth feithrin – weithiau mewn partneriaeth â'r Mudiad - hefyd ar gael ym mhob ysgol gynradd Gymraeg yn y ddinas bellach, ag eithrio ysgolion Pencae a Choed y Gof – er bod meithrinfa *Cwtsh* wedi bod yn cynnig darpariaeth ddwyieithog yng Nghoed y Gof am gyfnod ar ôl ysgol. Mae union natur y ddarpariaeth yn dibynnu ar oedran y plant – codi'n ddwy neu dair oed neu oedran dosbarth meithrin.

O'r plant sydd ar lyfrau Mudiad Meithrin, trosglwyddodd 255 (79.9%) i addysg Gymraeg [yn ôl adroddiad Mudiad Meithrin 2022/23]. Yn amlwg byddai'n dda gallu sicrhau bod yr 20.1% sy'n weddill yn parhau â'r daith i addysg statudol Gymraeg hefyd, gan eu bod nhw eisoes wedi rhoi blaen troed yn y drws ac felly'n fwy tebygol o gael eu hargyhoeddi am y dewis hwn dros rywun sydd heb unrhyw brofiad o gwbl o'r sector cyn-ysgol Cymraeg. Mae hwn yn gyfle euraidd i gynyddu niferoedd statudol yn y ddinas oherwydd, ar sail y ffigurau yma ar gyfer Caerdydd, byddai cyflawni pontio i'r cynradd o 100% yn golygu llenwi cyfwerth â 2 x DM arall o blant ar draws y ddinas.

5.5 Mae Mudiad Meithrin hefyd yn cydweithio gyda darpariaeth Dechrau'n Deg yn 8 o'u lleoliadau nhw ar draws y ddinas. Ariannodd Dechrau'n Deg 278 o leoedd gofal plant Cymraeg yn 2023/34. O blith y rhain cafodd ond 197 eu llenwi (81 yn wag). Unwaith eto, er y cwymp mewn genedigaethau, mae lle yma i annog mwy i fanteisio ar y cynnig Cymraeg hwn yn y cymunedau penodol (sef yn y 4 cymuned lle mae'r gwasanaeth yn cael ei gynnig gan y sir). Unwaith eto o lenwi mwy ar y ddarpariaeth hon mae'n debygol y byddai'r niferoedd a fyddai'n dewis parhau yn y sector Gymraeg o'r lleoliadau hyn hefyd yn cynyddu. Ar y llaw arall, gall cynyddu'r ddarpariaeth Dechrau'n Deg cyfrwng Saesneg fodd bynnag, hefyd beryglu hyfywedd rhai cylchoedd meithrin sy'n bod eisoes - wrth i ddarpariaeth ratach a mwy cyfleus efallai ddod ar gael yn lleol ac o fewn cyrraedd rhieni. Yn yr un modd os bydd meithrinfeydd preifat amrywiol yn cynyddu eu horiau gofal, gall hynny hefyd arwain at sgil effaith ar allu'r mudiad meithrin i gadw a denu plant – a oedd efallai yn derbyn rhywfaint os nad y cyfan o'u gofal cyn oed ysgol cyn hynny dan adain cylchoedd amrywiol y mudiad.

5.6 Fel cyfanswm, mae oddeutu 700 o blant yn derbyn gofal feithrin o ryw fath ar draws y ddinas yn y 26 o Gylchoedd Meithrin/Ti a Fi (Ebrill 2024) o dan faner Mudiad Meithrin ar draws yr oedrannau. Bydd cyfran o'r rhain yn cael eu cyfrif ddwywaith (cyrchu darpariaeth bore a phnawn mewn lleoliadau gwahanol ar yr un diwrnod, felly mae'n anodd cael union ffigurau). O ran lleoedd meithrin mewn ysgolion cynradd yn y ddinas, mae rhai lleoliadau yn cael eu rhedeg gan y Mudiad Meithrin hefyd ac wedi eu cynnwys yn y 700 uchod.

5.7 Mae Gofal Plant Cymraeg hefyd ar gael yn y ddinas mewn lleoliadau Cymraeg eraill preifat a rhai dwyieithog. Yn ôl yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant, yn ôl y cyfrif diweddaraf a wnaed ar 24-06-24, mae 18 lleoliad Gofal Dydd Cymraeg/Dwyieithog ar gael (o'i gymharu â 79 o rai Saesneg/Dwyieithog). Mae rhai darparwyr yn cynnig gofal fesul sesiwn a rhai yn cynnig gofal y tu allan i oriau ysgol. Ar ben hynny mae 11 Gwarchodwr Plant yn cynnig darpariaeth Gymraeg/Ddwyieithog. Unwaith eto, mae'n bosib y gall rhai sy'n cyrchu'r ddarpariaeth Gofal Plant yma fod wedi eu cyfrif eisoes yn ffigurau darpariaeth feithrin y Mudiad neu leoedd meithrin yn lleoliadau'r Cyngor.

5.8 Er bod polisi Caerdydd o gynnig lleoedd meithrin am hanner diwrnod yn unig yn cynnig cyfle i fwy o blant gyrchu addysg feithrin Gymraeg yn y ddinas am gyfran o'r diwrnod, yn yr un modd gall fod diffyg darpariaeth Gymraeg lawn amser – fel diffyg gofal cofleidiol cyfleus hefyd – yrru rhai rhieni i gyrchu gofal neu ddarpariaeth Saesneg sydd efallai *yn* gallu diwallu anghenion eu bywydau a phatrymau gwaith llawn amser amrywiol yn well. Dyw hyn ddim yn gymaint o broblem os yw un neu ddau o'r rhieni yn siarad Cymraeg gartref, ond lle nad oes Cymraeg ar yr aelwyd ac o fod wedi cychwyn ar hyd y trywydd gofal meithrin Saesneg, gyda phlant yn creu ffrindiau a rhieni yn ffurfio cysylltiadau â rhieni lleol eraill, yna mae'n gofyn hyd yn oed fwy o ymdrech i newid wedyn i'r sector Gymraeg ar gyfer addysg statudol y plentyn wrth fynd i ddosbarth derbyn.

5.9 Am fod plentyn yn gallu cyrchu mwy nag un math o ddarpariaeth, mae'n anodd rhoi ffigwr pendant i nifer y plant sydd yn derbyn gofal/addysg cyn ysgol cyfrwng Cymraeg yn y ddinas. Ond mae modd mapio'r tueddiadau ar draws y gwahanol ddarpariaethau i ryw raddau a gallwn hefyd roi ystadegau ar gyfer y ddarpariaeth sydd ar gael mewn dosbarthiadau meithrin mewn ysgolion cynradd.

### 5.10 Data Meithrin CYBLD 2024

Mae data meithrin statudol diweddaraf Caerdydd ychydig yn fwy calonogol o ran targedau'r CSCA, fel y gwelir yn Nhabl F isod. Er bod y niferoedd ar draws y garfan oed wedi gostwng llynedd i 3,200 oherwydd y cwymp yn y gyfradd enedigaethau, mae'r niferoedd yn ogystal â'r ganran Gymraeg wedi cynnal a chynyddu ychydig. Mae'r ganran sydd gennym ar gyfer mis Hydref 2024 sef 20.3% (651) - o gynnwys y ffrwd iaith ddeuol yn Groes-wen - bron â chyrraedd y targed o 20.5% yn y CSCA ar gyfer 2024/5 .Heb gynnwys y ffrwd iaith ddeuol yn Groes-wen mae hynny yn rhoi canran i ni o 19.7% (631) sydd ychydig yn brin o'r targed canrannol, ond yn gynnydd o ran niferoedd a chanran ar ffigyrau blynyddoedd cyntaf y CSCA.

*Yn ymarferol bydd disgwyl gweld rhyw ychydig o newid rhwng y data hwn sydd ar gael o'r systemau ysgolion ar 10 Hydref 2024 â'r hyn a gaiff ei gofnodi'n ffurfiol ar gyfer y flwyddyn yn y CYBLD ym mis Ionawr 25 (a fydd ar gael wedyn erbyn yr haf).

| | CYBLD ION 22 | CYBLD ION 23 | CYBLD ION 24 | Data DERBYN Hydref 24 |
|---|---|---|---|---|
| **Niferoedd Cymraeg** | **603** | **611** | **577** | *631* |
| **Niferoedd Iaith Ddeuol** | **0** | **0** | **23** | *20* |
| **Cyfanswm Niferoedd** | **3446** | **3282** | **3288** | *3200* |
| **Fel % o'r prif ffrwd** | **17.5%** | **18.6%** | **18.2%** | **20.3%** *(19.7%)* |

Tabl F: *Data diweddaraf Dosbarthiadau Meithrin y Sir (CYBLD)*


**Ystyriaeth**: Rhaid cofio bod y gallu i gyrraedd darpariaeth y blynyddoedd cynnar o gwbl, neu yn hwylus, yn ffactor allweddol i nifer o rieni yng nghymunedau'r ddinas o hyd - bydd mynd i'r afael ag unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth yn gam amlwg pwysig gan fod y garfan hon yn strategol bwysig i dyfu'r iaith yn y brifddinas. Mae Deilliant 1 y CSCA yn nodi "*Mwy o blant meithrin/tair oed mewn addysg cyfrwng Cymraeg*". Mae angen felly ystyried creu mesuriad a tharged mwy cadarn i'r deilliant hwn yn y CSCA – targedau sy'n adnabod bylchau, heriau a grwpiau penodol gan fabwysiadu strategaethau hybu a hyrwyddo addas a phriodol. Bydd yr hyn a lwyddir i'w gyrraedd yn Deilliant 1 yn effeithio'n anorfod ar lwyddiant Deilliant 2 y CSCA, sef "*Mwy o blant dosbarth derbyn/5 oed mewn addysg cyfrwng Cymraeg*." - sef y cam allweddol hwnnw pan fydd rhieni yn gwneud dewis ynghylch cyfrwng iaith addysg statudol eu plentyn i bob pwrpas tan y byddant yn 16 oed – hynny yw, dewis i bob pwrpas a fyddant yn siaradwyr Cymraeg rhugl a hyderus ai peidio - o dan y drefn bresennol o leiaf.

Mae sicrhau bod canran uwch o blant mewn darpariaethau gofal a meithrin cyn oed ysgol amrywiol, ac sydd yn cael o leiaf rhywfaint o Gymraeg yno ar hyn o bryd, yn pontio draw i ddosbarthiadau derbyn cynradd Cymraeg *hefyd* yn faes sydd angen ei flaenoriaethu. Yn yr un modd rhaid deall yn well yr union niferoedd rhieni sy'n dewis gofal ddydd Saesneg oherwydd cyfleuster yr oriau a'r lleoliadau sydd yn cael eu cynnig ynghyd â'u lluosogrwydd o'i gymharu â darpariaeth ran-amser Gymraeg gyfagos. Er bod darpariaeth feithrin ran-amser y ddinas yn cynnig cyfleoedd i fwy o blant gyrchu'r ddarpariaeth, o leiaf am rywfaint o'r amser, i rai rhieni mae angen gofal llawn amser arnynt oherwydd eu hamgylchiadau ac fe allai hynny - yn anfwriadol gyfeirio rhai plant oddi wrth ddarpariaeth gynradd Gymraeg maes o law.

I'r un perwyl gallai Mudiad Meithrin wneud â mwy o gefnogaeth ar lawr gwlad yn y ddinas i hyrwyddo'u darpariaeth nhw yn lleol a llenwi rhai o'r bylchau daearyddol sydd ganddynt ar hyn o bryd - o ran diffyg staff a/neu gyfleusterau/lleoliadau addas i gynnal gweithgareddau meithrin dyddiol.

5.11 Gyda'r gostyngiad mewn genedigaethau, i ategu'r ystyriaeth uchod, sef bod denu cymaint o niferoedd ag y bo modd i ofal ac addysg feithrin Gymraeg yn hollbwysig i dwf y sector addysg statudol yn gyffredinol, wrth edrych ar amcanestyniadau diweddar disgyblion oed meithrin Caerdydd gyfan dros y cyfnod i ddod, nodwyd y bydd y 4,380 o blant 3 oed a welwyd yn 2018 yn y ddinas yn gostwng i nifer cymharol o 4004 erbyn 2036, cyn codi unwaith eto i 4,233 erbyn 2043.

(*Mae Caerdydd yn casglu ffigurau cofrestru meddygon teulu'r GIG, a oedd ar gyfer y flwyddyn 2021 yn dangos carfan blwyddyn o 3,626 o blant, sy'n sylweddol is nag yn amcanestyniadau'r Llywodraeth ar gyfer yr un cyfnod. Mae amcanestyniadau Caerdydd o'r herwydd – a welir yn Ffigwr 16 isod yn fwy dibynadwy o ran y blynyddoedd cyntaf byrdymor a chanolig y cyfnod hwn na rhai'r Llywodraeth).




*Ffigwr 10: Amcanestyniadau Misol Disgyblion Oed Meithrin yng Nghaerdydd, 2018 i 2043*

Ar ben hynny, mae'n werth nodi ffigyrau canol blwyddyn 2023 diweddaraf y SYG (Mehefin 2024) sydd yn rhoi poblogaeth o 3,909 o blant 3 oed yng Nghaerdydd. Mae hyn yn eithaf agos i'r taflwybr uchod a luniwyd gan Gyngor Caerdydd yn 2021, sy'n ategu eu cadernid ar gyfer y blynyddoedd hyn.

5.12 Felly er bod niferoedd oed meithrin yn debygol o ddisgyn yn gyffredinol ar draws y ddinas yn ystod cyfnod y CDLlN, heb ddychwelyd i'r lefel bresennol tan ddiwedd cyfnod y CDLlN yn 2036 *os pery'r tueddiadau presennol*, mae gofyn i'r sector blynyddoedd cynnar Cymraeg fel blaenoriaeth dyfu'n eithaf sylweddol mewn cyd-destun demograffig o'r fath er mwyn gallu rhoi llwyfan i dwf pellach i addysg gynradd Gymraeg - ac i lenwi'r lleoedd gwag sydd ar gael.

*Mae twf diweddar ym mhoblogaeth y ddinas y cyfeiriwyd ato yn 4.9-4.11 yn golygu y *gallai'r* gyfradd enedigaethau yn ystod y blynyddoedd nesaf godi'n uwch na'r disgwyl (a'r taflwybr a welwyd hyd yma), a allai yn ei dro gynyddu'r amcanestyniad a welir yn Ffigwr 12 isod. Ond bydd y sir yn ymwybodol o unrhyw newid i'r patrwm hwn drwy weld newid yn y data ar gofrestriadau meddygon teulu.

**********

## 6 Addysg Statudol - Cynradd




6.1 **Crynodeb o dwf addysg Gymraeg statudol yng Nghaerdydd**
[Tynnwyd peth o'r wybodaeth isod o: *Cronoleg Addysg Gymraeg yng Nghaerdydd ers 1940, Y Dinesydd, Awst 2018*[31] a ffynonellau eraill].
Sefydlwyd yr ysgol Gymraeg gyntaf dan fantell yr Awdurdod Lleol fel ag yr oedd ar y pryd ym 1949, sef **Ysgol Gymraeg Caerdydd** a hynny oddi ar Heol y Grange (*Sloper Road*) ar safle Ysgol Parc Ninian lle mae'r plac hwn uchod i'w weld heddiw.[32] Roedd 19 disgybl ar y bore cyntaf ym 1949 - ond dim ond 18 erbyn diwedd y prynhawn - nid y dechrau mwyaf addawol efallai i addysg Gymraeg yn y ddinas! Doedd dim un ysgol uwchradd Gymraeg i'r disgyblion yma allu mynd iddi, er y gwelwyd ymdrechion clodwiw ar waith gan ambell athro unigol mewn ysgolion uwchradd yn y ddinas - fel WC Elvet Thomas yn Ysgol Uwchradd Cathays, yr athro a gyflwynodd y Gymraeg - fel pwnc ail iaith - i'r academyddion Cymraeg diweddarach EG Millward (Tedi Millward) ac RM Jones (Bobi Jones).[33]

6.2 Symudodd Ysgol Gymraeg Caerdydd ym 1954 i safle yn Highfields, Llandaf a'i hailenwi yn **Ysgol Bryntaf –** ar y safle sydd bellach yn gartref i **Ysgol Pencae** yn Llandaf ers 1990 ac sy'n edrych dros lannau afon Taf a safle Ysgol Uwchradd Glantaf heddiw. Symudodd Bryntaf i adeilad mwy o faint ym 1970 ar safle hen ysgol uwchradd Viruami Jones yn Gabalfa – ond gan rannu'r safle gydag Ysgol Gynradd Viruami Jones - ac aros yno tan 1975. Teg dweud nad dyma gyfnod gorau addysg Gymraeg yn y brifddinas, er y twf, am fod y preswylwyr lleol yn anfodlon iawn â'r fflyd angenrheidiol o fysiau a dagai strydoedd cul eu cymuned ddwywaith y dydd wrth gludo plant o bob cwr o'r ddinas nôl a blaen i ganol ystâd dai ym Mynachdy.

6.3 Felly wedi 5 mlynedd yno, ym 1975 symudwyd Bryntaf unwaith eto, erbyn hynny yn ysgol 3 dosbarth mynediad, i safle ar Y Parêd yng nghanol y ddinas, gan droi yn ysgol 4 DM. Yn ôl rhai, hon erbyn hynny oedd ysgol gynradd fwyaf Ewrop ar y pryd gyda dros 600 o blant ynddi, ond doedd dim cae chwarae a dim ond un iard darmac a gardd fach a rannwyd â'r sefydliad addysg gymunedol drws nesaf - a ganolbwyntiai ar ddysgu Saesneg i fewnfudwyr o dramor.

[31] http://dinesydd.cymru/author/rheolwr/page/3/
[32] *Roedd ymgais wedi bod i sefydlu ysgol Gymraeg breifat yn y Rhath ym 1940 yn ystod y rhyfel a gwelwyd Ysgol Gymraeg yn cael ei chynnal ar ddyddiau Sadwrn yn y Rhath yn y blynyddoedd 1943-47 (yr aeth y gwleidydd Rhodri Morgan a'i frawd yr hanesydd Prys Morgan iddi).
[33] Hon hefyd oedd ysgol uwchradd y cantorion pop Geraint Jarman a Heather Jones yn ddiweddarach yn y 60au.

6.4 O ran hanes addysg uwchradd Gymraeg, ym 1962, dechreuodd rhai o blant Bryntaf (safle Highfields) deithio allan o ffiniau'r Awdurdod Addysg Lleol ar y pryd er mwyn mynd i ysgol uwchradd Rhydfelen ym Mhontypridd wedi i'r ysgol honno agor, ond erbyn 1974, byddai mwyafrif disgyblion Bryntaf, ond nid pob un mae'n rhaid nodi, yn teithio i Ysgol Gyfun Llanhari a oedd newydd agor mewn sir arall, a hynny y tu draw i Bontyclun – taith o rhwng deugain munud ac awr a chwarter ar fws ddwywaith y dydd - yn dibynnu ar union lwybr y bysiau drwy'r ddinas! Dim syndod felly bod pwysau ariannol ac addysgol wedi dod i agor ysgol uwchradd Gymraeg gyntaf y brifddinas – agorodd Ysgol Gyfun Glantaf ei drysau erbyn 1978 yn Ystum Taf gyda disgyblion Cymraeg yr ysgol newydd yn graddol ddisodli disgyblion Saesneg *Glantaf High School* fesul blwyddyn am rai blynyddoedd ar safle'r ysgol uwchradd Saesneg, hyd nes iddyn nhw symud i ddarpariaeth Saesneg amgen yn yr ardal maes o law.

6.5 Ym 1980, agorwyd Ysgol Melin Gruffydd fel ysgol gynradd Gymraeg newydd yn yr Eglwys Newydd ac yna ym 1981 ildiodd Bryntaf ei safle ar Y Parêd yng nghanol y ddinas a rhannu'n dair ysgol gynradd ar safleoedd newydd – sef Ysgol y Wern yn Llanisien, Ysgol Coed y Gof ym Mhentre-baen ac yna ym 1983 agorodd Ysgol Bro Eirwg yn Llanrhymni – pob un fel yr ysgolion uchod hefyd - yn etifeddu hen adeiladau ysgol o'r sector Saesneg. Yn fuan iawn dilynwyd yr ysgolion newydd yma yn y maestrefi gan Ysgol Treganna ym 1987, yna Ysgol Pencae ym 1990 ac ym 1993 agorwyd Ysgol Mynydd Bychan fel egin ysgol – eto, oll yn agor mewn hen adeiladau ysgol a oedd yn rhan o ystâd adeiladau yr awdurdod lleol.

6.6 Pan ddaeth Caerdydd yn ddinas a sir ym 1996, etifeddwyd 2 ysgol gynradd ddwy ffrwd (Cymraeg a Saesneg) sef ysgolion Creigiau a Gwaelod y Garth, oddi ar hen awdurdod Taf Elái (RhCT bellach), ac agorodd Ysgol Pwll Coch fel egin ysgol arall hefyd yn Lecwydd (ar hen safle Ysgol Uwchradd Fitzalan cyn iddi gael adeilad ysgol newydd dair blynedd yn ddiweddarach).

6.7 Ym 1998 agorwyd ail ysgol uwchradd Gymraeg y ddinas sef Ysgol Gyfun Plasmawr yn y Tyllgoed i flynyddoedd 7,8,9 a 10 - pan drosglwyddwyd rhai o ddisgyblion Glantaf yno a oedd yn byw yn nalgylch yr ysgol uwchradd newydd, a hynny ar hen safle Ysgol Uwchradd Waterhall/Cantonian.

6.8 Yn 2000 agorodd ysgolion cynradd y Berllan Deg yn Llanedern ac yn 2005, Glan Morfa yn y Sblot (gan rannu safle ag ysgol Saesneg Moorland i ddechrau cyn cael ei safle a'i hadeilad ysgol newydd sbon ei hun yn 2018 – hyd heddiw ers cau Bryntaf ar Y Parêd, dyma'r ysgol Gymraeg agosaf fel yr hed y frân i ganol y ddinas, taith ar droed o ryw hanner awr).

6.9 Yna yn 2007 agorwyd 4 egin ysgol newydd – Tan yr Eos (dros dro ar safle Ysgol Parc Ninian unwaith eto, ar gyrion Grangetown - nes gallu ail ymuno ag Ysgol Treganna mewn adeilad ysgol newydd dair ffrwd yn 2013) ar gyrion Treganna ei hun, Ysgol Nant Caerau ym mhen gorllewinol Trelái ac ysgolion Pen-y-pîl yn Trowbridge a Phen-y-groes ym Mhentwyn yn nwyrain y ddinas.

6.10 Yn 2009 agorodd Ysgol Glan Ceubal, Gabalfa, ac yna yn 2012 agorwyd trydedd ysgol uwchradd Gymraeg, sef Ysgol Bro Edern yn Llanedern yn nwyrain y ddinas. Bu bwlch o ugain mlynedd rhwng agor yr ysgol uwchradd gyntaf a'r ail, a bwlch o bymtheg mlynedd rhwng agor yr ail a'r drydedd. Mae 12 mlynedd ers agor Bro Edern bellach ac mae galwadau wedi dechrau yn y ddinas i agor pedwaredd ysgol uwchradd. Wedyn yn 2016 daeth Ysgol Hamadryad yn Butetown (ar safle dros dro i ddechrau – unwaith eto yn Ysgol Parc Ninian yn Grangetown!) ac ehangwyd Ysgol Glan Morfa – y ddwy ysgol hon yn gwasanaethu de'r ddinas.

6.11 Yn fwy diweddar yn 2018/19 cafwyd adeiladau ysgol newydd i Ysgolion Glan Ceubal, Hamadryad a Glan Morfa fel y nodwyd ac ehangwyd ysgolion Nant Caerau a Phen-y-pil hefyd, ac yn


2021 ehangwyd Ysgol Uwchradd Plasmawr i ddiwallu'r angen am fwy o leoedd uwchradd yn yr ardal ac eto yn 2024 gydag agor Canolfan Adnoddau Arbenigol.

6.12 Yr ysgol Gymraeg ddiweddaraf i'w hagor yw Ysgol Groes-wen, ym mis Medi 2023 ar ddatblygiad tai mawr Plasdŵr yng ngogledd-orllewin y ddinas. Mae'r ysgol hon yn fodel ieithyddol newydd i'r sir gydag un ffrwd Gymraeg ac un ffrwd 'iaith ddeuol' (lle mae hyd at 50% o'r addysgu yn y Gymraeg). Bydd y ddarpariaeth yn ardal ganol y ddinas yn cynyddu hefyd pan fydd Ysgol Mynydd Bychan yn symud i adeilad mwy ei maint gan ehangu fis Medi 2025 (yn hen adeiladau ysgol Allensbank).

Yn ogystal â'r model iaith ddeuol, Ysgol Groes-wen yw'r esiampl cyntaf yng Nghaerdydd o ysgol Gymraeg newydd sbon yn agor o'r dechrau'n deg mewn adeilad ysgol newydd, a hynny ar ddatblygiad tai maes glas newydd. Yn y gorffennol fel y nodwyd uchod, mae pob ysgol Gymraeg yng Nghaerdydd ers 1949 wedi etifeddu hen adeilad ysgol blaenorol wrth agor ei drysau am y tro cyntaf a dim ond wedi symud maes o law i adeiladau newydd sbon neu i safle mwy o ran maint. Mae Groes-wen yn torri'r patrwm hwnnw ac yn ddatblygiad arwyddocaol felly wrth ystyried y strategaeth yng nghynllun Addysg CSCA presennol yr awdurdod dros y blynyddoedd nesaf, sef bod o leiaf 50% o'r ddarpariaeth ar y safleoedd datblygu ar gyrion y ddinas i'w neilltuo ar gyfer lleoedd ysgol Cymraeg.

6.13 Y sefyllfa erbyn heddiw felly yw bod gan Gaerdydd:

- **15** ysgol gynradd Gymraeg +
- **2** ysgol gynradd ddwyieithog (ffrwd Gymraeg a ffrwd Saesneg) +
- **1** ysgol gynradd Gymraeg â ffrwd ddeuol (sef 1 ffrwd Gymraeg ac 1 ffrwd Iaith Ddeuol)
- a **3** ysgol uwchradd Gymraeg





*Ffigwr 11: Dosbarthiad Daearyddol Ysgolion Cynradd Cymraeg Caerdydd 2025*

[*Cynhwyswyd y crynodeb uchod er mwyn rhoi syniad o batrwm arferol a dosbarthiad daearyddol twf addysg Gymraeg yn y ddinas dros y blynyddoedd – o ran eu lleoliadau yn y ddinas, rhai o'r camau a'r technegau twf arferol a fabwysiadwyd gan awdurdod addysg y dydd i ymateb i'r galw a hwyluso tyfu niferoedd, ynghyd â nodi'r datblygiadau mwy diweddar sydd i fwydo strategaeth y CSCA presennol].

6.14 **Twf cyson:**


Ers 1949 a hyd at 2017 dim ond un flwyddyn a fu pan na welwyd cynnydd yn niferoedd y disgyblion yn derbyn addysg Gymraeg yng Nghaerdydd. Bu'r twf rhwng 5-10% ar gyfartaledd bob blwyddyn yn y cyfnod hwn. [Michael Jones, *Y Dinesydd* 2018]. Ond, oddi ar 2012, gwelwyd cyfraddau genedigaethau cyffredinol y ddinas yn dechrau gostwng fel y gwelir isod:




*Ffigwr 12: Patrwm Cylchol Cyfradd Genedigaethau Caerdydd*

6.15 O ganlyniad, yn 2017 dechreuwyd gweld gostyngiad dilynol hefyd yn y niferoedd Blwyddyn 1 (5 oed) cyffredinol am y tro cyntaf ar draws y ddinas (hynny'n dilyn gostyngiad yn y garfan a aned yn 2012). Y gyfradd enedigaethau is a welir uchod oedd yn bennaf gyfrifol am y gostyngiad hwn ym Mlwyddyn 1, er bod rhai amrywiolion eraill hefyd yn effeithio ar drosglwyddiad carfannau, e.e. teuluoedd â phlant o dan 5 oed yn symud i mewn ac allan o'r ardal.


Er nad yw'n gynnydd canrannol cyson, fel y gwelir isod yn Ffigwr 13, gwelwyd twf serch yr uchod o 0.25% y flwyddyn yn y ganran yn cofrestru mewn Dosbarth Derbyn Cymraeg yn y blynyddoedd mwy diweddar rhwng 2015/16 a 2020/21. Y ffigwr canrannol hwn o 0.25% y flwyddyn a ddefnyddiwyd i fwydo'r gwaelodlin twf ar gyfer taflwybrau'r CSCA 2022-2031.




*Ffigwr 13: Patrwm twf y galw hanesyddol am leoedd Derbyn Cymraeg Caerdydd, CYBLD (PLASC)*

6.16 Ers yr un cyfnod, bu cyfanswm niferoedd CYBLD (*PLASC*) ym Mlwyddyn 7 yn y dair ysgol uwchradd fel rheol yn yr ystod 650- 700 y flwyddyn – gan gyrraedd uchafbwynt o ran niferoedd yn 2021 ond gostyngiadau bychan ers hynny – unwaith eto'n adlewyrchu'r ddemograffeg ehangach, gyda gostyngiad hanesyddol yn y gyfradd enedigaethau yn cael ei adlewyrchu yn y niferoedd uwchradd is 11/12 mlynedd yn ddiweddarach. Trafodir y sector uwchradd yn 7.1

6.17 Er mwyn edrych yn fwy manwl ar y tueddiadau hyn,[34] os edrychwn ni ar y ffigyrau canrannol, cynyddodd canran y disgyblion cynradd mewn dosbarthiadau Derbyn Cymraeg fel y nodwyd tua 0.25% y flwyddyn rhwng 2015/16 - 2020/21. Pe byddai'r ganran hon yn cynyddu ar yr un gyfradd rhwng 2021 a 2030, heb unrhyw ymyraethau neu newidiadau demograffig mae'n debyg y byddai 20% o ddisgyblion a fyddai'n dechrau'r Dosbarth Derbyn ym mis Medi 2030 yn mynychu darpariaeth Gymraeg, fel y dengys y llinell amcanestyniad las a choch syth yn Ffigwr 14 isod.





*Ffigwr 14: Allosod niferoedd derbyn Cymraeg i 2030 ar gyfradd o 0.25% y flwyddyn*

[34] Data ac ystadegau Adran Addysg Cyngor Caerdydd

6.18 Nid yw'r cynnydd canrannol amcanestynnol hwn yn ystyried unrhyw ddatblygiadau tai strategol mawr a nodwyd yn y Cynllun Datblygu presennol (ac sydd i'w treiglo ymlaen i'r CDLlN), nac ychwaith unrhyw newidiadau demograffig sylweddol neu ymyraethau polisi a hybu a allai fod yn berthnasol i newid y darlun hwn o ran addysg gynradd Gymraeg. Dylid cofio hefyd mai canran a ddangosir yn yr amcanestyniad ac nid niferoedd.

6.19 Mae Ffigwr 15 isod yn rhoi amcanestyniad Adran Addysg y Cyngor o nifer y plant 5 oed yng Nghaerdydd 2020-50 wedi ei gyfosod yn erbyn tri thaflwybr amcanestyniad poblogaeth Llywodraeth Cymru (*a seiliwyd ar ddata 2018). Mae'r taflwybr amgen hwn yn ailadrodd y cyfraddau geni blaenorol a'r niferoedd a gofrestrwyd mewn ysgolion ac yn ymgorffori'r amcanestyniadau niferoedd gros o flwyddyn i flwyddyn o'r datblygiadau tai strategol a gyhoeddwyd yn CDLl mabwysiedig 2016-26 y ddinas.

Pe dilynid y taflwybr amgen hwn, gallai Caerdydd weld y gyfradd enedigaethau yn cyrraedd uchafbwynt tua 2031, a fyddai'n rhoi uchafbwynt o ran nifer y disgyblion 5 oed sy'n cofrestru mewn ysgolion tua'r flwyddyn 2036 ar ychydig o dan 5,000 (llinell goch doredig isod). Byddai'r niferoedd wedyn yn dechrau gostwng eto, er y byddent yn aros uwchlaw isafbwynt blaenorol y cylchred oherwydd y cynnydd cyffredinol yn y boblogaeth a gaiff ei amlygu gan nifer y tai newydd yn y ddinas. Mae'r taflwybr hwn yn dra gwahanol i amcanestyniadau poblogaeth cyhoeddedig Llywodraeth Cymru (llinellau du), yn is na'u hamcanestyniadau yn y tymor byr (2021-2026) ac yn uwch na'u hamcanestyniadau yn y tymor hwy (y tu hwnt i 2031).




Ffigwr 15: Taflwybrau Llywodraeth Cymru a Chaerdydd o blant 5 oed

6.20 Gan fod amcanestyniadau'r Cyngor o nifer y plant 5 oed yn y cyfnod 2021-2025 yn seiliedig ar ddata cofrestru meddygon teulu'r GIG a ddarparwyd hyd at fis Awst 2021, gellir bod yn weddol hyderus yn yr amcanestyniadau tymor byr hyn o leiaf a thybir felly eu bod yn gadarnach nag amcanestyniadau presennol y Llywodraeth. Mae hefyd yn rhesymol dod i'r casgliad yn seiliedig ar gylchredau poblogaeth y gorffennol, er bod amseriad a chyfradd y newid yn ansicr, y bydd nifer y disgyblion sy'n cofrestru yn y dyfodol y tu hwnt i 2025 yn debygol o gynyddu.

6.21 Disgwylir set newydd o amcanestyniadau taflwybrau gan Lywodraeth Cymru yn seiliedig ar ddata Cyfrifiad 2021 yn ystod 2025, felly'r set ddiweddaraf sydd i'w chael gan y Llywodraeth yw data a gyhoeddwyd yn 2021 (ond ar sail data 2018). *Diddorol nodi serch hynny fod data canol blwyddyn

diweddaraf y SYG (Gorffennaf 2024) yn nodi cyfartaledd sampl i Gaerdydd o blant 5 oed sy'n 4,028 ar gyfer canol 2023 - sydd ychydig yn uwch na'r ffigwr cyfatebol yma gan Gaerdydd ei hun. Ond y rhagamcan *ar hyn o bryd* rhwng 2024 a 2043 yw y rhagwelir cynnydd graddol yn niferoedd y plant 5 oed (oedran derbyn) sy'n awgrymu na fydd galw mawr i gynyddu nifer y lleoedd ysgol cynradd cyffredinol ar draws y ddinas tan 2043.

6.22 Ond fel y crybwyllwyd uchod eto yn 4.9-4.11, mae gofyn ailasesu'r data hwn yn barhaus os bydd ffactorau newydd yn effeithio ar nifer y cofrestriadau genedigaethau yn y blynyddoedd nesaf nad sydd wedi eu ffactora eto i unrhyw amcanestyniadau ynghylch niferoedd plant 5 oed gan y Cyngor na chan Lywodraeth Cymru. Bydd hyn yn rhywbeth i gadw golwg arno ym mlynyddoedd cyntaf y CDLl newydd mabwysiedig.

6.23 **Capasiti**

Os edrychwn ar nifer y lleoedd ysgol (capasiti), gall newidiadau diweddar ac arfaethedig i'r ystâd yn 2021-25 gynyddu nifer y lleoedd addysg (sef Dosbarthiadau Mynediad/DM) sydd ar gael o 836 i 956 (27.9DM i 31.9DM). Mae hyn yn cynnwys agor ysgol 2 DM Groes-wen ym Medi 2023 (1 DM cyfrwng Cymraeg), gwerth 1 DM o leoedd ychwanegol i wasanaethu dalgylch Nant Caerau a gwerth 1 DM yn rhagor o leoedd i wasanaethu dalgylch Pen y Pîl. Hefyd yn y cynlluniau mae'n fwriad ehangu darpariaeth dalgylch y Mynydd Bychan tua 1 DM ar gyfer mis Medi 2025. Mae hwn yn rhan o ad-drefnu a fydd yn gweld ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg Allensbank a Gladstone yn cyfuno (bydd hynny'n creu cyfle i fuddsoddi mewn cyfleusterau newydd yno ac arbediad i'r adran addysg). O wireddu'r newidiadau hyn, byddai hyn yn cynyddu cyfanswm y lleoedd DM sydd ar gael i addysg Gymraeg ar oed Derbyn i 19.5% o gyfanswm y ddarpariaeth sydd ar gael erbyn mis Medi 2025, fel y gwelir yn Nhabl G.

| | **Cyfanswm DM** | **Canran** |
|---|---|---|
| **Cymunedol Saesneg** | 103DM (+0.8DM) | 62.9% |
| **Saesneg Ffydd** | 28.9DM (+0.5DM) | 17.6% |
| **Cymunedol Cymraeg** | 31.9DM (+4DM) | 19.5% |
| **Cyfanswm** | 163.8DM (+5.3DM) | 100% |

*Tabl G: Cyfanswm Dosbarthiadau Mynediad Cynradd Caerdydd erbyn Medi 2025*

6.24 Yn yr un cyfwng amser fodd bynnag, byddai cynigion i gynyddu'r ddarpariaeth yn y sector uwchradd Saesneg yn golygu gostyngiad yng *nghanran* y lleoedd uwchradd Cymraeg o 15.1% yn 2021 i 14.5% erbyn Medi 2025 (sef parhau ar 21 DM uwchradd – dim newid ers ehangu Plasmawr 1DM ym mis Medi 2021).

6.25 Wrth edrych ar y cyfnod o 2026 ymlaen, bydd angen cynigion i ddod ger bron i ateb y galw mewn rhai ardaloedd penodol o'r ddinas ynghyd â chyflwyno ysgolion posib ar y safleoedd datblygu strategol maes glas newydd – sef datblygiadau i'r gorllewin o Bontprennau ger Llys-faen, tir i'r gogledd o Bontprennau (i'r dwyrain o Lys-faen), yng Nghapel Llanilltern i'r gogledd o gyffordd 33 yr M4 a chamau diweddarach y datblygiadau ym Mhlasdŵr. Gallai'r rhain gynnig cyfanswm o 8 DM cynradd newydd o leiaf gyda'r rhai cyntaf yn cael eu cyflwyno yn natblygiad Churchlands a Chapel Llanilltern (dim cynharach erbyn hyn na 26/27 - ac efallai yn hwyrach na hynny) a'r gweddill yn nes at ddiwedd y degawd ac i mewn i'r degawd nesaf. Cyflwynwyd y cyntaf ar y lleiniau maes glas yn 2023 sef Ysgol Groes-wen ym Mhlasdŵr.

Erbyn diwedd y degawd *os* bydd yr ysgolion cynradd newydd yma yn cael eu sefydlu fe fydd angen edrych ar gynyddu'r ddarpariaeth uwchradd – a chan ddibynnu ar union natur twf y ddarpariaeth gynradd yn yr ardaloedd hyn, efallai 4edd neu 5ed ysgol uwchradd Gymraeg maes o law - gyda gofod

amlinellol wedi ei neilltuo i un ysgol uwchradd ar uwch gynllun safle datblygu Plasdŵr ac un arall ar uwch gynllun safle yn y dwyrain.

*Dim ond posibiliadau* yw'r rhain ar hyn o bryd fodd bynnag. Bydd llawer yn dibynnu ar unrhyw newidiadau demograffig nas ystyriwyd, ar gyfraddau cwblhau tai'r datblygwyr, ar bolisi'r adran addysg ei hun – o ran adolygu polisi'r CSCA, o ran trefniadaeth ysgolion yn gyffredinol ar draws y ddinas (ac unrhyw gynlluniau i ad-drefnu'r ddarpariaeth yn y sector Saesneg neu'r sector Gymraeg) ynghyd â gwaith cyfochrog ar gynlluniau buddsoddi yn yr ystâd ysgolion bresennol dan faner Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy newydd Llywodraeth Cymru.

6.26 Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor wedi modelu newidiadau capasiti fel y nodir isod yn Nhabl H yn seiliedig ar ddarpariaeth newydd sydd yn 50% cyfrwng Cymraeg yn yr ardaloedd datblygu maes glas a enwir uchod. Mae'r ymrwymiad yma hefyd wedi ei gynnwys yn y CSCA sef y bydd o leiaf 50% o unrhyw ddarpariaeth newydd ar y safleoedd datblygu hyn yn y cynllun datblygu presennol yn ddarpariaeth drochi Gymraeg. Does dim cyfeiriad yn strategaeth y CSCA at natur bosib gweddill y ddarpariaeth fodd bynnag (a allai fod yn ddarpariaeth model iaith ddeuol, yn fwy o ddarpariaeth drochi Gymraeg - neu'n ddarpariaeth Saesneg).[35]

6.27 Mae'r tabl isod yn cynnwys yr holl newidiadau i gapasiti a gynlluniwyd yn y cyfnod 2021-2025 (+ 4DM Cymraeg) ynghyd â'r lleoedd *ychwanegol* cychwynnol uchod yn y cyfnod 2026-2031 (+4 DM Cymraeg a + 4DM Saesneg am nawr).

| | **Cyfanswm DM** | **Canran** |
|---|---|---|
| **Cymunedol Saesneg** | 107DM (+4.8DM) | 62.3% |
| **Saesneg Ffydd** | 28.9DM (+0.5DM) | 16.8% |
| **Cymunedol Cymraeg** | 35.9DM (+8DM) | 20.9% |
| **Cyfanswm** | 171.8DM (+13.3DM) | 100% |

*Tabl H: Cyfanswm Dosbarthiadau Mynediad Cynradd Posib Caerdydd erbyn Medi 2031*

6.28

**Ystyriaeth:** Bydd gofyn i'r CDLlN ystyried y CSCA oherwydd y bydd y rhan fwyaf o'r lleiniau datblygu sydd ynghlwm â darpariaeth addysg newydd ar leiniau maes glas yn y cynllun datblygu presennol yn treiglo - neu'n cael eu cario drosodd - i'r CDLlN arfaethedig ac yn eu sgil hefyd yr ymrwymiadau sydd yn y CSCA.

Yn ychwanegol at hynny, bydd gofyn bod y CDLlN yn ystyried unrhyw oblygiadau addysg posib ynghlwm ag unrhyw ddarpariaeth addysg newydd bosib neu gyfraniadau rhwymedigaethau cynllunio fydd yn gysylltiedig â datblygiadau *tir llwyd* – a fydd mewn cymunedau mwy sefydledig yn y ddinas ac a fydd yn chwarae rhan fwy amlwg yn y CDLlN newydd nag a welwyd yn y cynllun datblygu cyfredol. Nid yw lleiniau datblygu tir llwyd wedi eu crybwyll fel y cyfryw yn y CSCA pesennol, felly bydd gofyn edrych ar hynny wrth adolygu'r CSCA.

[35] Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Caerdydd 2022-31

**Taflwybr y CSCA**

Pennwyd targedau CSCAau deng mlynedd awdurdodau lleol unigol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer blwyddyn ysgol 2030/31, yn seiliedig ar amcanestyniadau poblogaeth Llywodraeth Cymru. Mae'r targedau hyn yn cynnwys ystod is ac ystod uwch o blant Blwyddyn 1 ac yn rhoi niferoedd a chanran y disgyblion ar gyfer pob un. Mae targed Blwyddyn 1 Caerdydd wedi'i nodi yn Nhabl I isod .

| | 2019/20 | | 2030/31 | | 2030/31 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gwaelodlin LlC | | Targed: Ystod Is | | Targed: Ystod Uwch | |
| | Nifer | Canran | Nifer | Canran | Nifer | Canran |
| **Caerdydd** | 702 | 16.9% | 1,035 | 25% | 1,200 | 29% |

*Tabl I: Targedau Is ac Uwch Blwyddyn 1 CSCA Caerdydd 2030/1*

6.29 Drwy gyfuno'r data o'r safleoedd datblygu maes glas gyda data'r cymunedau presennol, crëwyd taflwybr ar gyfer Caerdydd, i nodi *nifer posibl uchaf* y disgyblion cyfrwng Cymraeg os ychwanegir lleoedd ysgol Cymraeg newydd - ac y caiff rhain eu llenwi.

6.30 **Amcanestyniadau nifer disgyblion**[36]

Mae amcanestyniadau poblogaeth Llywodraeth Cymru a'r patrwm cyfraddau geni cylchol blaenorol yn rhoi syniad o sut y gallai nifer y disgyblion mewn ysgolion newid dros y degawdau nesaf. Fel y nodwyd uchod, cynyddodd canran y disgyblion sy'n cofrestru mewn dosbarthiadau Derbyn Cymraeg 0.25% y flwyddyn ar gyfartaledd rhwng 2015/16 a 2020/21. Fodd bynnag mae'r ganran wirioneddol wedi bod yn is eto na hynny dros y 5 mlynedd diwethaf ar yr un pryd ag y mae'r carfannau genedigaethau is eu niferoedd yn bwydo drwodd i'r system addysg (gweler 6.40 isod).


6.31 Y nifer o blant a ragamcennir i fynd i'r flwyddyn dderbyn mewn addysg Gymraeg yw'r nifer a ragamcennir os bydd y patrymau a'r tueddiadau presennol, o'u cymharu â'r boblogaeth, yn parhau. Os bydd canran y disgyblion yn cynyddu ar yr un gyfradd rhwng 2021 a 2030, byddai 20.9% o ddisgyblion sy'n dechrau yn y Dosbarth Derbyn ym mis Medi 2031 yn mynychu darpariaeth Gymraeg, sef ychydig dros 1,000 o ddisgyblion. [gw. Tabl I uchod]

6.32 Nid yw amcanestyniadau'n dangos unrhyw newidiadau i batrymau ymddygiad nad ydynt yn cael eu hadlewyrchu yn y data hanesyddol, megis newid tebygol i ddarpariaeth yn y dyfodol a/neu newidiadau o ran polisi e.e. ym maes hyrwyddo addysg Gymraeg. Mae cyfuno'r patrwm twf cynhenid a welwyd yng nghyfradd genedigaethau Caerdydd gyda data amcanestyniadau niferoedd disgyblion y safleoedd datblygu tai strategol, yn caniatáu cymharu'r taflwybrau twf oed derbyn Cymraeg isod, sef:

- parhad ar y twf cynhenid ledled y ddinas (h.y. twf ar sail y patrwm diweddar, tystiolaethol) mewn cymunedau sefydledig
- rhagolwg gan ystyried cynnydd yn y niferoedd ar safleoedd datblygu maes glas strategol (ar gyfradd uwch) sy'n manteisio ar addysg Gymraeg (modelwyd hyn ar gyfradd o 50% yn ddarpariaeth Gymraeg), a
- y taflwybrau sy'n angenrheidiol i gyrraedd y trothwy targed CSCA isaf o 25%, y trothwy ar gyfer 27% a'r trothwy uwch o 29% erbyn 2031

[36] Ibid.32

Caerdydd Ddwyieithog Bilingual Cardiff




*Ffigwr 16: Taflwybrau twf Derbyn Cymraeg posib fel % dros amser*

6.33 Mae'r twf blynyddol cynhenid yn seiliedig ar ffigyrau CYBLD 2015/16 – 2020/21 sydd yn rhoi twf o tua 0.25% y flwyddyn dros y cyfnod. Mae ychwanegu'r boblogaeth bosibl o bobl yn symud i'r safleoedd CDLl, a chymryd bod 50% o'r plant yma yn mynd i addysg Gymraeg, yn rhoi cyfradd twf bosibl gyfunol o 0.52% y flwyddyn. *Fodd bynnag, byddai'r twf cyfunol hwn yn dal i fod yn annigonol i gyrraedd targedau cyhoeddedig LlC ar gyfer y CSCA*.

- Er mwyn cyflawni'r dangosydd trothwy o 25% erbyn 2030, mae angen tua 0.75% o dwf blynyddol.
- Er mwyn cyflawni 27% erbyn 2030, mae angen tua 0.95% o dwf blynyddol.
- Er mwyn cyrraedd y trothwy uchaf o 29% erbyn 2030, mae angen tua 1.15% o dwf blynyddol.

6.34 Mae'r taflwybr yn dangos y byddai canran y disgyblion mewn addysg Gymraeg yn cyrraedd y targed ystod is o 25% o ddisgyblion 5 oed mewn addysg Gymraeg erbyn mis Medi 2030 os cyflawnir twf ychwanegol o 0.23% *ar ben* y twf cynhenid *a'r* 50% yn mynychu addysg Gymraeg ar y safleoedd strategol.

6.35 Mae Tabl L isod yn nodi'r nifer a ragamcennir o blant yn y garfan berthnasol, ym mhob blwyddyn academaidd, y niferoedd a fodelwyd ar gyfer dosbarthiadau Derbyn Cymraeg, a nifer y plant y byddai angen iddynt gofrestru mewn dosbarthiadau Derbyn Cymraeg er mwyn gwneud cynnydd cyson yn erbyn y targedau a bennwyd.

| Blwyddyn Academaidd | Prif Amcanestyniad poblogaeth | Twf cynhenid a ragamcennir (cymunedau sefydledig) | Twf cynhenid + twf cymunedau CDLl | Twf i gyrraedd targed o 25% | Twf i gyrraedd targed o 27% | Twf i gyrraedd targed o 29% |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2021/22 | 3937 | 696 | 700 | 720 | 728 | 735 |
| 2022/23 | 3810 | 687 | 685 | 725 | 740 | 755 |
| 2023/24 | 3777 | 690 | 704 | 747 | 770 | 792 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2024/25 | 3822 | 708 | 728 | 785 | 815 | 846 |
| 2025/26 | 3801 | 714 | 759 | 809 | 847 | 885 |
| 2026/27 | 3781 | 719 | 776 | 833 | 878 | 924 |
| 2027/28 | 3774 | 728 | 796 | 860 | 913 | 965 |
| 2028/29 | 3777 | 738 | 815 | 889 | 949 | 1010 |
| 2029/30 | 3780 | 748 | 833 | 918 | 986 | 1054 |
| 2030/31 | 3937 | 757 | 850 | 946 | 1021 | 1096 |

*Tabl L: Niferoedd a ragamcennir mewn dosbarthiadau derbyn a fyddai'n bodloni 3 tharged y CSCA*

6.36 Ond, wrth gymharu â'r taflwybr uchod, 653 ac nid 708 oedd y nifer derbyn i ysgolion cynradd Cymraeg yn ôl data CYBLD Ionawr 2024 (gweler Tabl M isod) sef 17.7% o gyfanswm y niferoedd derbyn ar draws y ddinas. A 656 oedd y nifer derbyn yn 2023/24 ac nid 690 sef 16.9% o'r cyfanswm. Mae data cyfraddau geni a phoblogaeth ar gael ar gyfer y plant hynny sy'n mynd i addysg gynradd o 2021 i flwyddyn ysgol 2024/25, ac mae'r ffigyrau perthnasol wedi eu nodi isod ar gyfer derbyn i addysg gynradd Gymraeg - hyd at ddata amodol mis Hydref 2024 (gall y ffigyrau yma newid erbyn cael canlyniadau terfynol CYBLD Ionawr 2025 a ddaw i law erbyn haf 2025).

Mae Tabl M isod yn nodi'r un ffigurau a chanrannau diweddar ond gan ychwanegu ffrwd iaith ddeuol ysgol Groes-wen i'r ffigurau addysg Gymraeg. Ond er bod y ganran yn cynyddu i 18.5% drwy ychwanegu'r niferoedd ffrwd ddeuol eleni sy'n rhoi cyfanswm o 667, byddai angen nifer o 728 i gyrraedd targed canrannol y CSCA, sef 2 DM arall i bob pwrpas.

**DATA CYBLD 2024**

| | CYBLD ION 22 | CYBLD ION 23 | CYBLD ION 24 | Data SIMS / Capita Hydref 24 |
|---|---|---|---|---|
| **Niferoedd Cymraeg** | **658** | **656** | **653** | *641* |
| **Niferoedd Iaith Ddeuol** | **0** | **0** | **3** | *26* |
| **Cyfanswm Niferoedd** | **3824** | **3844** | **3655** | *3598* |
| **Fel % o'r prif ffrwd** | **17.2%** | **17.1%** | **17.9%** | **18.5%** |

*Tabl M: Data diweddaraf Dosbarthiadau Derbyn (CYBLD), Adran Addysg Cyngor Caerdydd*

Ar hyn o bryd yn 2024, mae 870 o leoedd derbyn cynradd Cymraeg ar gael yng Nghaerdydd. Mae hyn yn cyfateb i warged (lleoedd derbyn gwag) o 28.8% yn y sector Gymraeg neu 28.3% o gynnwys y ffrwd ddeuol yn Ysgol Groes-wen. Tyfodd y gwarged yna ers 2021 pan oedd tua 10% o leoedd gwag mewn dosbarthiadau derbyn Cymraeg (ar draws 27.9DM).


6.37 * Nid yw'r ffigwr hwn yn ystyried y cynnydd lleoedd a ddaw gydag ehangu Ysgol y Mynydd Bychan 1.1DM ym mis Medi 2025 ar safle newydd yr ysgol. Gallai hynny weld un ai gynnydd pellach neu ostyngiad yn y gwarged llefydd - yn dibynnu ar lwyddiant yr ysgol i ddenu plant *ychwanegol* newydd i'r sector Gymraeg – hynny yw, yn hytrach na dadleoli darpar ddisgyblion o leoedd mewn ysgolion Cymraeg cyfagos. Serch hynny, mae'n ddarlun tebyg ar draws lleoedd ysgol cynradd y ddinas gyfan, yn sgil y gostyngiad mewn genedigaethau. Yn y sector Saesneg (heb gynnwys ffrwd ddeuol ysgol Groes-wen), mae canran y llefydd derbyn gwag ar 25.2% (25.3% mewn ysgolion a gynhelir a 24.7% mewn ysgolion ffydd).

6.38 Hefyd yn werth ei nodi eleni yw bod cyfanswm o 9.59% (63) dysgwr o gefndir Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol yn derbyn addysg Gymraeg yn y flwyddyn dderbyn (*data dros dro CYBLD 2024). Mae hyn yn gynnydd bychan ond calonogol o 1.52% (+10 dysgwr) o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae hwn yn amlwg yn faes sy'n gofyn am strategaeth i'w dargedu'n bwrpasol - ie er mwyn cynyddu

niferoedd, ond hefyd i sicrhau ysgolion Cymraeg sy'n fwy cynrychioliadol o'u cymunedau, patrwm a lwyddodd i raddau helaeth yn achos agor ysgol newydd Hamadryad yn y Bae yn 2016.

6.39 Hefyd yn ystod 2023/24, mae'n werth nodi y mynychodd 50 dysgwr yr uned drochi, sef y nifer fwyaf ers agor yr uned yn 2010.[37] Mae'r 50 disgybl yma fodd bynnag eisoes wedi eu cyfrif yn y ffigyrau CYBLD ar gyfer addysg Gymraeg o dan eu hysgolion 'cartref' newydd - nid ydynt yn effeithio ar yr ystadegau CYBLD o ran niferoedd na chanran.

6.40 Serch hynny, byddai parhau â'r duedd gyffredinol ddiweddar ond yn gweld cynnydd canrannol o **c.0.09%** y flwyddyn yn y sector, a fyddai'n rhoi twf i 18% yn unig erbyn diwedd cyfnod y CSCA yn 2031. Yn fyr, mae'r amcanestyniadau Derbyn ar sail y data CYBLD diweddaraf a welir yn Ffigwr 17 isod lawer llai cadarnhaol na phan luniwyd targedau'r CSCA yn 2021 (gw. Ffigwr 14 yn 6.17 uchod).




*Ffigwr 17: Amcanestyniadau Derbyn Cymraeg ar sail y data CYBLD diweddaraf*

6.41 **Casgliadau** Er gwaethaf agor darpariaeth newydd Ysgol Groes-wen ym mis Medi 2023, sef yr ysgol gyntaf i'w hagor yn y cymunedau newydd o dan y CDLl presennol, mae'r data CYBLD diweddaraf yn dangos bod y niferoedd nid yn unig y tu ôl i daflwybr targed isaf y CSCA (sef 25% yn 2031) neu 20.5% ar gyfer 2024/5, ond y tu ôl i'r rhagamcan niferoedd o ran y taflwybr twf cynhenid hefyd.

Teg nodi fodd bynnag fod y cyfanswm niferoedd ar draws y ddinas yn ôl CYBLD Ionawr 2024 hefyd yn is na'r rhagamcan gwreiddiol - sy'n gwella'r ganran sydd mewn addysg Gymraeg ychydig, os nad y niferoedd. Ond mae'r ganran o 17.73% yn 2024 yn dal yn brin o'r 20.5% y gobeithiwyd amdani ar gyfer 24/5 pan ddechreuwyd gweithredu'r CSCA. Er mwyn cyrraedd y targed hwnnw byddai gofyn bod tua 741 o blant wedi dechrau mewn dosbarth Derbyn Cymraeg ym mis Medi 2023 yn hytrach na 641 (*ffigwr dros dro Hydref 2024).

[37] Hafan | Uned Drochi Iaith Caerdydd

6.42 Bydd y cynlluniau a weithredwyd eisoes i gynyddu'r capasiti cynradd i 32.9DM erbyn 2025 (sydd yn cynnwys ffrwd Gymraeg Groes-wen ac ehangu Ysgol Mynydd Bychan fis Medi 2025), i fodloni ac i yrru'r galw mewn rhannau o'r ddinas, yn caniatáu i hyd at 25.2% o’r boblogaeth ddysgwyr oed Derbyn ledled y ddinas gofrestru ar gyfer addysg Gymraeg - *pe byddent yn dymuno gwneud hynny* erbyn 2025/2026.

Mae hynny’n golygu fod digon o gapasiti ar hyn o bryd (yn sgil y cwymp mewn genedigaethau) i dderbyn nifer sylweddol yn fwy i’r sector Gymraeg nag sydd yn manteisio ar y cyfle ar hyn o bryd, a bod y capasiti hwnnw, os yw’r niferoedd yn aros fel ag y maent, yn ddigonol i gynnig lleoedd ysgol i’r gofyniad targed isaf yn y CSCA o 25% (*ond heb unrhyw lefel o warged i ganiatáu ar gyfer twf pellach, ac mae’r CSCA wedi ymrwymo i gynnal gwarged o 10% man lleiaf ar gyfer twf yn y sector Gymraeg). Yn amlwg pe bai Caerdydd yn anelu at lenwi lleoedd targed canolig y CSCA o 27%, neu’r targed uwch o 29%, yna byddai gofyn ychwanegu at y capasiti presennol erbyn 2031 drwy gynyddu niferoedd y dosbarthiadau mynediad Cymraeg sydd ar gael yn y ddinas.

6.43 Mae datblygiadau tai newydd yn y ddinas yn cynnig cyfle i gyflymu'r nifer sy'n manteisio ar addysg Gymraeg, gan fod y cynnydd yn y boblogaeth gyffredinol o'r tai newydd ar bapur yn ddigonol i'w gwneud yn ofynnol i godi ysgolion newydd fel rhan o'r datblygiadau hynny – bydd hyn yn ddibynnol fodd bynnag ar y gyfradd cwblhau tai newydd yn y datblygiadau dan sylw ond hefyd ar lefel y lleoedd gwag yn yr ysgolion Cymraeg cyfagos.

Yn amlwg byddai ehangu'r ddarpariaeth Gymraeg yn y safleoedd datblygu newydd yn cefnogi, os nad yn gwarantu, cynnydd yn nifer y disgyblion fyddai’n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg. (*Wedi’r cwbl byddai rhywun yn tybio bod adeilad ysgol newydd yn debygol o ddenu disgyblion i’w llenwi, waeth beth yw cyfrwng ieithyddol yr addysg). Mae mabwysiadu CSCA deng mlynedd gydag adolygiad blynyddol hefyd yn cefnogi Awdurdodau Lleol i osod ymagwedd hirdymor, strategol a chynaliadwy ger bron ar gyfer twf addysg Gymraeg gyda chyfle i addasu’r CSCA yn ystod y cyfnod hwn hefyd.

6.44 Heb unrhyw ymyraethau newydd sylweddol, neu heb gynnydd naturiol yn y niferoedd oed cynradd, mae modd dadlau felly fod digon o lefydd ar gael mewn adeiladau ysgol cynradd Cymraeg ar draws y ddinas i fodloni lefel y galw am addysg gynradd Gymraeg fel y mae ar hyn o bryd – efallai nad yw’r llefydd hynny ym mhob achos yn y mannau lle mae’r galw ar ei gryfaf – nac ychwaith lle gallai’r galw gynyddu efallai yn ystod oes y cynllun datblygu arfaethedig. Hynny yw, er bod lledaeniad addysg Gymraeg wedi gwella dros y blynyddoedd diweddar, mae’r mynediad anghydradd o’i gymharu ag addysg Saesneg (ysgolion a gynhelir ac ysgolion ffydd) yn rhywbeth sydd angen ei newid, nodwedd sy’n cael ei chydnabod gan Adran Addysg y Sir.[38] Yr her yn y blynyddoedd nesaf felly, o ystyried y tir a gollwyd i raddau helaeth, yn sicr o ran niferoedd gyda’r cwymp mewn genedigaethau, fydd canfod y syniadau gorau - ac ym mha rannau o’r ddinas - i gynyddu niferoedd y dosbarthiadau derbyn Cymraeg y tu hwnt i’r hyn sydd wedi ei nodi eisoes yn y Cynllun Datblygu presennol.

Gyda Chynllun Datblygu Lleol newydd yn yr arfaeth, mae hwn hefyd yn gyfle i ailystyried y CSCA gwreiddiol - a’i addasu’n briodol yn unol â’r cynllun datblygu terfynol sydd i’w fabwysiadu yn 2026 a chyda golwg ar waelodlin data newydd mwy cyfredol hefyd o ran newidiadau demograffig diweddar a’r wybodaeth ddiweddaraf am niferoedd derbyn.

[38] Strategaeth Buddsoddi Addysg

**Ystyriaeth:** Rhaid cofio y bydd creu a llenwi mwy o ddarpariaeth Gymraeg newydd yn annorfod yn dylanwadu am gyfnod ar y ddarpariaeth Gymraeg agosaf drwy 'ddadleoli' posib yn achos rhai disgyblion - ynghyd â chael effaith ar y niferoedd a chodi cwestiynau ynghylch hyfywedd llefydd ysgol mewn mannau eraill – gan gynnwys y sector Saesneg a ffydd – sef pa mor effeithlon a chynaliadwy ydyn nhw fel sefydliadau.

Mae hyn hefyd yn tanlinellu problem pellter y ddarpariaeth Gymraeg o'i gymharu â'r ddarpariaeth Saesneg wrth i rieni bwyso a mesur manteision ac anfanteision eu dewisiadau addysg dros eu plant - ac felly'r lleoedd derbyn mwyaf cyfleus i'w cyrchu o ran eu sefyllfaoedd personol nhw eu hunain. Yma, mae diffyg agosrwydd - a chyfleuster teithio i'r darpariaethau Cymraeg presennol o'i gymharu â'r sector Saesneg yn gweithredu fel rhwystr ymarferol - i rai o leiaf - rhag dewis addysg Gymraeg. Mae angen ceisio sicrhau cynnig mwy cydradd hefyd i negyddu'r pellter teithio sydd rhwng dewis addysg Gymraeg ac addysg Saesneg a gaiff ei adlewyrchu i ryw raddau yn y niferoedd oriog sy'n pontio o'r sector cynradd Cymraeg i'r sector uwchradd Cymraeg (gweler 7.1 isod).


**********

## 7. Addysg Uwchradd

7.1 **Heriau'r Sector Uwchradd**

Her benodol sy'n wynebu'r sector uwchradd yn fwy diweddar yn enwedig ers Covid yw ceisio sicrhau cyfraddau pontio uwch o'r cynradd i'r uwchradd - a chyfraddau cadw yn y sector uwchradd wedi hynny ymlaen i addysg bellach ac uwch. Mae is-grŵp penodol o Fforwm Caerdydd Ddwyieithog wedi dechrau edrych ar y gwaith hwn er mwyn cefnogi gwaith y CSCA. Yn syml, ar draws y sector Cymraeg mae'r dair ysgol uwchradd yn y ddinas bellach yn colli hyd at 70-80 o ddisgyblion y flwyddyn a allai fod yn pontio draw o'r cynradd i'r sector uwchradd Cymraeg.

7.2 Pe byddai 100% o'r garfan gynradd Gymraeg a oedd ym Mlwyddyn 2 yn y ddinas yn 2019 wedi pontio i'r sector uwchradd y llynedd, rhwng y dair ysgol uwchradd byddai 717 o ddisgyblion wedi dechrau yn y sector uwchradd Cymraeg ym mis Medi 2024. Yn lle hynny dim ond 641 a gofrestrodd; golyga hynny dros gyfnod o 5 mlynedd bod 76 wedi 'diflannu' o'r sector. Bydd rhai wedi symud allan o'r sir, ond efallai lai o'r un oed â nhw wedi symud i mewn yn eu lle i'r sector Gymraeg. Bydd eraill wedi gadael y sector am resymau yn ymwneud ag addysg fwy arbenigol efallai, hwyrach mewn darpariaeth Saesneg arall yn y sir neu ymhellach, ac eraill yn syml yn dewis addysg brif ffrwd Saesneg uwchradd dros addysg Gymraeg – boed hynny oherwydd rhesymau yn ymwneud â dewis pynciau, dilyniant pwnc i addysg uwch neu bellach, cyfleustra'r ddarpariaeth neu newidiadau i drefniadau teithio ac ati. Mae'n bosib bod sgil effeithiau anuniongyrchol wedi Covid hefyd yn ffactor o ran ymddygiadau, lefelau hyder disgyblion hefyd. Mae'r is-grŵp yn gweithio i geisio deall yn well pam y cynnydd penodol hwn ers 2019 a'r hyn ellir ei wneud i'w wyrdroi.



*Ffig 18: Carfan bontio 100%, Niferoedd gwirioneddol a Chapasiti uwchradd Cymraeg 2020-24*

7.3 Wedi dweud hynny, pe byddai'r garfan lawn o 2019 *wedi* pontio, byddai'n rhaid bod wedi creu mwy o leoedd uwchradd Cymraeg yn y ddinas, o leiaf dros dro fel sydd yn debygol beth bynnag, yn y tymor byr o leiaf. Ond chwydd sylfaenol dros dro mewn niferoedd yw hyn a bydd niferoedd naturiol y carfannau cynradd sy'n pontio draw i'r uwchradd yn lleihau ychydig mewn blwyddyn neu ddwy.

7.4 Gellir ychwanegu i'r darlun hwn batrwm mwy cyffredinol y sir sydd yn hanesyddol wedi gweld disgyblion cynradd, yn enwedig yn ne'r ddinas, yn dewis mynd i addysg uwchradd ym Mro Morgannwg, mewn ysgolion Saesneg cyfagos fel Sant Cyres a Stanwell ym Mhenarth, ond ceir esiamplau tebyg hefyd yn y gorllewin, y gogledd a'r dwyrain o gyrchu darpariaeth amgen i'r hyn sydd ar gael yn y sir.

7.5 Ac yn yr un modd bydd rhai disgyblion cynradd mewn siroedd cyfagos yn cofrestru am leoedd uwchradd yn y ddinas yn hytrach nag o fewn eu siroedd eu hunain. Mae'r symud trawsffiniol hwn hefyd efallai yn haeddu mwy o sylw yn y cyd-destun addysg Gymraeg o ystyried y niferoedd net er enghraifft sy'n symud i'r Fro (gweler 4.48 uchod – lle nodir bod llif net o -26 o siaradwyr Cymraeg 3-15 oed wedi gadael Caerdydd am y Fro rhwng Mawrth 2020 a Mawrth 2021).

7.6 Nid yw hynny fodd bynnag wedi atal y galw diweddar am agor ysgol uwchradd Gymraeg newydd yn ne'r ddinas. Yn ymarferol, i hynny allu digwydd fodd bynnag, mae angen sicrhau mwy o ddosbarthiadau mynediad yn ne'r brifddinas yn anad unlle arall, a fyddai'n gallu bwydo ysgol uwchradd o faint dichonadwy yn y de, heb beryglu hyfywedd y dair ysgol uwchradd bresennol.

7.7 Bydd hynny mae'n debyg yn rhan o'r ystyriaeth ar gyfer ail hanner cyfnod y CDLlN pan fydd angen dwyn cynigion ger bron i gynyddu'r ddarpariaeth uwchradd Gymraeg yn barhaol yn y ddinas ar sail niferoedd uwchradd cyffredinol uwch yn deillio'n bennaf o gwblhau'r tai ar y datblygiadau mawr yn y gogledd-ddwyrain a'r gogledd-orllewin, ynghyd â datblygu mwy o ysgolion cynradd ar gyfer y boblogaeth honno, ond hefyd unrhyw dwf naturiol neu ddemograffig posib arall.

7.8 Ond mae'r amser rhwng nawr a hynny hefyd yn cynnig cyfle i edrych ar gyfleoedd posib i gydweithio ar gynllunio ar y cyd ag awdurdodau cymdogol sydd ag aneddiadau sy'n ffinio â rhannau deheuol y ddinas, rhag ofn bod datrysiad mwy effeithlon a chyflymach yn bosib i'r cyfeiriad hwnnw. Mae hyn wedi digwydd mewn siroedd eraill o ran addysg Gymraeg ac wedi digwydd yng Nghaerdydd hefyd yn y gorffennol.

7.9 Yn yr un modd mae'r drafodaeth am greu system dderbyn gyffredinol wedi ei chydlynu ar draws y siroedd sy'n ffinio â'r ddinas yn drafodaeth sy'n mynd rhagddi beth bynnag – er mwyn i ysgolion gael gwell data i ragfynegi niferoedd pontio o fewn eu siroedd yn fwy cywir – hyn oherwydd bod croesi ffiniau daearyddol yn rhywbeth sy'n digwydd yn y sector cynradd ac uwchradd ac yn y ddwy iaith. Mae hynny'n awgrymu hefyd efallai y byddai gwerth edrych ar ddatrysiadau i gynyddu capasiti'r sector uwchradd Cymraeg yn y tymor byr o leiaf, drwy gydweithio gyda chymdogion agosaf y sir os nad yw'r niferoedd o fewn un sir ar ei phen ei hun yn cyfiawnhau agor ysgol uwchradd newydd.

7.10 Y cyfle arall amlwg sydd ar gael i dyfu'r sector addysg Gymraeg yw edrych i symud ysgolion cynradd Saesneg presennol, yn ne'r ddinas yn enwedig, ar hyd y continwwm ieithyddol fel y gallant fwydo sector uwchradd Cymraeg mwy o faint yn y dyfodol. Ond gallai'r twf hwn ddigwydd yn unrhyw ran o'r ddinas lle mae'r cyfleoedd hynny ar gael ac yn edrych fwyaf addawol a bwrw bod yna ysgolion yn y sector Saesneg sydd yn dymuno mynd ar hyd y daith addysg honno.

7.11 Cydnabyddir yn gyffredinol y bydd effaith unrhyw lwyddiant yn y sector Saesneg cynradd ac uwchradd i greu siaradwyr Cymraeg hyderus yn allweddol i wireddu Strategaeth Cymraeg 2050 mewn ardaloedd fel Caerdydd a de-ddwyrain y wlad. Bydd rhaglenni fel y Siarter Iaith yn chwarae rhan gychwynnol yn hynny mae'n sicr ynghyd â phosibiliadau'r Cwricwlwm i Gymru newydd. A daw mwy o eglurdeb hefyd yn sgil y drefn ail-gategoreiddio ysgolion gan Lywodraeth Cymru ar y naill law ac yn allweddol - sut neu os - a pha ysgolion cyfrwng Saesneg yng Nghaerdydd a fydd am ddewis symud ar y continwwm ieithyddol dros y blynyddoedd nesaf? Tybed a fydd yna ysgol Saesneg yn awyddus i weld datblygu ffrwd iaith ddeuol newydd efallai ar batrwm tebyg i'r arloesi yn Ysgol Groes-wen?

7.12 Yn yr un modd gall yr angen i gyfuno a/neu ffedereiddio clystyrau o ysgolion greu cysylltiadau a phartneriaethau newydd rhwng ysgolion yn y sector Cymraeg a'r sector Saesneg sydd wedi eu lleoli o fewn yr un cymunedau. Gallai hyn hefyd fod yn ffactor dylanwadol i gynyddu'r niferoedd disgyblion cynradd sy'n gallu cyrchu addysg uwchradd Gymraeg o'r sector Saesneg - o gael y gefnogaeth drochi ddigonol addas i wneud y cam hwnnw yn ymarferol bosib. Unwaith eto mae sicrhau digon o gefnogaeth i dyfu'r ddarpariaeth drochi yn sylweddol yn allweddol i hwyluso twf yn y sector Gymraeg ac efallai o gyfeiriad y sector Saesneg presennol maes o law.

7.13 Byddai hyn yn y pen draw yn gofyn efallai am ad-drefnu'r ddarpariaeth uwchradd – gan gynnwys edrych ar ddosbarthiad a lleoliad y safleoedd uwchradd Cymraeg presennol o bosib ac unrhyw safleoedd newydd arfaethedig – ac a oes modd llunio trefniant a dosbarthiad lleoedd daearyddol uwchradd gwell yn yr hirdymor tuag at ddiwedd cyfnod y CDLlN? Wrth ystyried posibiliadau a dichonolrwydd unrhyw ad-drefnu ac unrhyw ddarpariaeth newydd yn y blynyddoedd nesaf, byddai'n ddoeth ystyried yr elfen drawsffiniol hefyd.

**********


# 8. Hyrwyddo

## 8.1 **Menter Beilot Ysgolion Cynradd**

Sefydlwyd is-grŵp Fforwm Caerdydd Ddwyieithog ym mis Hydref 2023 yn benodol i gefnogi 3 ysgol gynradd Gymraeg yng Nghaerdydd a oedd wedi gweld llai o niferoedd yn dod i'w dosbarthiadau Derbyn yn y blynyddoedd diweddar. Mae'n cynnwys cynrychiolwyr o Gaerdydd Ddwyieithog, Tîm CSCA y Cyngor, Pencampwr Addysg Gymraeg y De-ddwyrain, Dechrau'n Deg, Mudiad Meithrin, Addewid Caerdydd, Menter Caerdydd a'r tair ysgol gynradd eu hunain.


8.2 Pwrpas yr is-grŵp yw adnabod a chyflwyno camau gweithredu a mentrau i gefnogi'r ysgolion dan sylw a hyrwyddo addysg Gymraeg o fewn eu dalgylchoedd. Mae hyn yn cynnwys cefnogi darpariaeth feithrin, diwrnodau agored i rieni, a digwyddiadau hyrwyddo a chafwyd adborth cadarnhaol gan yr ysgolion hyd yma. Mae'r gwaith gyda'r tair ysgol gynradd yn gynllun peilot a bydd y modelau hyrwyddo a ddatblygir os yn llwyddo yn cael eu cyflwyno i ysgolion eraill yn y dyfodol.

8.3 Mae'r rhesymau dros niferoedd isel yn gallu amrywio o flwyddyn i flwyddyn ond os yw'r niferoedd yn isel dros sawl blwyddyn, yna mae hynny'n awgrymu rhyw ddiffyg sydd efallai â gwreiddiau dyfnach mwy cymhleth.  Er enghraifft, os edrychwn ni ar leoliadau ysgolion cynradd Cymraeg y ddinas (Ffig 19 isod), dim ond un (Ysgol Hamadryad y mwyaf deheuol yn y Bae) sydd yn amlwg o fewn ardal Dechrau'n Deg (sef yr ardaloedd glas, gwyrdd a choch o amddifadedd cymdeithasol yn Ffig 19 isod a lle ceir darpariaeth gofal cyn-ysgol penodol wedi ei dargedu gan Lywodraeth Cymru a'i weinyddu gan y Cyngor), er bod un neu ddwy ysgol gynradd Gymraeg arall hefyd yn ffinio â'r ardaloedd hyn.




*Ffigwr 19: Darpariaeth Dechrau'n Deg a phatrwm ysgolion cynradd Cymraeg*

8.4 Wrth edrych ar yr un ardaloedd Dechrau'n Deg a'r ddarpariaeth gynradd Saesneg sydd ger llaw (Ffig 20), gwelir bod dewis llawer mwy naturiol i rieni'r cymdogaethau Dechrau'n Deg o blith ysgolion sydd ar garreg y drws a lle bydd dilyniant i'r sector Saesneg yn gwneud synnwyr o ran ymarferoldeb a chyfleustra. Er bod Dechrau'n Deg yn cynnig darpariaeth Gymraeg yn yr ardaloedd hyn, yn eu hanfod o ran dilyniant, maent ymhellach o'r ddarpariaeth gynradd Gymraeg bresennol na'r ddarpariaeth Saesneg.




*Ffigwr 20: Darpariaeth Dechrau'n Deg a phatrwm ysgolion cynradd Saesneg*

**Ystyriaeth:** Er bod lleoedd Dechrau'n Deg Cymraeg yn cael eu cynnig, mae canran gweddol uchel o'r llefydd yn wag. Mae'n bosib bod mwy o resymau o dan yr wyneb na diffyg agosrwydd cymharol unrhyw ddarpariaeth gynradd a chwymp cyffredinol mewn genedigaethau.


Er bod hi'n ddigon teg holi cwestiynau ynghylch pa mor gydradd yw'r cyfleoedd addysg Gymraeg cynradd yn yr ardaloedd Dechrau'n Deg, rhaid holi hefyd ynghylch y canfyddiad sydd am addysg Gymraeg ac union natur y berthynas rhwng amddifadedd cymdeithasol ar y naill law ac apêl y ddarpariaeth addysg Gymraeg i rai carfannau penodol yng nghymunedau'r ddinas.

A oes canfyddiad nad yw addysg Gymraeg yn berthnasol, neu'n bwysig? I ba raddau mae patrymau a dylanwad cenedlaethau teuluol yn dylanwadu'n gryfach wrth lywio unrhyw ddewisiadau ynghylch addysg gynradd?

8.5 Serch hynny, un o’r prif heriau amlwg i’w hateb wrth symud ymlaen yw gallu dod dros rwystr cyfleustra ac agosrwydd cymharol y ddarpariaeth sydd agosaf i ‘garreg y drws’ yng nghymunedau’r ddinas o’i gymharu â’r ddarpariaeth Gymraeg – sy’n fwy fyth o broblem mewn cymdogaethau tlotach - yn aml yn arc ddeheuol y ddinas, lle mae llai o berchnogaeth ar geir preifat, llai o dalu am ofal plant cyn oed ysgol, llai o gefnogaeth deuluol efallai a mwy o ddibyniaeth ar orfod cerdded neu ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus i symud ar hyd y lle a’r costau – yn ariannol ac o ran amser - sydd ynghlwm â hynny.


8.6 Er bod y prosiect peilot penodol dan ymbarél y Fforwm yn edrych ar ddiffyg niferoedd mewn ambell ysgol gynradd Gymraeg, ochr arall y geiniog yw, os bydd ysgol gynradd (neu uwchradd) yn llwyddo ac yn llawn neu wedi ei gordanysgrifio, gall yr ysgol ddalgylch agosaf nesaf Gymraeg (yn ôl llwybrau cerdded diogel) *sydd â lle gwag* fod cryn bellter teithio o’r cartref teuluol. Mae hyn yn arbennig o wir yn y sector uwchradd lle mae llai o lefydd gwag yn gyffredinol, a allai ei gwneud yn anneniadol i’r rhiant neu’r disgybl ddewis yr ysgol amgen honno fel ail ddewis yn wyneb y ffaith bod sawl ysgol Saesneg gymaint nes.

8.7 Mae’r map isod (Ffigwr 21) er ychydig yn gymhleth yn dangos lleoliad y 18 ysgol gynradd Gymraeg a’r 3 uwchradd Gymraeg yng Nghaerdydd, ynghyd â ffiniau y dalgylchoedd uwchradd (ffiniau gwyrdd) ac wedyn o fewn y rheiny, ffiniau’r clystyrau cynradd (ffiniau coch) sydd o fewn y dalgylch uwchradd. Felly o gymryd Hamadryad fel esiampl, fe welir ei bod hi yng nghlwstwr ffiniau Ysgol Glantaf a’r ysgolion cynradd agosaf iddi hi yn ôl pellter cerdded diogel yw Ysgol Pwll Coch (sydd hefyd yng nghlwstwr ffiniau Glantaf) ac Ysgol Glan Morfa (ond sydd yn nghlwstwr Ysgol Gyfun Bro Edern). Yr ysgol gynradd agosaf nesaf wedyn i Hamadryad yw Treganna, ond mae honno yng nghlwstwr ffiniau Ysgol Gyfun Plasmawr. (Mae’r dewisiadau i rieni yn fwy cymhleth na hyn oherwydd nid lleoliad ysgol gynradd eu plentyn yw’r ffactor allweddol wrth bennu ysgol uwchradd disgybl, ond yn hytrach, yn y lle cyntaf, gyfeiriad cartref y disgybl).




*Ffigwr 21: Dalgylchoedd ysgolion cynradd ac uwchradd Cymraeg Caerdydd 2023*

8.8 Mewn cyferbyniad â hyn, wrth ystyried dosbarthiad a niferoedd yr ysgolion Saesneg agosaf a welir ar y map isod (Ffigwr 22), os yw'r ysgol agosaf yn llawn gwelir fod dewis o fwy nag un ysgol gynradd Saesneg arall gerllaw - sydd hefyd yn yr un dalgylch uwchradd - felly mae mwy o gysondeb amlwg a dilyniant i garfannau a dosbarthiadau gyd-symud ymlaen i'r un ddarpariaeth uwchradd gyda'i gilydd. Felly wrth edrych ar ysgol Mount Stuart yn y Bae, sef yr ysgol Saesneg agosaf i Hamadryad, pe byddai Mount Stuart yn llawn byddai dewis o saith neu wyth ysgol gynradd Saesneg arall yn nes i Mount Stuart na'r ysgolion Cymraeg agosaf i Hamadryad (sef Pwll Coch a Glan Morfa) a byddai'r rhan fwyaf yn yr achos hwn yn syrthio i ddalgylch Ysgol Uwchradd Fitzalan. Bydd eithriadau yn anorfod yn y sector Saesneg hefyd, ond bydd y tebygolrwydd gymaint yn llai a'r pellterau teithio dyddiol hefyd yn fyrrach.




Ffigwr 22: Dalgylchoedd ysgolion cynradd ac uwchradd Saesneg Caerdydd 2023

8.9 Dylid nodi hefyd nad yw llwyddiant dosbarth neu gylch meithrin mewn ardal ynddo'i hun yn warant o niferoedd yn trosglwyddo i'r ysgol gynradd Gymraeg leol, fel y nodwyd yn 5.4 uchod, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod canran sylweddol yn cael eu colli i addysg Gymraeg ar y pwynt yma. Gall unrhyw ysgol fod yn wynebu heriau penodol - un ai o ran gordanysgrifio ar y naill law (ac felly'n gorfod gwrthod nifer o ddisgyblion sy'n byw yn y dalgylch) neu ddiffyg niferoedd derbyn digonol ar y llaw arall - gyda'r heriau cyllidebol sydd ynghlwm â hynny. Felly mae gofyn edrych ar amgylchiadau unigryw *pob ysgol ac ardal unigol* i ddeall beth yw'r darlun a'r duedd mewn cymdogaeth benodol yn y ddinas.

8.10 Dylid nodi hefyd nad yw'r amcanestyniadau ynghylch niferoedd disgwyliedig yn y sector cynradd Cymraeg dros y blynyddoedd nesaf yn ystyried unrhyw gamau penodol a nodir uchod i hyrwyddo'r ddarpariaeth yn y ddinas na llwyddiant unrhyw gamau o'r fath. Yn yr un modd nid yw amcanestyniadau ynghylch niferoedd yn y sector Gymraeg yn ystyried llwyddiant y ddarpariaeth drochi arbenigol i gynyddu niferoedd sy'n mynd drwy'r system honno dros gyfnod o amser – ac felly'n creu siaradwyr Cymraeg cynradd ac uwchradd newydd.

8.11 **Darpariaeth drochi i greu siaradwyr Cymraeg**

Mae gan Gaerdydd uned droch lwyddiannus ers sawl blwyddyn bellach sydd wedi tyfu'n raddol ers ei sefydlu - Home | Uned Drochi Iaith Caerdydd. Bydd yr uned yn cefnogi disgyblion sydd am drosglwyddo o'r sector Saesneg i'r sector Gymraeg neu a fydd hefyd yn cefnogi disgyblion sydd angen cefnogaeth benodol sydd eisoes yn y sector Gymraeg. Mae Tabl N isod yn nodi'r cynnydd hwnnw o 8 disgybl yn 2010/11 i gefnogi 48 o ddisgyblion yn 2022/23. *Ond rhaid cofio nad yw'r niferoedd a nodir yma yn ychwanegiadau o'r tu allan i'r niferoedd disgyblion Cymraeg yn y tablau CYBLD uchod gan eu bod eisoes wedi eu cyfrif yn niferoedd disgyblion eu hysgol 'gartref' (yr ysgol lle maent wedi cofrestru ynddi).

| Blwyddyn Academaidd / Academic Year | Cyfnod Sylfaen / Foundation Phase | Cyfnod Allweddol 2 / Key Stage 2 | Cyfnod Allweddol 3 / Key Stage 3 | Cyfanswm / Total | Wedi trosglwyddo'n barhaol / Permanently transferred |
|---|---|---|---|---|---|
| 2010 - 2011 | 6 | 2 | 0 | **8** | **8** (100%) |
| 2011 - 2012 | 13 | 3 | 0 | **16** | **15** (94%) |
| 2012 - 2013 | 17 | 5 | 1 | **23** | **23** (100%) |
| 2013 - 2014 | 14 | 4 | 3 | **21** | **21** (100%) |
| 2014 -2015 | 11 | 10 | 1 | **22** | **22** (100%) |
| 2015 - 2016 | 11 | 12 | 1 | **24** | **21** (88%) |
| 2016 - 2017 | 16 | 13 | 6 | **35** | **31** (89%) |
| 2017 - 2018 | 16 | 11 | 4 | **31** | **30** (97%) |
| 2018 - 2019 | 17 | 7 | 11 | **35** | **31** (89%) |
| 2019 - 2020 | 9 | 12 | 26 | **47** | **39** (83%) |
| 2020 - 2021 | 12 | 17 | 17 | **46** | **39** (85%) |
| 2021 - 2022 | 17 | 14 | 6 | **37** | **37** (100%) |
| 2022 - 2023 | 17 | 19 | 12 | **48** | **43** (90%) |
| Cyfanswm/ Total | 176 | 129 | 87 | **392** | **360** (91%) |
| 2023-24 | 12 | 13 | 20 | **45** | |
| Cyfanswm/ Total | 188 | 142 | 107 | **437** | |

*Tabl N: Niferoedd disgyblion Uned Drochi Iaith Caerdydd 2010/11-2023/4*

8.12 **Cymraeg i Bawb** – Partneriaeth Ranbarthol Addysg Gymraeg y De-ddwyrain

Mae hwn yn brosiect sy'n bartneriaeth hyrwyddo addysg Gymraeg rhwng y 10 o awdurdodau lleol ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd a'r 8 Menter Iaith perthnasol yn y rhanbarth. Ariennir prosiect peilot Cymraeg i Bawb | Cymraeg i Bawb gan Lywodraeth Cymru ac mae'n gynllun sydd yn tynnu at ddiwedd ei ail flwyddyn. Mae'r Bartneriaeth wedi penodi Pencampwr Hybu a Hyrwyddo Addysg Gymraeg sy'n gweithio gyda swyddogion iaith a swyddogion CSCA/Addysg awdurdodau lleol a'r Mentrau Iaith i ddatblygu a chynnal rhwydweithiau ar draws Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ac i gomisiynu prosiectau ac adnoddau pwrpasol i'w rhannu. Mae'r ffocws ar gynyddu hygyrchedd darpariaeth Gymraeg a'i hyrwyddo i rieni a chymunedau newydd.

8.13 Yn ystod 2023-24 mae'r prosiectau a gefnogir gan bartneriaeth Cymraeg i Bawb hyd yma wedi cynnwys:

- Mapio darpariaeth addysg Gymraeg ar draws rhanbarth y De-ddwyrain.
- Asesiad o dargedau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yr Awdurdodau Lleol.

• Datblygu fideos i hyrwyddo addysg Gymraeg i gymunedau Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol.

• Datblygu fideos i hyrwyddo darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymraeg.

• Datblygu cynllun ymgysylltu a marchnata addysg Gymraeg ar gyfer Awdurdodau Lleol

• Darparu baneri dwyieithog i hyrwyddo addysg Gymraeg ar gyfer pob ysgol gynradd Gymraeg ar draws rhanbarth y de-ddwyrain.

• Lansio gwefan Cymraeg i Bawb | Cymraeg i Bawb lle gellir canfod yr holl wybodaeth am addysg Gymraeg sy'n berthnasol i'r rhanbarth gyfan.

• Cynnal cynhadledd ranbarthol i randdeiliaid i ddangos arfer gorau wrth hyrwyddo addysg Gymraeg.

Fel cynlluniau CSCA ffurfiol yr awdurdodau lleol yn y rhanbarth, mae'r cynllun peilot hwn hefyd yn destun adolygiad blynyddol. Os caiff ei ystyried fel datblygiad sy'n llwyddo mae'n bosib y caiff y model ei ehangu i'w ddefnyddio mewn rhannau eraill o Gymru yn y dyfodol agos a fydd yn gallu manteisio ar y gwaith braenaru a wnaed eisoes.

8.14 **Ein Dinas Ein Hiaith** - Datblygiad diweddar arall yw lansio'r wefan Ein Dinas Ein Hiaith | Our City Our Language ar 1 Mawrth 2024. Mae'n gydweithrediad rhwng Timau Caerdydd Ddwyieithog a Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor. Mae'r wefan, i ddechrau o leiaf, yn cyflwyno gwybodaeth am addysg a diwylliant Cymraeg ar draws y ddinas a'i nod yw darparu "siop un stop" i gael gafael ar yr holl weithgareddau a chyfleoedd Cymraeg a gaiff eu cynnig yng Nghaerdydd. Mae'r wefan yn cynnig adrannau penodol yn seiliedig ar grŵp oedran:

• 0 - 3 oed: Clybiau babanod Cymraeg, gweithgareddau i blant bach, a grwpiau rhieni a babanod.
• 3 - 11 oed: Addysg gynradd Gymraeg a gweithgareddau Cymraeg y tu allan i'r ysgol.
• 11 - 16 oed: Addysg uwchradd Gymraeg a gweithgareddau Cymraeg y tu allan i'r ysgol.
• Ôl-16: Chweched dosbarth cyfrwng Cymraeg, colegau trydyddol a gweithgareddau Cymraeg.
• Myfyrwyr: Cyrsiau prifysgol cyfrwng Cymraeg yng Nghaerdydd a gweithgareddau Cymraeg.
• Oedolion: Cyfleoedd i oedolion ddysgu Cymraeg, digwyddiadau diwylliannol a chymdeithasol, a siopau a gwasanaethau Cymraeg.

Y nod yw tyfu'r cynnwys ar y wefan ynghyd â'i ddefnyddioldeb ymarferol dros y blynyddoedd nesaf.

**********

## 9. Ôl-16 / Colegau

9.1 Mae myfyrwyr Cymraeg yng Nghaerdydd yn gyfraniad pwysig i hyfywedd diwylliannol yr iaith yn y ddinas – yn ogystal â bod yn ddarpar weithlu Cymraeg i'r dyfodol.
Dros y degawdau diweddar mae'r brifddinas wedi cadarnhau ei henw fel canolfan i addysg bellach ac uwch ac mae hynny wedi ei adlewyrchu yn y niferoedd myfyrwyr Cymraeg sydd yn y ddinas.

9.2 Mae gan Brifysgol Caerdydd Undeb Myfyrwyr Cymraeg Undeb Myfyrwyr Cymraeg Caerdydd ac hefyd glwb cymdeithasol Y Gym Gym, sy'n rhoi ffocws i weithgareddau Cymraeg allgyrsiol myfyrwyr y coleg.

Y llynedd agorodd y coleg ganolfan **Y Lle** – gyda'r nod o gynnig gofod pwrpasol i feithrin y Gymraeg ymhlith staff a myfyrwyr. Yma ceir cyfleoedd i ryngweithio'n Gymraeg a lle cynhelir gwersi dysgu Cymraeg ac yma hefyd mae cartref yr Academi a Changen Caerdydd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Mae'r Brifysgol yng Nghaerdydd hefyd drwy'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol ers tair blynedd yn darparu modiwl *Dinesydd Caerdydd* gwerth 5 credyd i bob myfyriwr blwyddyn gyntaf sy'n siarad Cymraeg - gyda chynlluniau i ddwysáu'r ddarpariaeth i fyfyrwyr blwyddyn 2 a 3 gyda modiwl 20 credyd yn y dyfodol.

Mae proffil siaradwyr y Brifysgol fel a ganlyn yn Nhabl O:

| **Gallu Cymraeg** | **%** | **Nifer** |
|---|---|---|
| Siarad Cymraeg | 13.06 | 2,560 |
| Rhugl | 15.82 | 3,100 |
| Gallu siarad cryn dipyn | 7.98 | 1,564 |
| Siarad ychydig | 1.71 | 335 |
| Ychydig eiriau yn unig | 3.97 | 975 |
| Deall Cymraeg llafar | 1.16 | 230 |
| Ysgrifennu Cymraeg | 14.09 | 2,760 |
| Dim un o'r uchod | 12.09 | 2,370 |
| Dim gwybodaeth ar gael | 29.11 | 5,705 |

*Tabl O: Data gallu Cymraeg Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd 2022-23*

9.3 Yn yr un modd â'r Brifysgol mae gan Met Caerdydd ffocws cyffelyb drwy gyfrwng Uned Gymraeg y brifysgol - Yr Uned Gymraeg Hawliau Myfyrwyr a Myfyrwyr Cymraeg ac yn gymdeithasol mae'r myfyrwyr yn cydweithredu'n agos a *Gym Gym* Prifysgol Caerdydd.

Mae niferoedd a chanran siaradwyr Cymraeg y Met hefyd wedi gweld cynnydd yn y blynyddoedd diweddar:

| Siaradwyr Cymraeg Met Caerdydd : Myfyrwyr 2022 > 2024 | | | |
|---|---|---|---|
| **Blwyddyn** | **Rhugl** | **Siarad Cymraeg ond heb fod yn rhugl** | **% siaradwyr rhugl sy'n astudio'n Gymraeg** |
| 2024/25 | 908 | 576 | 38 |
| 2023/24 | 835 | 555 | 36 |
| 2022/23 | 841 | 898 | 35 |

*Tabl P: Data Siaradwyr Cymraeg Myfyrwyr Met Caerdydd 2025*

9.4 Dim ond un o dri champws Prifysgol De Cymru sydd yng Nghaerdydd, felly mae eu niferoedd myfyrwyr Cymraeg nhw yn y ddinas yn sylweddol is na'r ddwy brifysgol gyntaf a nodir. Ond mae darpariaeth ar gael i fyfyrwyr Cymraeg- Cymraeg yn y Brifysgol | University of South Wales a chefnogaeth i fyfyrwyr sydd awydd dysgu'r iaith Dysgu Cymraeg yn PDC | University of South Wales.

9.5 Mae Coleg Caerdydd a'r Fro ychydig yn wahanol i'r prifysgolion gan d darparu ar gyfer pobl ifanc 16-18 yn bennaf sydd am ddilyn cyrsiau Safon Uwch neu alwedigaethol, ond hefyd pobl ifanc 14-16 oed sydd am ddechrau ar brentisiaethau. Mae'n un o sefydliadau addysgol mwyaf gwledydd Prydain o'i fath gyda dros 30,000 o ddysgwyr a dros 1,000 o staff. Un o amcanion y coleg yw cynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg i alluogi myfyrwyr i barhau â'u taith addysg Gymraeg ar ôl gadael addysg uwchradd Gymraeg yn 16 oed https://cavc.ac.uk/cy/cymraeg-sdb#Falch-o-fod-yn-Gymreig.

Yn ei adroddiad blynyddol 'Cydymffurfiaeth â'r Gymraeg' ar gyfer 22/23[39] mae'r coleg yn nodi fod 6455 o ddysgwyr ar draws pob maes cwricwlwm wedi astudio o leiaf un modiwl o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg/yn ddwyieithog ac ar ben hynny bod 2,539 o ddysgwyr ar draws 923 cwrs wedi nodi lefel gallu yn y Gymraeg gyda 1060 yn nodi eu bod yn rhugl. Ar draws pob maes (Iechyd a Gofal, Peirianneg ac ati) darparwyd 11,481 o weithgareddau Cymraeg/dwyieithog yn 2023/24. Yn y coleg hefyd mae clwb *Sŵn* i ddysgwyr a chlwb *Adlais* i staff – clybiau sy'n hyrwyddo gweithgareddau dwyieithog y tu fewn a thu allan i'r coleg, adnoddau dwyieithog, cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith ac ati.

9.6 Esiampl diweddar o'r sector ôl-16 a'r colegau yn y ddinas yn dod ynghyd i gydweithio gyda'r Cyngor lleol ac eraill oedd diwrnod Gyrfa Gymraeg ar 18 Mehefin 2024 pan ddaeth 750 o ddisgyblion Blwyddyn 12 o ddwsin o ysgolion uwchradd Cymraeg ar draws y de i Brifysgol Caerdydd yn Cathays i gael cyflwyniad gan brifysgolion Caerdydd i Addysg Uwch cyfrwng Cymraeg yn y bore ac yna yn y prynhawn i gael cyflwyniad i bosibiliadau gyrfa lle gallent ddefnyddio'u Cymraeg a hynny gyda chyflogwyr a rhanddeiliaid eraill. Roedd hynny'n dilyn digwyddiad gyrfaoedd tebyg yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro flwyddyn ynghynt.

Mae is-grŵp 'Cynyddu'r Niferoedd' hefyd wedi ei ffurfio'n ddiweddar dan faner Fforwm Caerdydd Ddwyieithog gyda'r nod o gynyddu'r niferoedd myfyrwyr sydd yn astudio'u pynciau yn Gymraeg. Mae'n amlwg felly bod y sector addysg bellach ac uwch yn dechrau symud yn y cyfeiriad iawn ond gan gofio bod trwch disgyblion y chweched dosbarth yng Nghaerdydd yn parhau i fynd i brifysgolion

[39] J21078 CAVC Annual Welsh Report 22-23_W_FINAL.pdf

dros y ffin, mae'n sicr yn her sy'n gofyn am gydweithio bwriadus a gofalus os am ddenu mwy o ddisgyblion cyfrwng Cymraeg i astudio yn y brifddinas yn y blynyddoedd nesaf..

**********

## 10. Caerdydd Gymdeithasol

10.1 **Cefndir:**
Yn hanesyddol, er bod cofnodion o dafarndai Cymraeg a chymdeithasau ac eisteddfodau amrywiol yng Nghaerdydd yn y G19, ynghyd a nifer o esiamplau o rai yn y ddalfa a thystion mewn llysoedd nad oedd yn gallu siarad Saesneg, mae'n debyg mai'r capeli Cymraeg fu prif gynheiliaid y bywyd cymdeithasol Cymraeg 'swyddogol' yng Nghaerdydd – swyddogol yn yr ystyr o gynnal digwyddiadau rheolaidd wythnosol wedi eu trefnu, boed rheiny'n gyfarfodydd crefyddol eu natur neu rai mwy diwylliannol. I roi syniad o arwyddocâd hyn, erbyn 1845, o'r 42 man addoli (capel ac eglwys) yng Nghaerdydd, roedd 30 yn achosion Cymraeg yn bennaf, 6 yn ddwyieithog a dim ond 6 yn achosion Saesneg, gydag ardal Butetown ymhlith y mwyaf Cymraeg yn y ddinas – 3 chapel ac eglwys uniaith Gymraeg.

10.2 Ond Saesneg oedd iaith bywyd cyhoeddus y ddinas yn gynyddol o ddiwedd y G19 ymlaen i'r ugeinfed – er bod gwerth nodi fod Cyngor Cymuned Pentyrch wedi parhau â chofnodion dwyieithog hyd at 60au'r ugeinfed ganrif, felly doedd y Gymraeg fyth ymhell o'r wyneb o fewn peuoedd swyddogol yr awdurdod lleol yn y brifddinas chwaith.

10.3 Yn ddiweddarach yn y ganrif ddiwethaf, yn ogystal â'r capeli Cymraeg – erbyn hynny ychydig yn llai niferus, byddai cyfarfodydd fel rhai'r Cymrodorion yn Nhŷ'r Cymry yn y Rhath hefyd wedi bod yn ryw fath o ganolbwynt diwylliannol a sifig Gymraeg ei hiaith i'r ddinas. Fodd bynnag dirywio wnaeth yr iaith yng Nghaerdydd erbyn canol yr ugeinfed ganrif, proses a gyflymodd yn enwedig wedi blynyddoedd y ddau Ryfel Byd.

10.4 Sefydlwyd Cymdeithas Cymrodorion Caerdydd yn wreiddiol ym 1885 yn nhafarn goffi Edward Thomas, Cochfarf i roi ei enw barddol iddo, ar Stryd y Tollty nid nepell o gefn siop John Lewis heddiw - gŵr a ddaeth wedyn yn faer ar y ddinas erbyn 1902. Ac yn lleoliad diweddarach y Gymdeithas, wedi i'r gymdeithas honno symud i'r Rhath, yr agorwyd ysgol Gymraeg ar y Sadyrnau yn y 1940au (y cyfeiriwyd ati mewn troednodyn i 6.1 uchod) - ac ychydig yn ddiweddarach, cartref y feithrinfa Gymraeg gyntaf yn y ddinas – cyn agor yr ysgol Gymraeg gyntaf sef Ysgol Gymraeg Caerdydd (Bryntaf wedyn), ar safle Ysgol Parc Ninian erbyn heddiw, yn Grangetown.

10.5 Canolfan ddiwylliannol bwysig arall yn ddiweddarach oedd Canolfan yr Urdd ar Conway Road ym Mhontcanna, cartref Aelwyd yr Urdd a lleoliad siop lyfrau Gymraeg *Taflen* am gyfnod. Ond bu'r Gymraeg yn meddiannu peuoedd eraill hefyd dros y degawdau, mewn siopau cynharach fel Siop y Triban yn Arcêd Wyndham yng nghanol y ddinas, siop Taflen yn ddiweddarach hefyd, tafarndai dethol fel y *New Ely*, yr *Halfway*, neu'r *Conway* yn y saithdegau, mewn cylchoedd cinio, canghennau Merched y Wawr, yn y gweithgaredd cymdeithasol ynghlwm ag ysgol gynradd Bryntaf, yn adrannau plant yr Urdd ac ati.

10.6 Ond gydag agor Ysgol Uwchradd Gymraeg gyntaf y ddinas ym 1978 yng Nglantaf, rhannu ysgol gynradd Bryntaf i bob pwrpas yn bedair ysgol gynradd ar wahân ddechrau'r 80au ac yna agor clwb cymdeithasol Clwb Ifor Bach Ar Heol Womanby ym 1983 - gyda'r disgyblion cyntaf yng Nglantaf yn troi'n 16 oed erbyn hynny - gwelwyd pennod newydd yn agor yn hanes cymdeithasol y Gymraeg

yng Nghaerdydd â'r Gymraeg yn meddiannu ei lle yng nghanol y ddinas a cherddoriaeth fyw Gymraeg i'w chlywed drwy'r drws a'r ffenestri ar Heol Womanby ar y penwythnosau.

10.7 **Caerdydd Heddiw:**

Erbyn heddiw, mae tirlun crefyddol y ddinas wedi newid bellach, ac er bod o leiaf 10 eglwys yn y ddinas yn parhau i gynnal gwasanaethau Cymraeg, mae'r ffocws i weithgaredd cymdeithasol a diwylliannol erbyn hyn yn fwy seciwlar ei natur. Efallai bod cael o leiaf 10 o gorau Cymraeg yn y ddinas heddiw yn nodweddu'r newid hwnnw, gyda'r diweddaraf i'w sefydlu, Taflais er enghraifft yn denu dros gant o ddarpar aelodau pan gafodd ei sefydlu yn 2023




10.8 Un o gonglfeini Cymraeg y ddinas ers degawdau hefyd yw papur bro *Y Dinesydd* http://dinesydd.cymru – papur bro hynaf Cymru a sefydlwyd ym 1973 ac sydd yn dal i fynd hyd heddiw. Sefydliad arall a ddaeth yn gonglfaen arall i fywyd Cymraeg y ddinas dros chwarter canrif yn ôl bellach yw mentercaerdydd.cymru.

Teg yw dweud bod bywyd Cymraeg Caerdydd wedi newid gêr ers sefydlu'r Fenter fel cwmni ac elusen Menter Caerdydd ym 1998 yng nghyfnod Bwrdd yr Iaith yn wreiddiol, cyn i'r arian grant hwnnw symud yn uniongyrchol i Lywodraeth Cymru pan ddaeth y Bwrdd i ben. Diben y Fenter yw *hybu a hwyluso ac ehangu'r defnydd o'r Gymraeg ar lefel gymunedol a chymdeithasol yn y brifddinas, gan sicrhau bod yr iaith yn dod yn rhan ganolog a gweledol o'i bywyd a bod pob dinesydd yn rhannu'r cyfrifoldeb am ei dyfodol a'i ffyniant*.

10.9 Mae Menter Caerdydd bellach yn ffocws i weithgaredd a gwasanaethau Cymraeg y brifddinas sy'n cynnwys clybiau chwarae a gofal i blant fel Bwrlwm ac Amser Stori, darpariaeth addysg a hamdden i oedolion, clybiau wythnosol i blant ac ieuenctid, gweithgareddau cymunedol, Gŵyl Tafwyl, Ffônlyfr o wasanaethau/busnesau Cymraeg, Calendr Caerdydd o ddigwyddiadau Cymraeg – oll yn hyrwyddo a chefnogi gweithgareddau a grymuso unigolion a chymunedau i ymgysylltu â'r iaith.

10.10 Yn 2022/23 cynhaliwyd 523 gweithgaredd gan y fenter gydag oddeutu 10,000 yn cyfranogi (Tabl R isod). O ran gweithgareddau oedolion cafwyd 158 gweithgaredd a 2,231 yn cyfranogi, gan gynnwys gweithgaredd ar-lein dros Zoom a fu'n arbrawf llwyddiannus yn ystod Covid ac sydd wedi parhau.

10.11 Ar gyfer ieuenctid, gwelwyd sefydlu clwb CFTi yn 2023 sef partneriaeth rhwng y Fenter, yr Urdd a Gwasanaeth Ieuenctid Cyngor Caerdydd dan anogaeth Caerdydd Ddwyieithog a chynhaliwyd 60 gweithgaredd gyda 2,678 yn cyfranogi yn ystod y flwyddyn gyntaf.[40]

10.12 Gwelodd TAFWYL – Gŵyl Gymraeg Caerdydd bron i 30,000 o bobl yn mynychu yn 2022 - yn y flwyddyn gyntaf wedi Covid i wylio 40 o fandiau yn chwarae'n fyw – gan ddod â gwerth economaidd o £1.5m i'r ddinas. Y llynedd ar gaeau Parc Bute (2024) roedd y niferoedd mynychwyr wedi tyfu ymhellach i 36,000

10.13 Mae'r ystadegau perfformiad isod ar gyfer Menter Caerdydd yn rhoi syniad pellach o rychwant y gweithgaredd mewn blwyddyn dan faner y sefydliad.

| **Allbynnau** | **Nifer** |
|---|---|
| Nifer o weithgareddau i blant | 366 |
| Nifer o blant yn mynychu | 8,459 |
| Nifer o weithgareddau i bobl ifanc (11-25 oed) | 182 |
| Nifer o bobl ifanc (11-25 oed) yn mynychu | 5,368 |
| Nifer o weithgareddau i deuluoedd | 236 |
| Nifer o oedolion a nifer o blant yn mynychu gweithgareddau i deuluoedd | Plant Oedolion<br>2,644 2,475 |
| Nifer o weithgareddau i oedolion | 202 |
| Nifer o oedolion yn mynychu | 3,180 |
| Tafwyl | 28,000 |
| Nifer o weithgareddau Ffrinj Tafwyl | 8 |
| Nifer o fynychwyr Ffrinj | 730 |
| Nifer o negeseuon/postiadau rydych wedi'u cyhoeddi | 1,263 |
| Nifer o weithgareddau byw ar-lein/hybrid | 8 |
| Nifer sydd wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau byw ar-lein | 337 |

*Tabl R: Gweithgaredd Menter Caerdydd 2023/24*

10.14 Adlewyrchir y gweithgaredd hwnnw ar-lein ac ar y llwyfannau cymdeithasol hefyd – sydd yn ymestyn cyrhaeddiad y Fenter a chyrhaeddiad Tafwyl y tu hwnt i ffiniau'r ddinas yn unig.

| | Mawrth 2023 | Medi 2023 | Mawrth 2024 | Dilynwyr newydd | Ymwneud â'r dudalen (Post engagement) | Nifer y postiadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Menter Caerdydd | | | | | | |
| Facebook | 5,215 | 5,336 | 5,400 | +121 | 75,700 | 536 |
| Trydar / X | 6,039 | 6,067 | 6,111 | +72 | 42,318 | 482 |
| Instagram | 2,299 | 2,406 | 2,520 | +107 | 5,430 | 245 |

*Tabl S: Cyfrifon Cymdeithasol Menter Caerdydd*

[40] cfticy | Twitter, Instagram, Facebook | Linktree

| | Mawrth 2023 | Gorffennaf 2023 | Dilynwyr newydd | Cyrhaeddiad |
|---|---|---|---|---|
| Tafwyl | | | | |
| Facebook | 7,723 | 8,800 | +1,077 | 45,102 |
| Trydar | 8,885 | 8,900 | +15 | |
| Instagram | 5,938 | 7,100 | +1,162 | 29,137 |

*Tabl T: Cyfrifon Cymdeithasol Tafwyl*

10.15 Yn 2024/5 bydd ffocws y Fenter ar grwpiau mewn ardaloedd sydd angen cefnogaeth i hyrwyddo manteision addysg Gymraeg a hynny'n ategol i'r ddarpariaeth gofal a chwarae ar gyfnod gwyliau ysgol – fel bod modd i blant o gartrefi di-Gymraeg yn yr ardaloedd hynny ymgysylltu â'r iaith y tu allan i'r ysgol a gallu chwarae yn yr iaith.

10.16 Nod arall yw ehangu'r ddarpariaeth gwaith ieuenctid mewn partneriaeth - o dan frand CFTi, gyda mwy o gyfleoedd allgyrsiol yn yr ysgol a thu allan i'r ysgol. Mae 19 sesiwn Gymraeg bellach yn cael eu cynnal yn wythnosol ar draws bron pob ysgol uwchradd Gymraeg a Saesneg a cholegau addysg bellach yng Nghaerdydd. Cynhelir y sesiynau hyn amser cinio, ar ôl ysgol neu gyda'r nos. Mae tîm o 8 gweithiwr ieuenctid bellach yn gweithio'n uniongyrchol i gefnogi darpariaeth ieuenctid Gymraeg yng Nghaerdydd ar gyfer pobl ifanc sy'n siarad Cymraeg fel mamiaith neu fel ail iaith. Hefyd mae mentoriaid i bobl ifanc wedi'u sefydlu yn ysgolion uwchradd Cymraeg Caerdydd i ddarparu cefnogaeth un i un i ddisgyblion.




10.17 Un o'r heriau yn y maes hwn yw sicrhau bod digon o gyfleoedd ar gael i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i oriau'r ysgol, mewn clybiau ar ôl ysgol ac mewn lleoliadau cymunedol.

Mae canoli digwyddiadau cymdeithasol mewn un lleoliad yn unig neu yn yr ysgol ei hun yn achos clybiau ar ôl ysgol yn golygu na fydd rhai disgyblion yn gallu, neu yn dewis cymryd rhan. Os yw clwb ar ôl ysgol yn gorffen rhwng 5-6pm mae'n gofyn llawer gan riant i deithio drwy draffig y ddinas (os oes car ganddynt o gwbl) i nôl disgybl, neu fel arall mae'n golygu bod disgybl efallai yn teithio ar ei ben ei hun ar fws neu'n beicio neu gerdded adref yn y tywyllwch yn ystod misoedd y gaeaf. I'r disgyblion sydd yn byw agosaf i'r ysgol, dyw hynny ddim yn gymaint o rwystr ond mae yn rhwystr i eraill sydd yn byw ymhellach i ffwrdd.

10.18 Mae'r un yn wir gyda chyfleoedd cymdeithasol eraill gyda'r hwyr – sef y bydd rhai yn gallu dod i fan canolog – dyweder yng nghanol y ddinas neu mewn hyb ardal - ond na fydd hynny'n gweithio i lawer o bobl ifanc. Pe byddai darpariaeth Gymraeg ar gael yn eu cymuned leol yna mae'n bosib y byddent yn fwy tebygol o fanteisio arno ac felly'n fwy tebygol o ddefnyddio'r iaith y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Ond mae'n debyg mai dyna'r uchelgais – sef sicrhau ystod o weithgareddau a chyfleoedd hwyliog mewn lleoliadau amrywiol ar hyd a lled y ddinas i ddefnyddio'r Gymraeg.

10.19 O ran oedolion bydd y gwaith gyda dysgwyr yn parhau i'r Fenter gan adeiladu ar y gwaith a ddechreuwyd yn ystod y cyfnod clo – gyda chyfleoedd cymdeithasol ar ffurf sgyrsiau a gweithgareddau hamdden a chryfhau'r cynnig o ran y sin gomedi Gymraeg a hybu manteision y Gymraeg i fyd busnes gydag ailsefydlu Cwlwm Busnes Caerdydd.

10.20 Bydd y ffocws ar ddwyrain y ddinas yn parhau lle mae lefel y gweithgaredd Cymraeg a nifer y siaradwyr yn draddodiadol is. Bydd ffocws hefyd ar gryfhau'r ymgysylltiad ag unigolion a chymunedau'r mwyafrif byd-eang.

10.21 Mae'r Fenter yn bartner allweddol ac yn Cyd-gadeirio Fforwm Caerdydd Ddwyieithog – Fforwm sy'n gyfrifol am sicrhau gweithrediad llwyddiannus Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog Cyngor Caerdydd, sydd â'r nod o wireddu prifddinas wirioneddol ddwyieithog i Gymru.

10.22 Dylid nodi hefyd bod gweithgareddau cyfrwng Cymraeg yn digwydd y tu hwnt i fantell trefnu ffurfiol gan Fenter Caerdydd – er enghraifft mae clybiau a thimau pêl-droed, rygbi, hoci a champau eraill wedi bodoli ers degawdau yn y ddinas drwy gyfrwng y Cymric, CRICC, yr Urdd a lleoliadau a busnesau sy'n croesawu a hyrwyddo'r Gymraeg, fel canolfan pêl-droed *Gôl* – yn ogystal â chwaraeon o fewn yr ysgolion Cymraeg eu hunain wrth reswm.

10.23 Yn y maes adloniant, er bod Clwb Ifor Bach yn parhau i gynnig darpariaeth Gymraeg amrywiol, mae bellach yn safle cerddoriaeth gyda'r nos i fandiau a digwyddiadau yn y *ddwy* iaith. Ond mae bandiau Cymraeg yn chwarae erbyn hyn mewn lleoliadau eraill ar draws y ddinas, fel yn y Clwb Rhyddfrydwyr yn Nhreganna, neu yn y Globe yn y Rhath, Tramshed yn Grangetown neu'r Eglwys Norwyaidd yn y Bae neu yng Nghanolfan y Mileniwm. Gall y lleoliadau hyn fynd a dod – fel Gwdihŵ - neu gau dros dro fel Neuadd Dewi Sant neu symud safle, fel clwb Porters. Ond mae'r gweithgaredd perfformio i'w weld yn mynnu llwyfan waeth beth fo'r sefyllfa o ran y gofod sydd ar gael.

**********

## 11. Seilwaith Weledol




11.1 Mae defnydd cywir a phwrpasol o’r Gymraeg mewn datblygiadau newydd i’w groesawu’n fawr, o enw’r datblygiad ei hun i enw’r stryd (os yw hi’n stryd newydd). Mae’n bwysig bod hyn yn cael ei weld o ddechrau’r cyfnod adeiladu hyd yn oed.




Gall byrddau ac arwyddion fel hyn gan ddatblygwyr fod yn weledol am flwyddyn a mwy ar hyd a lled y ddinas, ac fel arwyddion iechyd a diogelwch dwyieithog hefyd, maent yn gyfle gwych i greu argraff fyw o’r Gymraeg yn y ddinas o’r cychwyn cyntaf, beth bynnag am natur y neges!



11.2 Mae'r Cyngor ers rhai blynyddoedd bellach wedi mabwysiadu polisi o ehangu'r defnydd o enwau dwyieithog ar strydoedd dethol yn y ddinas ynghyd â rhoi enwau Cymraeg i strydoedd newydd y ddinas, enwau sydd â chysylltiad â hanes a threftadaeth yr ardal.[41] Nodedig yw'r cynnydd gweledol yn y degawd diwethaf hefyd yn y defnydd o'r Gymraeg gan rai busnesau preifat yn y ddinas, yn enwedig yng nghanol y ddinas – boed iddyn nhw gysylltiadau Cymraeg ai peidio.










11.3 O chwilio amdanynt mae tystiolaeth i'w weld hwnt ac yma o ddefnyddio'r Gymraeg ar furluniau neu mewn sloganau ar waliau ac ar arwyddion ar draws y ddinas hefyd. Gall hyn gael effaith luosogi yn aml wrth i fodolaeth un blaen siop neu un arwydd Cymraeg ysgogi busnesau cyfagos i ddechrau efelychu'r patrwm a'r arfer da.

Er enghraifft yn y busnesau sy'n ffinio â Pharc Fictoria yng ngorllewin y ddinas, doedd dim un gair o Gymraeg i'w weld wrth edrych ar fusnesau'r ardal yna ddeng mlynedd yn ôl. Ond ymddangosodd caffi BLOC ym mhen deheuol y parc ynghyd â'r murlun Cymraeg uchod ac yna gwelwyd hynny'n cael

[41] Polisi Enwi Strydoedd.pdf

ei ategu gerllaw mewn busnesau cyfagos - tan yn ddiweddar iawn roedd y Gymraeg yn weladwy ar wyneb flaen 4 o'r 8 busnes sy'n ffinio â'r parc gyferbyn a BLOC.




11.4 Ac ym mhen gogleddol Parc Fictoria erbyn hyn, mae'r hen glwb bowlio bellach yn gartref i glwb pêl-foli traeth lle'r arferai'r lawnt fowlio fod - ond yr adeilad ei hun yn gartref yn ystod y dydd i gylch meithrin Cymraeg newydd – Cylch Meithrin y Parc – sy'n amlygu'r gydberthynas naturiol esblygol o elfennau cadarnhaol yn plethu drwy ei gilydd ac un newid da yn arwain at ddatblygiad da arall.



Mae nodweddion gweledol fel hyn yn ysgogiadau cychwynnol amlwg i newid agweddau a chanfyddiadau. Mae polisi Blaen Siop y Cyngor (2019)[42] sydd i'w gael fel Canllaw Cynllunio Atodol ynghlwm â'r Cynllun Datblygu mabwysiedig yn datgan:

> *Mae arwyddion Cymraeg a dwyieithog yn gwella cymeriad Caerdydd ac yn hyrwyddo'r ddinas a'i diwylliant. Mae defnyddio'r Gymraeg a'i chynnwys ar arwyddion blaen siop yn gallu helpu i hyrwyddo busnesau / denu cwsmeriaid ac fe gaiff ei annog yn weithredol a'i gefnogi yn rhan o gynigion blaen siop â dyluniad da.*

---

[42] CCA Dyluniad ac Arwyddion Blaen Siop - Mehefin 2019

- ac felly'n anogaeth ar lefel polisi cynllunio hefyd i fusnesau fanteisio ar a hyrwyddo gwelededd y Gymraeg yn y ddinas sydd yn ei dro yn anogaeth i ddefnyddio'r iaith.

**Ystyriaeth Olaf**:

Ac eithrio canol y ddinas a rhai mannau dethol fel hyn ym Mharc Fictoria, y tu allan i ganol y ddinas ei hun ar y cyfan, byddai'n deg dweud bod y rhan fwyaf o ganolfannau ardal a lleol yn y ddinas yn parhau heb eu cyffwrdd gan y newidiadau graddol ond calonogol a nodir yn nes i'r canol - ac *yn y cymdogaethau hyn* yn anad unman arall efallai, y gall seilwaith weledol y CDLl newydd arfaethedig, gyda'r pwyslais newydd ar ddatblygiadau tir llwyd, annog defnydd dyddiol ar yr iaith a chynorthwyo'r ymdrech i wneud y brifddinas *gyfan* yn un gwirioneddol ddwyieithog.

**********

